Dogfen ir Cyhoedd

Dr Gwynne Jones
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | | NOTICE OF MEETING |
|---|---|---|
| PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL (GALW PENDERFYNIAD I FEWN) | | CORPORATE SCRUTINY COMMITTEE (CALL-IN OF A DECISION) |
| DYDD LLUN, 6 AWST 2018 am 10:00 y. b. | | MONDAY, 6 AUGUST, 2018 at 10:00 a.m. |
| YSTAFELL BWYLLGOR 1, SWYDDFEYDD Y CYNGOR, LLANGEFNI | | COMMITTEE ROOM 1, COUNCIL OFFICES, LLANGEFNI |
| Swyddog Pwyllgor | Ann Holmes 01248 752518 | Committee Officer |

**AELODAU / MEMBERS**
Cynghorwyr / Councillors:-

**PLAID CYMRU / THE PARTY OF WALES**

Lewis Davies, Trefor Lloyd Hughes, MBE, Dylan Rees *(Is-Gadeirydd/Vice-Chair),* Alun Roberts, Nicola Roberts

**Y GRWP ANNIBYNNOL / THE INDEPENDENT GROUP**

Richard Griffiths, Richard O. Jones

**PLAID LAFUR CYMRU/ WALES LABOUR PARTY**

J. Arwel Roberts

**ANNIBYNNWYR MÔN / ANGLESEY INDEPENDENTS**

Aled Morris Jones (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru/Welsh Liberal Democrats)*(Cadeirydd/Chair)*
Bryan Owen

**AELODAU CYFETHOLEDIG (Gyda hawl pleidleisio ar faterion Addysg) /**
**CO-OPTED MEMBERS (With voting rights when dealing with Educational matters)**

Mr Keith Roberts (Yr Eglwys Gatholig / The Catholic Church)
Mrs Anest G. Frazer (Yr Eglwys yng Nghymru / The Church in Wales).

**R H A G L E N**

1 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

2 **GALW PENDERFYNIAD I FEWN - MODERNEIDDIO YSGOLION ARDAL SEIRIOL** (Tudalennau 1 - 114)

Penderfyniad a waned gan y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Gorffennaf, 2018 mewn perthynas â moderneiddio ysgolion ardal Seiriol sydd wedi'i alw i fewn gan y Cynghorwyr John Arwel Roberts, Robert Llewelyn Jones, Bryan Owen, Peter Rogers ac Aled Morris Jones.

Mae'r ddogfennaeth ynghlwm fel a ganlyn :-

- Y Penderfyniad a gyhoeddwyd ar 23 Gorffennaf, 2018

- Y Cais Galw i Fewn

- Y adroddiad a gyflwynwyd i gyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar 18 Gorffennaf, 2018 ynghylch Moderneiddio Ysgolion Ardal Seiriol.

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **2 Moderneiddio Ysgolion - Ardal Seiriol**<br>Adroddiad gan y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Partneriaethau, Cymunedau a Gwella Gwasanaethau) |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd –**<br><br>• **Cymeradwyo Opsiwn 1, sef i adnewyddu ac ymestyn Ysgol Llandegfan, cau Ysgol Biwmares ac adnewyddu Ysgol Llangoed.**<br>• **Bod trafodaethau gyda grwpiau gofal plant cyn-ysgol – “Little Puffins” a Ti a Fi – yn cael eu cynnal yn fuan i weld pa fath ddarpariaeth gofal plant cyn-ysgol sydd ei hangen yn yr ardal.**<br>• **Bod Cwlwm Seiriol yn cael ei gynnwys yn y Grwp Rhanddeiliaid ôl-penderfyniad fydd yn cael ei sefydlu.**<br><br>*Datganodd y Cynghorydd Carwyn Jones ddiddordeb a ni chymerodd ran yn y bleidlais ar y mater* |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Bwrw ymlaen gyda’r Rhaglen Moderneiddio Ysgolion.** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

# FFURFLEN GAIS I ALW PENDERFYNIAD I MEWN /CALL-IN APPLICATION FORM

- **RHAID i bump aelod nad ydynt ar y Pwyllgor Gwaith** lofnodi a danfon y ffurflen at y Prif Weithredwr (neu ei gynrychiolydd) yn ystod y cyfnod galw-i-mewn fel y nodir yn y Cyfansoddiad. Dylid anfon copi hefyd at y Rheolwr Sgriwtini /
- ***MUST be signed by five Non-Executive Members*** *and delivered to the Chief Executive (or his representative) during the call - in period as stipulated in the Constitution. A copy should also be forwarded to the Scrutiny Manager.*

**RHAN 1 / *SECTION 1***

**Y PENDERFYNIAD A WNAED -Ticiwch y bocs i ddangos pwy wnaeth y penderfyniad a nodwch y dyddiad y gwnaed y penderfyniad:**

***DECISION TAKEN - Tick the box to show the decision taker and insert the date when the decision was made:***

| | | |
|---|---|---|
| **Pwyllgor Gwaith** | ☑ | ***The Executive*** |
| **Yr Arweinydd** | | ***The Leader*** |
| **Aelod Portffolio (gydag awdurdod wedi ei ddirprwyo gan y Pwyllgor Gwaith )** | | ***Portfolio Member ( with delegated authority from the Executive)*** |
| **Swyddog ( gydag awdurdod wedi ei ddirprwyo gan y Pwyllgor Gwaith ) /** | | ***Officer ( with delegated authority from the Executive)*** |

**Dyddiad y penderfyniad** / ***Date of decision*** *: 18.7.2018, cyhoeddwyd 23.7.2018*

**RHAN 2 / *SECTION 2***

**RHIF EITEM Y PENDERFYNIAD A'R PWNC (gellir cael y wybodaeth hon o'r penderfyniad a gyhoeddwyd) / DECISION *ITEM NUMBER AND SUBJECT MATTER (Information is identifiable from published decision):***

Rhif 2 Moderneiddio Ysgolion – Ardal Seiriol

**RHAN 3 / *SECTION 3***

**Y RHESWM DROS ALW'R PENDERFYNIAD I MEWN / REASON *FOR CALL IN:***

Rheswm am alw’r penderfyniad i mewn: Nid yw’r syniad o leoli ysgol ar safle newydd i gymryd disgyblion o Landegfan, Biwmares a Llangoed wedi cael ei ymchwilio’n llawn.

**RHAN 4 / *SECTION 4***

**Y CWESTIWN ALLWEDDOL Y BWRIEDIR EI OFYN / KEY *PROPOSED QUESTION :***

1) Mae'r cwestiynau allweddol yn ymwneud â'r effaith a gaiff cau'r ysgol ar dref Biwmares. A oes tystiolaeth y bydd disgyblion yn mynychu'r ysgol yn Llangoed?
2) Beth ddaw o'r ysgol bresennol ym Miwmares o ystyried y ffaith bod yr adeilad yn un rhestredig?

**RHAN 5 / *SECTION 5***

**YR AELOD SY'N ARWAIN Y BROSES GALW I MEWN ( enw'r Aelod sy'n Arwain fel y gellir sefydlu pwynt cyswllt) / *LEAD CALL- IN MEMBER ( Lead Call- In Member to be identified so that a point of contact is available ) :***

**Y Cynghorydd Bryan Owen**

**RHAN 6 / *SECTION 6***

| |
|---|
| **1) Llofnod/*Signature:*** <br><br> **Printiwch eich Enw/*Print Name :*** **John Arwel Roberts** |
| **2)Llofnod/*Signature:*** <br><br> **Printiwch eich Enw/*Print Name :*** **Robert Llewelyn Jones** |
| **3)Llofnod/*Signature:*** <br><br> **Printiwch eich Enw/Print Name :** **Bryan Owen** |
| **4)Llofnod/*Signature:*** <br><br> **Printiwch eich Enw/*Print Name :*** **Peter Rogers** |
| **5)Llofnod/*Signature:*** <br><br> **Printiwch eich Enw/*Print Name :*** **Aled Morris Jones** |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Gwaith** |
| **Dyddiad:** | **18 Gorffennaf 2018** |
| **Pwnc:** | **Rhaglen Moderneiddio Ysgolion – Adroddiad ar yr Ymgynghoriad Statudol yn Seiriol ac i ystyried yr argymhellion a nodwyd.** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Cyng R Meirion Jones (Aelod Portffolio ar gyfer Gwasanaethau Addysg, Llyfrgelloedd, Ieuenctid a Diwylliant)** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Arwyn Williams (Pennaeth Dysgu)** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Annwen Morgan ( Prif Weithredwr Cynorthwyol)** |
| **Aelodau Lleol:** | **Cyng Carwyn Jones**<br>**Cyng Lewis Davies**<br>**Cyng Alun Roberts** |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

Mae'r dystiolaeth a gyflwynwyd ( Atodiad 1)yn arwain at y casgliadau a ganlyn:

1.**Bod angen i Ysgol Llandegfan**, yn sgîl nifer y disgyblion, perfformiad cyfredol, cost y pen ac ôl-groniad cynnal a chadw ,**fod yn rhan allweddol o unrhyw drefniadaeth newydd**.

2**.Bod maint yr ysgolion, ôl-groniad cynnal a chadw, cost y pen a % llefydd gweigion yn golygu nad yw yn bosib cyfiawnhau cadw Ysgol Biwmares ac Ysgol Llangoed ar agor.** Byddai penderfyniad i uno ysgolion Biwmares a Llangoed yn:-

- dod â dwy ysgol lle mae perfformiad cyfredol yn debyg ynghyd ac yn creu'r amodau cywir i godi safonau;
- lleihau llefydd gweigion [20% yn Llangoed a 72% yn Biwmares] ac yn gwneud cyfraniad tuag at leihau'r gwahaniaeth rhwng cost y pen;
- cynnig cyfle i roi sylw i'r ôl-groniad cynnal a chadw yn y ddwy ysgol a darparu un adeilad o safon unfed ganrif ar hugain ar gyfer y plant a'r athrawon;
- yn gwneud defnydd mwy effeithlon o adnoddau'r Cyngor;
- lleihau'r allyriadau carbon.

(Dylid nodi bod adnewyddu yn golygu gwella'r adeilad i safon ysgolion yr unfed ganrif ar hugain)

Yn sgîl yr uchod, a'r holl sylwadau a dderbyniwyd, cyflwynir yr opsiynau a ganlyn i'r Pwyllgor gwaith i'w hystyried a'u penderfynu:

**Opsiwn 1**
**Adnewyddu ac ymestyn Ysgol Llandegfan, cau Ysgol Biwmares ac adnewyddu Ysgol Llangoed.**
NEU
**Opsiwn 2**
**Adnewyddu ac ymestyn Ysgol Llandegfan, cau Ysgol Llangoed ac adnewyddu Ysgol Biwmares.**

**B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?**

Cynhaliwyd ymgynghoriad anstatudol ar yr opsiynau ar gyfer moderneiddio'r ddarpariaeth addysg gynradd yn ardal Seiriol am gyfnod rhwng Mehefin a Gorffennaf 2017. Yn dilyn cymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith ym mis Hydref, 2017, cynhaliwyd proses ymgynghori statudol o 20 Tachwedd, 2017 hyd 6 Chwefror, 2018. Ystyriwyd yr adroddiad ar ganlyniad yr ymgynghoriad statudol gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Mawrth, 2018.

Yn y pwyllgor gwaith at y 26 Mawrth 2018 dywedodd yr Aelod Portffolio mai un o'r pethau y beirniadwyd yr Awdurdod yn ei gylch o ran ei broses gwneud penderfyniadau, yn enwedig mewn perthynas ag addysg, yw nad yw'n gwrando ar farn rhanddeiliaid, a bod materion yn cael eu penderfynu ymlaen llaw sy'n golygu mai ymarfer ticio blwch yn unig yw ymgynghori.

Pwysleisiodd yr Aelod Portffolio bod yr Awdurdod yn gwrando ac yn yr achos hwn mae wedi nodi'r sylwadau cryf a wnaed yng nghyfarfod y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar 12 Mawrth 2018 mewn perthynas â'r cynigion a gyflwynwyd - yn benodol mewn perthynas â chau Ysgol Biwmares - yn ogystal â'r sylwadau a wnaed yn ystod y broses ymgynghori yn enwedig gan gymuned Biwmares.

O gofio'r farn a fynegwyd, dywedodd yr Aelod Portffolio ei fod felly'n cynnig y dylid cynnal proses ymgynghori statudol newydd ar gyfer ardal Seiriol; bydd yr adroddiad ymgynghori yn adlewyrchu barn Estyn a rhanddeiliaid eraill **a bydd yn seiliedig ar gynigion i gau naill ai Ysgol Biwmares neu Ysgol Llangoed am y rheswm bod yn rhaid i'r Awdurdod symud ymlaen â'r rhaglen i foderneiddio ysgolion ar yr Ynys.**

Roedd y Pwyllgor Gwaith ar y 26 Mawrth 2018 yn cefnogi'r cynnig.

| C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith? |
|---|
| Mae'r Pwyllgor Gwaith yn gyfrifol am faterion trefnidiaeth ysgolion. |

| CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn? |
|---|
| Ydyw-gweler y pwynt uchod. |

| D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
|---|
| Ydyw-Mae'n un o'r cynlluniau yn y Rhaglen Amlinellol Strategol a gymeradwywyd gan y Pwyllgor gwaith ar 13 Ionawr 2014. |

| DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? | | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | Mae sylwadau'r Uwch Dim Arweinyddiaerh wedi eu hymgorffori yn yr adroddiad. |
| 2 | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | Mae cyfrifiadau swyddogion Cyllid wedi eu hymgorffori yn yr adroddiad. |
| 3 | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | Dylid ymdrin ag unrhyw faterion Adnoddau Dynol ( AD) sy'n codi o'r argymhellion yn unol a phrosesau ymgynghori ac AD eraill cydnabyddedig. |
| 5 | **Eiddo** | |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| 7 | **Caffael** | |
| 8 | **Sgriwtini** | Cynhelir cyfarfod o'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar 13 Gorffennaf, 2018 i ystyried y Rhaglen Moderneiddio Ysgolion yn ardal Seiriol.<br>Bydd adroddiad ar lafar yn y Pwyllgor Gwaith yn crynhoi argymhellion y Pwyllgor Sgriwtini. |
| 9 | **Aelodau Lleol** | Mae sylwadau'r aelodau wedi eu hymgorffori yn yr adroddiad. |
| 10 | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | Mae sylwadau rhanddeiliaid eraill wedi eu hymgorffori yn yr adroddiad yn ogystal ag asesiad o'r opsiynau amgen. |

| **E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | | |
|---|---|---|
| **1** | **Economaidd** | Ddim yn berthnasol |
| **2** | **Gwrthdlodi** | Ddim yn berthnasol |
| **3** | **Trosedd ac Anhrefn** | Ddim yn berthnasol |
| **4** | **Amgylcheddol** | Ddim yn berthnasol |
| **5** | **Cydraddoldebau** | Cwblhawyd asesiad effaith fel rhan o'r broses ymgynghori statudol.(Atodiad 2.) |
| **6** | **Cytundebau Canlyniad** | Ddim yn berthnasol |
| **7** | **Arall** | Ddim yn berthnasol |

| **F - Atodiadau:** |
|---|
| Atodiad 1 - Adroddiad Ymgynghori Statudol - Ardal Seiriol<br>Atodiad 2 – Asesiad Effaith-- Ardal Seiriol |

| **FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** |
|---|
| Cynllun y Cyngor 2017-2022<br>www.ynysmon.gov.uk |

**SWYDDOGOL – *OFFICIAL***

# ADRODDIAD AR YR YMGYNGHORI STATUDOL – ARDAL SEIRIOL
# *STATUTORY CONSULTATION REPORT – SEIRIOL AREA*

## 22 Mai – 2 Gorffennaf 2018 / *22 May – 2 July 2018*




**CYNGOR SIR YNYS MÔN / *ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL***
**ADRAN DYSGU GYDOL OES / *LIFELONG LEARNING DEPARTMENT***

[www.ynysmon.gov.uk](http://www.ynysmon.gov.uk) / [www.anglesey.gov.uk](http://www.anglesey.gov.uk)

| Rhif | Cynnwys | Tudalen |
|---|---|---|
| 1. | CYFLWYNIAD A CHEFNDIR | 3 |
| 2. | GYRWYR NEWID | 3 |
| 3. | Y BROSES YMGYNGHORI | 5 |
| 4. | SYLWADAU O'R CYFARFODYDD YMGYNGHORI | 6 |
| 5. | YMATEBION O YSGOL BIWMARES | 7 |
| 6. | YMATEBION O YSGOL LLANDEGFAN | 8 |
| 7. | YMATEBION O YSGOL LLANGOED | 8 |
| 8. | YMATEBION ERAILL | 9 |
| 9. | ADBORTH GAN DDISGYBLION | 10 |
| 10. | YMATEB I'R SYLWADAU A DDERBYNIWYD | 16 |
| 11. | YSTYRIAETHAU ARIANNOL | 35 |
| 12. | YSTYRIAETHAU AMGYLCHEDDOL | 37 |
| 13. | CASGLIADAU ac ARGYMHELLIAD | 38 |
| 14. | ADBORTH AR LEIN | 40 |

## 1. CYFLWYNIAD A CHEFNDIR

Mae Cyngor Sir Ynys Môn am sicrhau'r ddarpariaeth addysgol orau un ar gyfer holl blant a phobl ifanc yr ynys.

Yn rhan o'r ymrwymiad hwn, mae'r Cyngor yn adnabod bod moderneiddio addysg a sicrhau bod ein hadeiladau ysgol yn creu amgylchedd dysgu deniadol sy'n symbylu plant a phobl ifanc i ddod yn ddysgwyr effeithiol a chyflawni sgiliau bywyd yn brif flaenoriaeth.

Yn y cyd-destun hwn, mae'r Cyngor am foderneiddio ysgolion er mwyn:

- gwella deilliannau addysgol ar gyfer plant a phobl ifanc a thorri'r cyswllt rhwng amddifadedd a chyrhaeddiad addysgol isel,
- gwella ymhellach safonau arweinyddiaeth ac ansawdd addysgu a dysgu,
- sicrhau ysgolion sector-arweiniol a safonau sector-arweiniol ar gyfer pob cymuned.

Bydd cyflwyno'r rhaglen foderneiddio uchelgeisiol hon yn gofyn am uno ysgolion, creu cyfuniad o ffederasiynau ysgolion, ad-drefnu dalgylchoedd yn helaeth yn seiliedig ar ailfodelu adeiladau ysgolion sydd yn bodoli neu adeiladu ysgolion ardal newydd a chau ysgolion nad ydynt yn addas i bwrpas.

## 2. GYRWYR NEWID MODERNEIDDIO BYDD YN DYLANWADU AR BENDERFYNIAD YNGHYLCH Y DDARPARIAETH ORAU I'R ARDAL

Nodir isod rhai o'r gyrwyr moderneiddio fydd yn dylanwadu ar benderfyniad ynghylch y ddarpariaeth orau i'r ardal.

*Codi safonau addysgol*

Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i barhau i godi safonau'n os am gyrraedd ei nod o fod yn un o'r 5 Awdurdod Lleol gorau yng Nghymru. Yn ôl gwaith ymchwil presennol, awgrymir ei bod yn anodd cysylltu safonau â maint ysgol. Fodd bynnag, mae adroddiadau diweddar yn awgrymu bod gan ysgolion cynradd mwy [dros 150 o ddisgyblion neu fwy] dimau arweinyddiaeth sydd â mwy o gapasiti i sicrhau gwelliannau; athrawon gydag ystod ehangach o arbenigedd mewn meysydd penodol sydd yn ei dro yn dylanwadu ar arferion athrawon eraill a thrwy hynny yn cael dylanwad cadarnhaol ar safonau gwaith plant. Mewn ysgolion llai [o gwmpas 50 neu lai] mae dosbarthiadau oedrannau cymysg yn cynnwys hyd at bedwar grŵp oedran, ac weithiau yn rhychwantu cyfnodau allweddol. Mae hyn yn gosod her sylweddol i athrawon os am sicrhau bod pob plentyn yn cael ei ymestyn hyd eithaf i'w allu. Mae'r strategaeth moderneiddio ysgolion yn anelu i ddileu esiamplau o ddosbarthiadau gyda mwy na 2 grŵp oed.

*Lleihau'r amrywiad mewn cost y disgybl*

Mae'r gost fesul disgybl yn amrywio'n sylweddol, o £2,795 i £10,828, ar draws ysgolion cynradd y sir. Roedd gwariant y Cyngor ar ysgolion cynradd yn 2017-18 [£3,962 y disgybl ar gyfartaledd] y trydydd uchaf yng Nghymru. Bydd angen i'r rhaglen moderneiddio roi sylw i normaleiddio'r gost y disgybl ar draws yr awdurdod a'i chysoni â'r cyfartaledd Cymru gyfan.

*Sicrhau bod adeiladau ysgol yn creu amgylchedd dysgu orau bosib*

Mae gwella ansawdd yr adeiladau ysgol a sicrhau'r amgylchedd dysgu gorau posibl [sy'n adlewyrchu'r rhai yn ein hadeiladau ysgolion diweddaraf - Ysgol y Graig, Ysgol Cybi ac Ysgol Rhyd y Llan] ar gyfer ein plant yn hanfodol bwysig i gwrdd ag anghenion dysgu ac addysgu yn yr unfed ganrif ar hugain. Mae'r math hyn o amgylchedd yn cynnwys –

- cyfleusterau addysgu a dysgu o'r ansawdd gorau,
- cyfleusterau TGCh o’r radd flaenaf,
- mannau chwarae addas,
- ardaloedd staffio a gweinyddu priodol,
- ynghyd â diogelwch ar gyfer adeiladau’r ysgol a safle’r ysgol.

Noda Estyn mewn adroddiad o 2007 bod “gwella ansawdd yr adeiladau’n cael effaith lesol iawn ar ansawdd yr addysgu a morâl y staff sydd, yn ei dro, yn cael effaith gadarnhaol ar berfformiad plant.” Bydd gan bob plentyn fynediad at gyfleusterau addas fel y gellir darparu ystod lawn o brofiadau addysgol.

Nid yw yn bosib i’r Cyngor gynnal nifer fawr o adeiladau ysgol sy’n heneiddio ac yn gostus i’w cynnal. Rhaid sefydlu patrwm newydd o ysgolion sydd yn dileu’r diffygion yn yr adeiladau presennol, gan gynnwys materion iechyd a diogelwch sylweddol sy’n gysylltiedig â’r adeilad neu’r safle. Mae angen datblygu cyfundrefn o ysgolion lle mae trefniadau cynnal a chadw ar eu cyfer sy’n gynaliadwy.

*Creu’r amodau fel bod Penaethiaid yn llwyddo - cynyddu capasiti arweinyddol*
Mae ysgolion effeithiol yn cael eu harwain yn dda. Mae gan ysgolion llwyddiannus arweinyddiaeth gref ar bob lefel, gan gynnwys y Llywodraethwyr. Mae’r sialensiau sydd ynghlwm wrth arwain a rheoli ysgol wedi cynyddu’n sylweddol yn y blynyddoedd diwethaf ac mae’r disgwyliadau’n parhau i gynyddu. Mae angen amser digyswllt digonol ar Bennaeth, gyda chefnogaeth dirprwy bennaeth neu uwch dïm rheoli, i sicrhau bod yr addysgu a’r dysgu o’r radd flaenaf, i werthuso a chodi safonau, i ddatblygu gweithdrefnau hunan-arfarnu trylwyr ac i sicrhau datblygiad proffesiynol parhaus y staff. Mae’r rhain yn ddisgwyliadau sylweddol. Mae angen sicrhau bod gan Benaethiaid o leiaf 50% o amser digyswllt. Golyga hyn bod angen i ysgol [neu ffederasiwn o ysgolion] gael o leiaf 100 o ddisgyblion os am ddarparu’r amser angenrheidiol i’r Pennaeth i gyflawni’r rôl arwain yn llwyddiannus.

*Sicrhau cyflenwad digonol o Benaethiaid at y dyfodol*
Dros y pum mlynedd nesaf mae’n debyg y bydd 28% o'n penaethiaid cynradd yn ymddeol. Oherwydd bod llawer ohonynt yn arwain ysgolion bach, bydd angen i’r Cyngor ystyried y modelau arweinyddiaeth fwyaf effeithiol a chynaliadwy ar gyfer y dyfodol. Mae nifer yr ymgeiswyr am swyddi pennaeth wedi lleihau ac mae hyn yn destun pryder. Mae angen i’r rhaglen moderneiddio ysgolion geisio ateb y broblem drwy sicrhau cyfleoedd addas i ddatblygu arweinyddiaeth mewn ysgolion unigol. Mae angen arweinwyr rhagorol ar ein hysgolion. Bydd y rhaglen moderneiddio’n rhoi sylw i faterion cynllunio olyniaeth ac yn diogelu a datblygu’r talentau arweinyddiaeth sydd gennym yn ein hysgolion.

Yn Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru 2016-17 fe nodir:

*“Ym mron pob ysgol, ansawdd yr arweinyddiaeth yw’r ffactor mwyaf arwyddocaol o ran pennu effeithiolrwydd ysgol. Ceir heriau cynyddol wrth recriwtio penaethiaid, yn enwedig mewn ysgolion ffydd ac ysgolion bach mewn ardaloedd gwledig (Adroddiad Blynyddol Estyn 2016-2017)*

Gweler isod dabl sy’n manylu ar nifer yr ymgeiswyr ar gyfer swyddi penaethiaid ysgolion gynradd ym Môn ers 2015:

| | Nifer y swyddi | Nifer yr ymgeiswyr | Nifer o ail hysbysebion am y swydd |
|---|---|---|---|
| Ysgolion dan 100 | 11 | 13 | 1 |
| Ysgolion dros 100 | 6 | 15 | 0 |

Gweler fod llai o ymgeiswyr ar gyfer swyddi penaethiaid yn ysgolion cynradd Môn sydd yn llai na 100.

*Defnydd cymunedol o adeilad yr ysgol*
Mae ymchwil yn awgrymu bod ysgolion gyda gwasanaethau ychwanegol fel clybiau brecwast, clybiau ar ôl ysgol, gwarchod plant, gweithgareddau haf a phenwythnos yn cyflawni safonau uwch a chyswllt gwell â rhieni a'r gymuned. Disgwylir i ysgolion hefyd fod yn adnodd i'r gymuned leol er mwyn hyrwyddo gweithgareddau cymunedol sy'n cynnwys rhieni, aelodau o'r gymuned a grwpiau lleol. Mae'r math yma o weithgaredd yn bwysig i ddatblygu'r cysylltiad rhwng ysgolion a'r gymuned leol. Bydd ysgolion a ddatblygir fel rhan o'r rhaglen foderneiddio yn gweithredu fel ysgol ardal h.y. yn darparu ystod o wasanaethau a gweithgareddau sy'n aml yn digwydd y tu allan i'r diwrnod ysgol, i helpu i gwrdd ag anghenion y plant, eu teuluoedd a'r gymuned ehangach.

*Lleihau nifer llefydd gweigion*
Ym Medi 2017, roedd nifer y llefydd gweigion mewn ysgolion cynradd ym Môn yn 12.3%. Er hynny, mae angen i'r Cyngor, barhau i leihau nifer y llefydd gweigion er mwyn cwrdd â disgwyliadau Llywodraeth Cymru ac ymateb i un o feirniadaethau Estyn yn adroddiad 2012. Golyga hyn bod angen anelu at sefyllfa lle bo ysgolion yn fwy na 85% llawn gan anelu bod 90% o'r llefydd wedi eu llenwi ar draws y sector cynradd.

*Darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog*
Bydd unrhyw drefniant a ddatblygir fel rhan o'r rhaglen foderneiddio'n rhoi blaenoriaeth i gryfhau a diogelu'r Gymraeg / dwyieithrwydd.

## 3. Y BROSES YMGYNGHORI

Ymgynghorodd y Cyngor gyda rhieni, llywodraethwyr a staff yn y tair ysgol a hefyd gyda'r cynghorwyr lleol a chyda Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill. Roedd y cyfnod ymgynghori'n digwydd rhwng 22 Mai hyd at 2 Gorffennaf 2018
.
Cynhaliwyd sesiynau galw mewn gyda rhanddeiliaid fel a ganlyn.

| Ysgol | Dyddiad (yn 2018) | | Cyfarfod gyda |
|---|---|---|---|
| Llandegfan | Dydd Llun | 4 Mehefin | Sesiynau galw fewn |
| Biwmares | Dydd Mawrth | 5 Mehefin | Sesiynau galw fewn |
| Llangoed | Dydd Mercher | 6 Mehefin | Sesiynau galw fewn |

Pan fydd Llywodraeth Cymru yn cyfrannu at ariannu ysgol newydd, mae angen i'w buddsoddiad gwrdd ag amcanion buddsoddi sef:-

1. lleihau llefydd gweigion
2. cynyddu amser di gyswllt i athrawon
3. i'r ysgol fod o safon ysgol yr unfed ganrif ar hugain
4. gwella deilliannau addysgol
5. lleihau ôl groniad cynnal a chadw
6. gwella effeithlonrwydd ynni

## 4. SYLWADAU O'R CYFARFODYDD YMGYNGHORI

Y cynnig mae Cyngor Sir Ynys Môn yn ymgynghori arno yw:
*Opsiwn 1* - Adnewyddu ac ymestyn Ysgol Llandegfan, cau Ysgol Biwmares ac adnewyddu Ysgol Llangoed
neu
*Opsiwn 2* - Adnewyddu ac ymestyn Ysgol Llandegfan, cau Ysgol Llangoed ac adnewyddu Ysgol Biwmares.

Rhestrir rhai sylwadau a phryderon o bob un o'r cyfarfodydd isod (nid yw'r rhain yn gofnodion o'r cyfarfodydd). Ceir fwy o sylwadau yn rhannau 5, 6 a 7 o'r adroddiad hwn.

**<u>Ysgol Llandegfan</u>**

1. Holwyd beth fyddai oblygiadau ffedereiddio?
2. Lle fydd yr estyniad yn mynd?
3. Sut fyddwch chi'n amcangyfrif faint o blant sy'n dod yma?
4. Sut fydd estyniad yn gweithio efo 'split levels'?
5. Angen gwella'r sefyllfa traffig a pharcio

**<u>Ysgol Biwmares</u>**

1. Holwyd am gyfluniadau eraill o ran ysgolion yn Seiriol e.e. ysgol newydd yn lle'r tair, ffedereiddio
2. Roedd rhai'n teimlo fod "Y Gymraeg wedi gwella ym Miwmares a bod y datblygiad hwn yn peryglu hynny a lladd y Gymraeg yn y dref".
3. Pryder am swyddi staff a'r teimlad fod angen mwy o wybodaeth am hyn.
4. Roedd nifer o'r farn fod gofal plant yn dda ym Miwmares e.e. Y Little Puffins, Cylch Ti a Fi ond nad oedd yr un darpariaethau ar gael yn Llangoed.
5. Barn rhai oedd byddai effaith Wylfa Newydd yn gwneud i "uwch Swyddogion eisiau byw ym Miwmares / Llandegfan".
6. Awydd gan y rhanddeiliaid ac yn benodol y Llywodraethwyr i gadw Ysgol Biwmares ac i'r Awdurdod astudio ac asesu'r opsiynau amgen gyflwynwyd gan randdeiliaid Ysgol Biwmares.
7. Anghytuno gyda'r ffigwr ôl-groniad cynnal a chadw oedd yn "uchel" yn eu barn nhw.
8. Rhai rhanddeiliaid yn teimlo fod y penderfyniad eisoes wedi ei wneud ac nad oedd y cyngor wedi ymateb i sylwadau yn y broses ymgynghori diwethaf
9. Teimlad rhai oedd fod digon o le amgylch Ysgol Biwmraes ond fod lleoliad Ysgol Llangoed yn anaddas o ran parcio ac nad oedd lle yno i ddatblygu'r ysgol
10. Teimlad gan rai rhanddeiliaid fod y Cyngor wedi cefnu ar nifer o bethau yn Miwmares eisoes - canolfan, llyfrgell, Llys a charchar, llyfrgell, gofal dydd
11. Roedd rhai'n teimlo bod y lleoliad ar gyfer tai gofal ychwanegol yn anaddas ar ben allt serth.
12. Crybwyllwyd y ffigurau yn y ddogfen ymgynghori fod niferoedd Biwmares am fod yn uwch na Llangoed yn y dyfodol agos
13. Dywedwyd nad oedd rhieni Biwmares yn bwriadu mynd â'u plant i Langoed gan y byddent yn mynd allan o'u ffordd.

**<u>Ysgol Llangoed</u>**

1. Nid oedd rhai rhanddeiliaid eisiau cau yr un o'r ysgolion ond roedd eraill yn hoff o'r syniad o'r hen a'r ifanc yn cymysgu.
2. Pryder am ddiogelwch plant pan fo'r gwaith adeiladu / addasu yn digwydd ac am eu diogelwch petaent yn gorfod teithio i'r ysgol ar fws.
3. Canmolodd rhai safonau Ysgol Llangoed ac roedd y Gymraeg yn gryfder yn Ysgol Llangoed yn ôl eraill. Yn ogystal, roedd canmoliaeth sylweddol i staff Ysgol Llangoed a'r awyrgylch gefnogol yn yr ysgol.
4. Roedd rhai yn amau'r niferoedd yn y rhagolygon ac yn gwrthod derbyn fod niferoedd Llangoed am fynd yn llai na Biwmares yn y dyfodol.
5. Holwyd am gyfluniadau eraill o ran ysgolion yn Seiriol e.e.
    a. pam nad ysgol newydd i Borthaethwy a Llandegfan ac ysgol newydd i Fiwmares a Llangoed neu 'super school' i Seiriol a pham na ddatblygwyd safle Lairds?
    b. Roedd eraill yn cefnogi rhyw fath o uned ym Miwmares hefyd ac ddim am weld y ddau bentref yn mynd ben ben â'i gilydd.
    c. Roedd ambell i un yn gweld mantais o gael Ysgol Seiriol – gyda hyblygrwydd rhannu adnoddau
6. Yn dilyn o hynny, holodd rhai a fyddai dosbarthiadau oedran cymysg yn unrhyw ddatblygiad newydd tra roedd eraill yn poeni am ba athrawon fydd yn addysgu eu plant.
7. Daeth rhai i'r casgliad fod y dadansoddiad ariannol yn dangos yn glir mai opsiwn Llandegfan a Biwmares yw'r un mwyaf cost-effeithiol a byddai rhaid i'r Cyngor gyfiawnhau os am ddewis opsiwn arall.
8. Teimlad fod ardal Seiriol yn cael 'bargen wael' gan fod llai o fuddsoddiad o'i gymharu ag ardaloedd eraill
9. Dywedodd rhai fod tai yn rhatach yn Llangoed ac felly roedd yn opsiwn gwell a mwy realistig ar gyfer teuluoedd ifanc
10. Pryder gan rai efallai byddai plant Llanddona yn gorfod symud eto.
11. Roedd rhai'n teimlo fod angen gwneud rhywbeth am broblemau parcio yn Ysgol Llandegfan

**5. YMATEBION O YSGOL BIWMARES**

5.1 Yn ogystal ag ymateb gan Gadeirydd Pwyllgor Ymateb Ysgol Gynradd Biwmares, derbyniwyd tua 56 o ymatebion gan randdeiliaid yr ysgol.

5.2 Derbyniwyd llythyr gan Gyngor Tref Biwmares. Roedd y Cyngor Tref yn bryderus nad oedd yr ymgynghoriad statudol hwn yn cynnig opsiwn i gadw'r tair ysgol sy'n bodoli. Er bod y Cyngor Tref yn bleidiol o ddatrysiad fyddai'n cadw'r tair ysgol, nid oedd yn awyddus i gael "cyfleusterau eraill yn cael eu hadeiladu ar safle'r ysgol". Ym marn y Cyngor Tref, roedd "ardal Seiriol yn haeddu buddsoddiad tebyg i'r hyn sydd wedi bod ar gyfer ysgolion yn ardaloedd Caergybi a Niwbwrch."

5.3 Roedd llythyr yn amlinellu'r ffyrdd roedd y Pwyllgor wedi codi ymwybyddiaeth o'r ymgynghoriadau a'r ffyrdd anogwyd trigolion i ymateb.

## 6. YMATEBION O YSGOL LLANDEGFAN

6.1 Derbyniwyd 4 ymateb gan randdeiliaid yr ysgol.

6.2 Dyma oedd rai o sylwadau Cadeirydd y Llywodraethwyr: "Mae Corff Llywodraethol Llandegfan yn gefnogol i'r egwyddor o foderneiddio ac yn barod i drafod cynigion a rhannu syniadau sydd gennym ar gyfer Ysgol Llandegfan. Byddai'r corff Llywodraethol yn croesawu'r rhaglen foderneiddio a gynigir i ddod ag Ysgol Llandegfan i fanyleb yr 21ain ganrif. Mae'r corff Llywodraethol yn cytuno â'r potensial ar gyfer ailfodelu'r ysgol a'r posibilrwydd o estyniad. Byddai'r Corff Llywodraethol yn croesawu cynyddu'r cynhwysedd i 180-200 gan y byddai hyn yn galluogi athro llawn amser ychwanegol a dosbarth penodol ym mhob blwyddyn ysgol."

6.3 Derbyniwyd llythyr gan Bennaeth Ysgol Llandegfan oedd yn crybwyll niferoedd y disgyblion yn yr ysgol sydd "wedi codi yn barhaus" nes fod yr ysgol wedi cyrraedd ei chapasiti. Dywedodd fod hyn yn dangos "ymddiried ein rhanddeiliaid ynddom i ddarparu addysg o safon uchel ac yn brawf y byddai unrhyw fuddsoddiad yma yn adeiladu ar y gwaith da sydd yn digwydd yma eisoes". Teimlai fod yr ysgol "yn chwarae rhan flaenllaw yn gymunedol, drwy annog y disgyblion i gymryd rhan a chyfrannu i dyfiant ei chymdeithas". Byddai'r Corff Llywodraethu'n "croesawu unrhyw fuddsoddiad i gynorthwyo adnewyddiad" yn yr ysgol a byddai'r Corff Llywodraethu "yn fodlon iawn i rannu ein syniadau ar hyn petai'r penderfyniad o fewn y ddogfen yn cael ei wneud. Credwn bod cyfle euraidd yma yn Llandegfan i barhau i ddatblygu'r Ysgol er budd yr holl randdeiliaid sydd ynghlwm â'r ardal."

6.4 Derbyniwyd llythyr gan ddau aelod etholedig y ward. Roeddent yn galw am i Ysgol Biwmares ac Ysgol Llangoed aros yn agored, mae gan y ddwy ddarpariaeth dda, gyda disgyblion hapus iawn, rhieni a staff ymroddedig. Yn seiliedig ar y cryn dipyn o farn leol a thrwy'r ymgynghoriadau a gawsom hyd yma, rydym o hyd yn gryf o hyd y dylai ysgolion Biwmares a Llangoed aros yn agored trwy'r syniad arloesol a modern a awgrymir isod [Tai Gofal Ychwanegol ac ysgol gynradd ar yr un safle]".

6.5 Nid oedd yr ymatebydd arall yn cytuno gyda ffedereiddio Ysgol Llangoed gydag Ysgol Llandegfan. Roedd y rhanddeiliad yn credu fod angen "cadw un prifathro i Landegfan oherwydd nifer y plant". Yn ogystal, roedd o'r farn bod "wir angen moderneiddio" Ysgol Llandegfan "er mwyn bod yn deg i'r nifer plant" sy'n mynychu'r ysgol. Teimlai'r person fod "angen adolygu'r drefn "parcio i rieni yn Llandegfan".

6.6 Roedd y pedwerydd rhanddeiliad o blaid "cau Ysgol Llangoed ac adeiladu ysgol newydd yn Biwmares wrth ochr y cyfleuster Gofal Ychwanegol". Dywedodd fod cryn dipyn o waith ymchwil yn dweud fod Gofal Ychwanegol ac addysg gynradd yn elwa o gysylltiad agos gyda'i gilydd ac felly dylid eu datblygu ar yr un safle.

## 7. YMATEBION O YSGOL LLANGOED

7.1 Derbyniwyd dros 170 o ymatebion gan randdeiliaid yr ysgol ac roedd y mwyafrif helaeth yn anghytuno gyda'r posibilrwydd o gau'r ysgol ag yn ffafrio opsiwn 1 (sef adnewyddu ac ymestyn Ysgol Llandegfan, cau Ysgol Biwmares ac adnewyddu Ysgol Llangoed).

7.2 Ymateb Cyngor Cymuned Llangoed a Penmon oedd i gadw'r tair ysgol yn agored a bod yr ymgynghoriad yn gwrthdaro gyda amcan y cynulliad i amddiffyn ysgolion am eu bod yn rhan bwysig o gymuned.

7.3 Cafwyd ymateb gan Gorff Llywodraethol Ysgol Llangoed yn mynegi eu gwrthwynebiad cryf i'r ysgol gau ac yn datgan mai opsiwn 1 yw'r opsiwn mwyaf rhesymegol. Dyma'r prif resymau a gyflwynwyd ganddynt:

- Llefydd gweigion a chost fesul disgybl mewn cymhariaeth ag Ysgol Biwmares
- Adeilad ysgol Llangoed mewn gwell cyflwr nag adeilad Ysgol Biwmares
- Yr amgylchedd a gwella effeithlonrwydd ynni- Ysgol Llangoed gyda'r costau isaf ar ynni o'r tair ysgol
- Codi safonau / gwella canlyniadau
- Y ddarpariaeth Addysg Gymraeg a dwyieithrwydd - Ysgol Llangoed gyda'r canran uchaf o ddisgyblion o gartrefi iaith gyntaf Cymraeg
- Gor-dewdra plant – Ysgol Llangoed gyda chanran uchel o blant yn cerdded a beicio i'r ysgol
- Y Corff llywodraethol yn anghytuno â'r nifer rhagamcan o ddisgyblion ar gyfer pob ysgol tan 2023

## 8. YMATEBION ERAILL

8.1 Yn ogystal â chwrdd gyda staff, llywodraethwyr a rhieni, anfonwyd y ddogfen ymgynghori at y rhanddeiliaid canlynol:

- Cyngor Gwynedd;
- Cynghorau cymunedol
- Swyddogion Llywodraeth Cymru;
- Aelodau Cynulliad rhanbarthol a lleol a'r Aelod Seneddol
- Estyn;
- undebau'r athrawon ac undebau staff ategol;
- y Consortiwm Addysg Rhanbarthol sef GwE;
- y Consortiwm Trafnidiaeth Ranbarthol sef Taith;
- Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru;
- y Bartneriaeth Cymunedau yn Gyntaf;
- Mudiad Meithrin;
- Gwasanaeth Ieuenctid yr Awdurdod;
- Ysgol David Hughes.

8.2 Yn ei grynodeb o'i ymateb i'r ymgynghoriad hwn, dywedodd Estyn: "Mae'r cynigiwr wedi cyflwyno ystod gynhwysfawr ... o ddadleuon dros ac yn erbyn y cynigion sy'n cael eu hystyried." Aeth ymlaen i ddweud: "Mae'n debygol y gall unrhyw un o'r ddau gynnig ddarparu cyfleoedd cynyddol i ddisgyblion ddysgu â disgyblion eraill o'r un oedran a darparu gallu arwain gwell ar gyfer cynllunio a monitro darpariaeth. Felly mae'n debygol y bydd y cynigion o leiaf yn cynnal safonau presennol addysg yn yr ardal." Er hynny, roedd o'r farn nad oedd rhai agweddau ar y cynnig, fel y trefniadau cludiant, wedi eu datblygu'n ddigonol.

Roedd yr arolygiaeth o'r farn "fod y cynnig yn debygol o gynnal safonau presennol addysg yn yr ardal o leiaf." Yn ogystal, roedd o'r farn fod yr "awdurdod lleol wedi rhoi sail resymegol glir ar gyfer y manteision disgwyliedig a fwriedir o gymharu â'r sefyllfa bresennol o ran cyllid, lleoedd dros ben, safonau disgyblion, ansawdd yr amgylchedd dysgu ac arweinyddiaeth a rheolaeth. Hefyd, mae'r cynigiwr yn esbonio'n briodol sut

mae'r cynnig yn cydweddu â rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif yr awdurdod". Mae'r cynnig yn diffinio manteision disgwyliedig y cynnig yn glir, ac mae'r rhain yn cysylltu'n briodol â'r diben datganedig a'r sail resymegol. Mae'r awdurdod lleol wedi darparu digon o dystiolaeth i ddangos bod y cynllun yn debygol o gynnal safon addysg yn yr ardal o leiaf."

O ran agweddau addysgol ar y cynnig, roedd Estyn o'r farn fod yr Awdurdod "wedi rhoi ystyriaeth fanwl i effaith y cynigion ar ansawdd y deilliannau, y ddarpariaeth a'r arweinyddiaeth a rheolaeth ym mhob un o'r tair ysgol".

Nododd hefyd fod asesiad effaith yr awdurdod yn "briodol" ac yn asesu'r "effaith ar gydraddoldeb sy'n adolygu effaith niwtral debygol y cynnig ar y ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgol arbennig, anableddau a'r rheiny â nodweddion gwarchodedig. Mae'r cynnig hefyd yn nodi effaith gadarnhaol debygol y cynnig yn y cyfleoedd cynyddol i grwpiau o ddisgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim, i fanteisio ar yr adnoddau a'r ddarpariaeth iddynt".

**Ymateb CSYM**

Er i Estyn ddweud yr uchod, roedd yn cyfaddef fod y "cynigiwr yn nodi y bydd newidiadau i drefniadau teithio ar gyfer rhai disgyblion, gan gynnwys llwybrau cerdded, yn cael eu hasesu fel rhan o asesiad o'r effaith ar draffig. Hefyd, mae'r cynigiwr yn datgan y bydd yn gweithio gyda chorff llywodraethol yr ysgol ar opsiynau posibl o ran cludiant." Nid aeth swyddogion yr Awdurdod ymhellach o ran cynlluniau cludiant am y rhesymau canlynol:

- Byddai ceisio amcangyfrif lle byddai disgyblion o unrhyw ysgol sy'n cau yn mynd iddi yn rhagdybio unrhyw benderfyniad gan y Pwyllgor Gwaith.
- Beth bynnag fydd penderfyniad y Pwyllgor Gwaith ar 18 Gorffennaf 2018, bydd materion traffig a theithio yn cael sylw fel rhan o Asesiad Effaith Traffig a gynhelir ar gyfer pob prosiect newydd. Barn yr Awdurdod yw y byddai datblygu cynlluniau posib o ran cludiant yn ardal Seiriol yn rhagdybio unrhyw argymhellion neu benderfyniadau bydd swyddogion y Cyngor a chontractwyr annibynnol yn ei wneud.

8.3 Yn ychwanegol i'r ffurflenni a'r llythyrau adborth ar yr ymgynghoriad roedd cyfle i'r rhanddeiliaid gyfrannu at arolwg electroneg trwy wefan Cyngor Sir Ynys Môn. Cyflwynir crynodeb o'r arolwg yn rhan 14.

## 9. ADBORTH GAN DDISGYBLION

Cyfarfu swyddogion y Cyngor gyda disgyblion Ysgol Biwmares, Ysgol Llandegfan ac Ysgol Llangoed. Y bwriad oedd cynnal cyfarfodydd byr gyda chynrychiolaeth o ddisgyblion o'r tair ysgol, er mwyn canfod eu barn am y cynnig i newid eu hysgol bresennol.

Eglurwyd i'r disgyblion fod ymgynghoriad wedi ei gynnal gyda'r oedolion yn y gymuned, ac roedd hyn yn gyfle i'r plant o'r ysgolion fynegi eu barn am gynlluniau'r Cyngor ar gyfer moderneiddio ysgolion. Pwysleisiwyd bod eu barn yn bwysig gan mai nhw sy'n mynychu'r ysgolion. Dywedwyd wrthynt bydd y wybodaeth a gyflwynir ganddynt yn cael eu trosglwyddo i ffurf adroddiad a'i gyflwyno i Gynghorwyr y Cyngor fel rhan o'r Ymgynghoriad Statudol.

Eglurwyd mai'r rhesymau dros foderneiddio oedd:

- Mae gan ysgolion Ynys Môn gormod o lefydd gwag neu dim digon o lefydd mewn rhai o'u hysgolion

- Angen gwneud yn siŵr bod yr holl ddisgyblion yn cael addysg dda
- Angen gwneud siŵr fod yr ysgol yn fodern ac yn cynnig offer da
- Bod y Cyngor yn gwario eu harian ar ysgolion mewn ffordd deg

Gofynnwyd y cwestiynau canlynol i'r plant:

1. Beth oedd y disgyblion yn hoffi am eu hysgol bresennol?
2. Beth yw eich barn am y cynnig i gau Ysgol Biwmares, a throsglwyddo'r plant i Ysgol Llangoed ac Ysgol Llandegfan?
3. A oeddent yn cytuno gyda'r rhesymau dros newid
4. Unrhyw sylwadau eraill

Mae'r ymatebion wedi eu cyflwyno isod.

**Ymgynghoriad efo cynrychiolaeth o Gyngor Ysgol Biwmares 13/06/18**

| **Cwestiwn - Beth rydych yn hoffi am eich ysgol bresennol?** |
|---|
| ▪ Gweld ffrindiau yn yr ysgol<br>▪ Hoffi chwarae ar yr iard efo'n gilydd<br>▪ Hoffi cyngherddau ysgol<br>▪ Gwersi dawns ar ôl ysgol<br>▪ Clwb coginio<br>▪ Urdd<br>▪ Pêl -roed<br>▪ Cerdded hefo'n ffrindiau i'r ysgol<br>▪ Codi arian i elusennau<br>▪ Yn hoffi nosweithiau ffilm<br>▪ Gorymdaith y Pasg sy'n cael ei gynnal gan yr ysgol. Mae'n hen draddodiad gan yr ysgol<br>▪ Y gystadleuaeth creu llun / poster - yr enillydd yn troi goleuadau Nadolig ymlaen<br>▪ Eisteddfod<br>▪ Canu i'r henoed yn Llangoed<br>▪ Hoffi gwersi offerynnau<br>▪ Partïon yn y gegin i ddathlu diwrnodau arbennig<br>▪ Gwneud gweithgareddau ar y cyd<br>▪ Hoffi siaradwyr gwadd e.e. awdures a pherson busnes<br>▪ Derbyn anrhegion gan Wayne Hennessey sy'n gyn-ddisgybl yma<br>▪ Wedi mwynhau gwneud perfformiad Ordinary Men yn yr Eglwys. Prosiect ydoedd ar y cyd gydag Ysgol Llangoed. Y Brifysgol a drefnwyd.<br>▪ Rwy'n hoffi pan fydd plant newydd yn dod i'r ysgol a chyfle i wneud ffrindiau newydd<br>▪ Hoffi dyddiau Gwener pan fydd gwobrau am fod yn dda<br>▪ Ymweld â'r Eglwys<br>▪ Ffrindiau gofalgar pan fydd plant yn brifo<br>▪ Trip i Dŷ'r Celtiaid<br>▪ Nifer o weithgareddau – pêl-droed, rygbi tag a chriced. |

| **Cwestiwn - Beth yw eich barn am y cynnig**<br>*Opsiwn 1*<br>Adnewyddu ac ymestyn Ysgol Llandegfan, cau Ysgol Biwmares ac adnewyddu Ysgol Llangoed.<br>*Opsiwn 2*<br>Adnewyddu ac ymestyn Ysgol Llandegfan, cau Ysgol Llangoed ac adnewyddu Ysgol Biwmares. |
|---|
| ▪ Dim cau - nifer o rieni angen mynd i'w gwaith ac yn poeni sut y byddent yn mynd a'u plant i'r ysgol<br>▪ Dim cau - wedi gwneud nifer o ffrindiau yma<br>▪ Peidio cau mae hi'n ysgol fawr ac Ysgol Llangoed yn fach. Mwy o le yn fan hyn<br>▪ Ysgol yma am aros gan nad oes lot o le yn Ysgol Llangoed. Ni fuasai Biwmares yn ffitio yno<br>▪ Os nad yw'r rhieni plant Biwmares yn gyrru car bydd rhaid i blant fynd ar y bws ar ben eu hunain.<br>▪ Rwy'n byw yn Llangoed ond yn mynd i dŷ Nain yn Biwmares bob bore ac ar ôl ysgol i gael fy ngwarchod. Bydd rhaid I Nain ddal bws i Langoed bob diwrnod i ddod i fy nôl o'r ysgol. Anghyfleus<br>▪ Rydym yn gallu cerdded o'r ysgol at yr Eglwys, Bad Achub. Ni allwn wneud hynny yn Llangoed |

| **Holwyd y plant os yr oeddent yn cytuno efo'r rhesymau dros newid:**<br>**Yr angen i gynllunio llefydd priodol**<br>**Gwneud yn siwr fod pawb yn parhau i gael addysg dda**<br>**Ysgol fodern ac offer da**<br>**Gwario arian ar ein hysgolion mewn ffordd teg** |
|---|
| Yn deall |

| **Gwybodaeth ychwanegol a gyflwynwyd gan y plant** |
|---|
| Dim eisiau cau Ysgol Biwmares |

**Ymgynghori efo Cyngor Ysgol Llandegfan** **12 Mehefin 2018**

Sylwadau gan y Cyngor Ysgol

| **Cwestiwn – Beth ydych yn ei hoffi am eich ysgol bresennol?** |
|---|
| ▪ Lot o gyfleoedd<br>▪ Mae'n dda cael 2 gae chwarae. Un ar gyfer pêl-droed a'r llall ar gyfer y plant bach. Mae digon o le yma.<br>▪ Lot o ffrindiau Athrawon disgybledig - ond mae angen iddynt fod.<br>▪ Athrawon yn neis<br>▪ Mae'r athrawon yn gallu addasu yn gyflym i sefyllfaoedd<br>▪ Os rydym yn poeni mae rhywun pob amser ar gael i'n helpu |

- Mae clwb brecwast yn dda, yn enwedig os mae rhieni plant angen mynd i weithio yn yr ysbyty Bwyd yn neis
- Lot o glybiau ar ôl ysgol, pêl-rwyd, urdd, pêl-droed, clef , kick it, clwb plant pob nos tan 5:30yp i helpu rhieni sy'n gweithio
- Cystadlaethau chwaraeon a mabolgampau
- Lot o bethau i chwarae tu allan
- Gofal da yma
- Dosbarthiadau mawr a grisiau
- Lot o le i chwarae
- Lot o ofal i blant gyda chyflyrau gwahanol
- Cael addurno dros y Nadolig
- Gwaith da
- Gwersi cymorth cyntaf
- Pobl yn ymweld â'r ysgol - y gymuned a phobl o asiantaethau
- Mae'n ysgol iach
- Os oes plant gydag alergedd - mae'r gegin yn gallu paratoi bwydydd sy'n cyrraedd eu hanghenion
- Dathliadau fel diwrnod Dewi Sant
- Pob mis gwisgo dillad i'n hunain a chodi arian. Mae'r Cyngor Ysgol yn penderfynu beth i'w brynu e.e. gôl ac adnoddau chwarae tu allan
- Rydym fel Cyngor Ysgol yn cael dewis yr adnoddau i'w prynu
- Lot o bethau da yma
- Lot o dripiau ysgol
- Ar ddiwrnodau braf rydym yn cael gweithio tu allan
- Rydym wedi cael ffens newydd o amgylch yr ysgol a giât newydd i sicrhau bod yr ysgol a chaeau'r ysgol yn cael eu parchu. Bydd camerâu yn cael eu gosod tu allan yn ogystal
- Wedi cael polytunnel
- Rydym yn cael garddio
- Rydym yn ailgylchu

**Cwestiwn - Beth yw eich barn am y cynnig**

*Opsiwn 1*

Adnewyddu ac ymestyn Ysgol Llandegfan, cau Ysgol Biwmares ac adnewyddu Ysgol Llangoed.

*Opsiwn 2*

Adnewyddu ac ymestyn Ysgol Llandegfan, cau Ysgol Llangoed ac adnewyddu Ysgol Biwmares.

- Hapus
- Bydd lot o blant newydd yma
- Bydd yr ysgol yma yn cael mwy o deganau a mwy o bres
- Nid oes digon o le i barcio ar hyn o bryd. Bydd rhaid i'r Cyngor wneud rhywbeth am y sefyllfa
- Datrys y problemau parcio
- Grêt - cawn mwy o ffrindiau
- Dim llawer o blant yn mynychu Ysgol Biwmares
- Buasem yn dymuno cael gweld y cynlluniau i addasu'r ysgol yma

| **Holwyd y plant os yr oeddent yn cytuno efo'r rhesymau dros newid:<br>Yr angen i gynllunio llefydd priodol<br>Gwneud yn siwr fod pawb yn parhau i gael addysg dda<br>Ysgol fodern ac offer da<br>Gwario arian ar ein hysgolion mewn ffordd teg** |
|---|
| ▪ Cytuno<br>▪ Chromebooks ac offer modern yma<br>▪ Mae gennym Ystafell cyfrifiaduron a thaflunydd ym mhob dosbarth<br>▪ Bydd rhai o blant Biwmares angen bws i'r ysgol yma<br>▪ A fydd staff yn colli swyddi |

| **Gwybodaeth ychwanegol a gyflwynwyd gan y plant** |
|---|
| ▪ Mae sbwriel ar dir yr ysgol a phobl yn ysmygu ar dir yr ysgol tu allan i oriau ysgol. Dyna paham rydym yn cael camerâu<br>▪ Mae plant sydd angen cymorth ychwanegol, yn cael hynny yma<br>▪ Rydym yn gallu rhannu'r cae chwarae<br>▪ Mae offer wedi cael eu dwyn oddi ar y safle - dyna pam wedi cael camerâu mwy modern<br>▪ Yn argymell i ddatblygu llwybr pwrpasol i rieni sy'n casglu plant o'r meithrin. |

**Barn Cyngor Ysgol - Ysgol Llangoed** **13 Mehefin 2018**

| **Cwestiwn - Beth rydych yn hoffi am eich ysgol bresennol?** |
|---|
| ▪ Pob dim<br>▪ Yr athrawes<br>▪ Pobl yn eich cadw'n ddiogel<br>▪ Pawb yn yr ysgol yn ffrindiau<br>▪ Hapus yng nghwmni ein gilydd<br>▪ Ymarfer corff<br>▪ Pethau gwahanol<br>▪ Egluro beth sydd angen ei wneud<br>▪ Chwarae hefo ffrindiau<br>▪ Darllen a llyfrau da<br>▪ Byddaf yn edrych ymlaen at ddod i'r ysgol, y sgwrsio gydag athrawon a'r dysgu<br>▪ Rwy'n hapus yn yr ysgol<br>▪ Bod yn y clwb brecwast hefo fy ffrindiau<br>▪ Urdd<br>▪ Mathemateg<br>▪ Cyfrifiadur<br>▪ Ap mathletics<br>▪ Purple mash<br>▪ CDs Addysgol<br>▪ Plant i helpu<br>▪ Pobl yn yr ysgol i ofalu a helpu<br>▪ Bwyd |

- Nofio hefo'r ysgol
- Gwersi golf a thenis
- Urdd
- Siarad Cymraeg
- Dwyieithrwydd
- Mynd ar dripiau ysgol
- Band a chwarae offerynnau
- Gwaith Celf
- Lluniau
- Rwtin a threfn - rwy'n hoffi hynny
- Darllen
- Athrawon gorau yn y byd
- Gofod mawr ar gyfer chwarae
- Yr ysgol ddim yn rhy fawr nac yn rhy fach
- Y pennaeth yn trefnu wal ddring ar gyfer yr ysgol
- Marathon noddedig i gasglu arian ar gyfer elusen ac adnoddau i'r ysgol
- Seren yr wythnos
- Cyfforddus yn yr ysgol a dim ofn cael fy mwlio
- Dim bwlio yn yr ysgol yma
- Mynd at y pwll sydd wrth ymyl safle'r ysgol

**Cwestiwn - Beth yw eich barn am y cynnig**

*Opsiwn 1*

Adnewyddu ac ymestyn Ysgol Llandegfan, cau Ysgol Biwmares ac adnewyddu Ysgol Llangoed.

*Opsiwn 2*

Adnewyddu ac ymestyn Ysgol Llandegfan, cau Ysgol Llangoed ac adnewyddu Ysgol Biwmares.

- Syniad da, ond nid wyf eisiau i'r athrawon golli eu swyddi. Rwy'n deall bod lot o lefydd gwag yn Ysgol Biwmares
- Mae yna lot o le gwag o amgylch Ysgol Llangoed ar gyfer estyniad
- Mae'n drist ystyried cau Ysgol Llangoed. Mae Mam wedi mynychu'r ysgol yma
- Mae Ysgol Llangoed yn wych, bydd yn drist ei gweld yn mynd
- Nid wyf eisiau Ysgol Llangoed gau. Rwy'n berson swil ac yn teimlo ei bod yn anodd gwneud ffrindiau, yn enwedig os byddaf mewn ysgol ddieithr
- Lot o bethau da yn yr ysgol
- Mae'r athrawon wedi gwneud gormod o ymdrech yn yr ysgol yma i'w weld i gyd yn diflannu
- Yr ysgol yw ein cartref / cynefin
- Rhai plant ddim eisiau mynd adref o'r ysgol ar ddiwedd y dydd, mae'r ysgol mor dda
- Y pryder fod ffrindiau am wahanu os yn gorfod symud i ysgol wahanol
- Os fydd Ysgol Biwmares yn cau a'r plant yn dod i Ysgol Llangoed, nid oes angen iddynt boeni am wneud ffrindiau. Bydd plant Ysgol Llangoed yn ffrindiau gyda hwy

| **Holwyd y plant os yr oeddent yn cytuno efo'r rhesymau dros newid:**<br>**Yr angen i gynllunio llefydd priodol**<br>**Gwneud yn siwr fod pawb yn parhau i gael addysg dda**<br>**Ysgol fodern ac offer da**<br>**Gwario arian ar ein hysgolion mewn ffordd teg** |
|---|
| ▪ Roedd pawb yn cytuno ac yn deall y rhesymau<br>▪ Un sylw a wnaethpwyd oedd bod Ysgol Llangoed yn cael addysg dda<br>▪ Mae gan yr ysgol lot o le chwarae tu allan<br>▪ Lle hyfryd a lot o hwyl<br>▪ Agos i'n cartrefi a dim yn rhy bell<br>▪ Ar ôl ysgol rwy'n cael cerdded adref ac mae'r athrawon yn pasio yn eu ceir ac yn codi llaw arnom<br>▪ Athrawon yn gofalu amdanom<br>▪ Mae'r athrawon yn hwyliog a dim yn rhy 'o ddifrif' sy'n ein cadw'n hapus<br>▪ Y pennaeth yn trefnu dramâu ar ein cyfer |

| **Gwybodaeth ychwanegol a gyflwynwyd gan y plant** |
|---|
| ▪ Er y bydd y rhai ohonom yn ysgol uwchradd erbyn i'r newidiadau ddigwydd, bydd y newidiadau yn cael effaith arnom. Rydym wedi tyfu i fyny hefo'r ysgol yma.<br>▪ Fy hoff ysgol ydyw<br>▪ Rwy'n hoffi fy amser yn yr ysgol<br>▪ Rwy'n hoffi gweld plant newydd yn dod i'r ysgol, byddwn yn gwneud iddynt deimlo'n gartrefol Dim eisiau'r ysgol gau<br>▪ Mae pawb yn cael eu cynnwys yma<br>▪ Weithiau rydym yn cael gwrando ar gerddoriaeth Gymraeg<br>▪ Pawb yma yn helpu ein gilydd Rwy'n hoffi'r gwasanaeth yn y bore a'r cyfle i ddysgu am 'cynefin'.<br>▪ Rwy'n hoffi chwarae hefo plant bach a'u dysgu i ddarllen ac ati. |

## 10. YMATEB I'R SYLWADAU A DDERBYNIWYD

Diolchir i bawb am yr holl sylwadau. Gan fod cymaint ohonynt yn debyg, penderfynwyd eu gosod o dan themâu penodol Nid yw yn bosib ymateb i'r holl sylwadau unigol a dderbyniwyd am sawl rheswm gan gynnwys y ffaith fod nifer ohonynt yn debyg. Cyflwynir isod ymateb yr Awdurdod i'r prif themâu a gyflwynwyd mewn cymhariaeth â'r prif yrwyr newid yn y Strategaeth Moderneiddio Ysgolion ynghyd ag ymateb Cyngor Sir Ynys Môn (CSYM):

### 10.1 *Ysgol Biwmares*

1. Byddai cau Ysgol Gynradd Biwmares (YGB) yn cynyddu'r anghydbwysedd demograffig ym Miwmares.
   Mae angen i'r dref gadw'r ysgol i ddenu a chadw pobl ifanc i greu cymuned gytbwys.

   Gallai cau'r naill ysgol neu'r llall gael effaith ar natur ddeniadol yr ardal leol ar gyfer prynwyr tai arfaethedig. I'r gwrthwyneb, gallai trigolion lleol ystyried y byddai peidio cael ysgol mewn ardal benodol yn beth defnyddiol gan wneud yr ardal yn fwy deniadol i brynwyr tai sy'n chwilio am gymdogaeth dawelach. Nid awgrymir effaith gadarnhaol

neu negyddol gyffredinol yma ond cydnabyddir y posibilrwydd ar gyfer newid mewn cyfansoddiad preswylwyr dros amser. Trafodir y materion hyn yn yr Asesiad Effaith a baratowyd gan yr Awdurdod sydd yn Atodiad 2.

2. Ni fydd rhieni yn ymgymryd â thaith dychwelyd i Langoed
Nid oes asesiad eto o faint o rieni sy'n ffafrio Llandegfan gan nad yw ar lwybr teithio i'r gwaith.

Dywedwyd hyn yn ogystal yn y cyfarfodydd ymgynghori. Yn unol â chyfraith gwlad, rhieni sy'n dewis i ba ysgol mae eu plant yn mynd. Fel nodwyd uchod, nid aeth swyddogion yr Awdurdod ymhellach o ran cynlluniau cludiant am y rhesymau canlynol:

- Byddai ceisio amcangyfrif lle byddai disgyblion o unrhyw ysgol sy'n cau yn mynd iddi yn rhagdybio unrhyw benderfyniad gan y Pwyllgor Gwaith.
- Beth bynnag fydd penderfyniad y Pwyllgor Gwaith ar 18 Gorffennaf 2018, bydd materion traffig a theithio yn cael sylw fel rhan o Asesiad Effaith Traffig a gynhelir ar gyfer pob prosiect newydd. Barn yr Awdurdod yw y byddai datblygu cynlluniau posib o ran cludiant yn ardal Seiriol yn rhagdybio unrhyw argymhellion neu benderfyniadau bydd swyddogion y Cyngor a chontractwyr annibynnol yn ei wneud.

3. Dylai pob tref gael ysgol / Dylai tref gael ysgol

Nid oes gofyniad statudol i dref gael ysgol. Mae niferoedd y disgyblion yn fach yn Ysgol Biwmares.

4. Mae Biwmares yn dod yn bentref ymddeol yn gyflym. Hoffwn weld strategaeth i wrthdroi hyn.
Nid yw tai yn yr ardal yn ddigon mawr.
"Mae'r niferoedd isel o ddisgyblion yn Ysgol Biwmares yn adlewyrchu'r ffaith y gall teuluoedd newydd fforddio byw ym Miwmares".
Yn berffaith bosibl i ddenu teuluoedd i symud yma os yw pawb yn gweithio gyda'i gilydd!
Mae angen inni annog teuluoedd ifanc i'r ardal.
Mae angen i lawer o gyfleusterau yn y dref gadw'r ysgol

Mae aelodau etholedig lleol ac uwch swyddogion o fewn yr Awdurdod yn gweithio ar yn. Un peth a wna'r Cyngor ydyw prynu tai Cyngor pan maent ar y farchnad a'i rhentu. Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn cydnabod fod cael digon o dai fforddiadwy i drigolion Môn yn un o'r blaenoriaethau. Wrth gydnabod pwysigrwydd cael cyflenwad ddigonol o dai o ansawdd uchel, mae'r Cyngor yn awyddus i gychwyn rhaglen o adeiladu tai cyngor newydd ac yn awyddus i glywed gan adeiladwyr, datblygwyr tai neu berchnogion tir sy'n awyddus i gydweithio gyda'r Cyngor i adeiladu mwy o dai mewn 10 ardal o'r ynys. Un o'r 10 ardal dan sylw yw Biwmares.

5. Dylech gau Llangoed nid Biwmares gan fod digon o le yn Biwmares

Mae hwn yn un opsiwn mae'r Awdurdod yn ymgynghori arno sef Opsiwn 1 yn y ddogfen hon. Bydd y Pwyllgor Gwaith yn gwneud penderfyniad ar ba opsiwn i weithredu arno ar 18 Gorffennaf 2018.

6. Rydym yn gallu cerdded i'r ysgol ond ni fyddai'n gallu gwneud hynny i Ysgol Llangoed neu Ysgol Llandegfan.
Nid yw fy rhieni yn gyrru.
Dibynnu ar eraill nad ydynt yn gyrru.
Ni fyddai'n gallu casglu neu ollwng plant i ffwrdd.
Methu cerdded i ysgol arall.
Ddim eisiau teithio mewn bws.

Mae ysgolion cynradd eraill ar yr Ynys yn bodoli lle na ellir cerdded i'r ysgol ac mae plant yn cael eu tywys i'r ysgolion hynny mewn amryw o ffyrdd. Bydd materion traffig a theithio yn cael sylw fel rhan o Asesiad Effaith Traffig a gynhelir ar gyfer pob prosiect newydd.

7. Nid yw'r cynlluniau i gau YGB yn unol â Chynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (CDLl ar y Cyd)

Mae bodolaeth ysgol ym Miwmares wedi cyfrannu at ei statws fel Canolfan Wasanaeth Leol, yn union fel mae bodolaeth ysgol neu siop (ayb) wedi cyfrannu at roi statws i Ganolfan neu Bentref. Bydd Strategaeth a Pholisiau'r Cynllun Datblygu ar y Cyd yn cael eu monitro'n flynyddol a disgwylir adolygiad o leiaf pob 4 mlynedd. Os yw'r monitro a'r adolygiad yn dangos newidiadau yn yr ardal a/ neu nad ydi polisïau yn llwyddo mae deddfwriaeth yn rhoi hawl i Awdurdodau ddiwygio'r Cynllun. Felly, mae'r system paratoi cynlluniau datblygu lleol a pholisiau'r Cynllun yn cydnabod bod amgylchiadau yn gallu newid mewn aneddleoedd. Mae'n berthnasol i ddweud hefyd nad oes angen caniatâd cynllunio i gau ysgol. Felly, nid yw polisiau'r Cynllun yn delio efo cau ysgolion fel y cyfryw.

8. Nid oes sôn am sut y byddech chi'n delio â'r staff

Roedd y wybodaeth hon wedi'i chynnwys yn y ddogfen ymgynghori statudol gan ddweud: "Yn unol â'r gofynion statudol, pan fo ysgol newydd yn cael ei ffurfio, rhaid hysbysebu swydd Pennaeth yn agored. Ni fyddai hyn yn berthnasol yn yr achos hwn. O ran gweddill y staff, cyngor yr Awdurdod fyddai i geisio yn y lle cyntaf i gyrff llywodraethu ysgolion neu gyrff llywodraethu cysgodol ysgolion benodi staff o gorff yr athrawon presennol o'r ysgol(ion) sy'n cau yn y lle cyntaf.

Mewn sefyllfa lle bydd ysgol yn cau, bydd proses diswyddo'r Awdurdod yn dod i rym. Byddai Dogfen Ymgynghorol Staffio yn cael ei pharatoi a byddai cyfarfodydd gydag aelodau unigol staff yn cael eu cynnal er mwyn canfod os ydynt eisiau parhau i fod yn rhan o'r broses adleoli ai pheidio. Disgwylir bydd y broses yn cychwyn tua 12/18 mis cyn dyddiad swyddogol cau'r ysgol – gwneir hyn er mwyn rhoi sicrwydd buan i staff am eu cyflogaeth ac iddynt gynllunio am y dyfodol.

9. Byddai cau yn golled enfawr i'r dref a'r ardal gyfagos.
Byddai cau yn creu anawsterau i rieni lleol a niweidio'r gymuned.
Byddai colli'r ysgol yn chwyth drwm i ddyfodol y gymuned.
Bydd y cynnig i gau YGB yn gwanhau'r gymuned leol.
Bydd cael cartref gofal yn y dref yn hytrach nag ysgol yn marwolaeth y dref, yn rhoi teuluoedd ifanc i ffwrdd yn symud i'r dref.
Bydd cau ein hysgol yn lladd ein tref.

Gallai cau'r naill ysgol neu'r llall gael effaith ar natur ddeniadol yr ardal leol ar gyfer prynwyr tai arfaethedig. I'r gwrthwyneb, gallai trigolion lleol ystyried y byddai peidio cael ysgol mewn ardal benodol yn beth defnyddiol gan wneud yr ardal yn fwy deniadol i brynwyr tai sy'n chwilio am gymdogaeth dawelach. Nid awgrymir effaith gadarnhaol neu negyddol gyffredinol yma ond cydnabyddir y posibilrwydd ar gyfer newid mewn cyfansoddiad preswylwyr dros amser. Trafodir y materion hyn yn yr Asesiad Effaith a baratowyd gan yr Awdurdod sydd yn Atodiad 2.

10. Mae pwysigrwydd Little Puffins wedi cael ei anwybyddu.
Mae clybiau yn yr ysgol yn llwyddiannus.
Beth fydd yn digwydd i'r Clwb Brecwast? Clwb Puffins a'r Clwb ar ôl Ysgol?

Rydym yn derbyn pwysigrwydd y Little Puffins ac yn wir gyda datblygiadau o'r fath. Ystyrir cyfleusterau cyn ysgol bob amser fel rhan o'r strategaeth addysg yn yr ardal. Yr hyn a wnaed yn y gorffennol yw sefydlu Grŵp Rhanddeiliaid ar ôl i'r Pwyllgor Gwaith wneud y penderfyniad. Byddai'r Grŵp Rhanddeiliaid yn helpu i bennu dyfodol unrhyw ddarpariaeth bresennol, e.e. drwy edrych ar leoliad arall addas.

11. Gallai'r ysgol hon wasanaethu fel prif ysgol y dalgylch ~ 250.

Yn unol â dull Llywodraeth Cymru o fesur capasiti ysgol gynradd, ni fyddai'n bosib i gael ysgol i 250 o blant ar y safle heb ei hymestyn hi. Yn ogystal, byddai hyn yn golygu byddai angen i tua 150 o blant deithio o ochrau Llandegfan i Fiwmares a byddai hyn yn cynyddu pellter ac amser teithio i nifer plant. Mae'n bosib hefyd byddai cyfeiriad teithio i'r ysgol yn gallu bod yn groes i gyfeiriad teithio nifer o rieni i'r gwaith. Ffactor arall fyddai costau cludiant – byddent yn uwch na'r rhai cyfredol.

12. Datblygu model arloesol lle mae disgyblion YGB a phobl hŷn mewn Tai Gofal Ychwanegol (TGY) yn dysgu gyda'i gilydd

Mae hwn yn un o'r opsiynau amgen gyflwynwyd gan randdeiliaid Ysgol Gynradd Biwmares ac mae'n cael ystyriaeth lawn yn rhan 10.5 isod.

13. Dylai pob plentyn allu cael dewis o gerdded i'w hysgol leol.
Byddai cael bysiau ddwywaith y dydd i Langoed / Llandegfan yn cael effaith enfawr ar lygredd aer a'r amgylchedd

Nid yw'n bosibl i bob plentyn allu cerdded i'r ysgol. Mae'r cyfrifiadau yn yr adroddiad yn dangos na fyddai'r defnydd o fysiau yn cael mwy o effaith ar yr amgylchedd na chau Ysgol Gynradd Biwmares. Mae enghreifftiau yn bodoli lle mae plant yn weddill yr Ynys teithio ar fysus i'r ysgol yn barod e.e. o Lanfachraeth, Llanddeusant, Rhydwyn a Llanfairynghornwy i Ysgol Rhyd y Llan ac o bentrefi Penmynydd a Star i Ysgol Llanfairpwll.
Gweler adran 12 o'r adroddiad hwn am wybodaeth ychwanegol ar agweddau amgylcheddol.

14. Roedd Corff Llywodraethol Ysgol Gynradd Biwmares am i'r Awdurdod ymchwilio i hyfywdra cael paneli ffotofoltaïg ar do'r ysgol.

Mae lleoliad yr ysgol yn dda ar gyfer hyn ond mae rhwystrau ymarferol sylweddol i wneud hyn:

1. Byddai angen cydsyniad adeilad rhestredig i gael caniatâd gan CADW i'w gosod a byddai hynny'n anodd
2. Byddai'r gost o'u prynu a'u gosod tua £360,000 fyddai'n ychwanegol i'r ôl-groniad cynnal a chadw o £936,000.
3. Mae Tariffau Bwydo Fewn (Feed In Tariffs neu FITs) yn dod i ben ym mis Mawrth 2019 – byddai hyn yn gwneud y cynllun yn anhyfyw gan na fyddai unrhyw arian yn dod gan y cyflenwr ar ôl diwedd Mawrth 2019.

Yn syml, os cymerir yn ganiataol y ceir cydsyniad adeilad rhestredig i osod y paneli ffotofoltaïg ar do'r ysgol, ni fyddai'n talu amdano'i hun.

10.2 ***Ysgol Llandegfan***

1. Angen pwysleisio'r iaith Gymraeg yn Ysgol Llandegfan;

Mae hyn yn cael ei wneud yn unol â pholisi dwyieithog yr Awdurdod. Gweler yr Asesiad Effaith yn Atodiad 2.

2. Mae angen datrys y cynnydd mewn traffig yn Ysgol Llandegfan

Bydd materion traffig yn cael sylw fel rhan o Asesiad Effaith Traffig a gynhelir ar gyfer pob prosiect newydd.


10.3 ***Ysgol Llangoed***

1. **Safonau**

Crybwyllodd nifer o randdeiliaid bod y canran o ddisgyblion oedd yn cyrraedd y safon disgwyliedig yn dda.

Defnyddir dangosyddion diwedd cyfnod allweddol i arfarnu perfformiad ysgol – ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen (7 oed) a diwedd Cyfnod Allweddol 2 (11 oed).

Mae'r siart isod yn dangos % y disgyblion sy'n cyflawni deilliant 5+ yn y Cyfnod Sylfaen yn y tair ysgol a'r ffigyrau cyfatebol ar gyfer Ynys Môn a Chymru:




Mae angen cymryd gofal wrth gymharu canlyniadau gan y gall niferoedd disgyblion fod yn fach a natur y fintai ac amgylchiadau disgyblion unigol gael effaith sylweddol ar

berfformiad terfynol. Er enghraifft, os mai dim ond 4 disgybl sydd mewn blwyddyn ysgol ac mai dim ond 3 sy'n cyrraedd y safon disgwyliedig, yna bydd 75% o'r disgyblion yn cyrraedd y safon ddisgwyliedig. Mae'r tabl isod yn dangos yr un ffigyrau ond gydag ysgolion yn cael eu cymharu ag ysgolion cyffelyb yn genedlaethol.

| | DCS[1] | | |
|---|---|---|---|
| **Ysgol** | **2015** | **2016** | **2017** |
| **Biwmares** | **100.0** | **71.4** | **100.0** |
| **Llandegfan** | **88.9** | **96.3** | **93.8** |
| **Llangoed** | **85.7** | **77.8** | **94.1** |
| **Ynys Môn** | **86.2** | **84.7** | **85.8** |
| **Cymru** | **86.8** | **87.0** | **87.3** |

[1] – Deilliant 5+ yn y Dangosydd Cyfnod Sylfaen


Chwartel uchaf Canolrif Uchaf Canolrif Isaf Chwartel Isaf

Yn gyffredinol, ceir peth amrywiaeth mewn perfformiad ysgol h.y. mae dwy ysgol wedi bod yn y chwarter isaf ac mae dwy ysgol wedi bod yn y chwarter uchaf. **Gellid dadlau bod proffil deilliannau Ysgol Llangoed ychydig yn is na'r ddwy ysgol arall.**

Mae'r tabl isod yn dangos y patrwm dros y tair blynedd diwethaf ar gyfer Cyfnod Allweddol 2.

| **Ysgol** | **CA2* Canlyniadau Ysgol** | | |
|---|---|---|---|
| | **2015** | **2016** | **2017** |
| **Biwmares** | **83.3** | **71.4** | **87.5** |
| **Llandegfan** | **85.7** | **90.5** | **94.1** |
| **Llangoed** | **93.3** | **78.6** | **81.8** |
| **Ynys Môn** | **87.8** | **91.8** | **91.4** |
| **Cymru** | **86.1** | **87.7** | **89.5** |

*Lefel ddisgwyliedig mewn darllen, ysgrifennu, mathemateg a gwyddoniaeth wedi eu cyfuno




Ar gyfartaledd, dros y dair blynedd dan sylw, roedd maint y fintai (cohort) yn 9 disgybl yn Ysgol Biwmares, 20 disgybl yn Ysgol Llandegfan ac 13 disgybl yn Ysgol Llangoed.

**Mae perfformiad y tair ysgol wedi amrywio yn ystod y tair blynedd diwethaf ac mae'r proffil perfformiad, ar y cyfan, yn debyg.**

Yn ychwanegol, gellir edrych ar berfformiad y dair ysgol o ran y disgyblion sy'n cyrraedd lefel 5+ sef un lefel yn uwch na'r lefel ddisgwyliedig:

| Ysgol | Pwnc | Lefel 5+ yn CA2* Canlyniadau Ysgol | | |
|---|---|---|---|---|
| | | 2014/15 | 2015/16 | 2016/17 |
| Biwmares | Gwyddoniaeth | 41.7 | 28.6 | 50.0 |
| | Mathemateg | 41.7 | 42.9 | 50.0 |
| | Cymraeg | 25.0 | 28.6 | 25.0 |
| | Saesneg | 58.3 | 28.6 | 50.0 |
| Llandegfan | Gwyddoniaeth | 57.1 | 42.9 | 47.1 |
| | Mathemateg | 38.1 | 47.6 | 41.2 |
| | Cymraeg | 42.9 | 38.1 | 35.3 |
| | Saesneg | 47.6 | 42.9 | 41.2 |
| Llangoed | Gwyddoniaeth | 26.7 | 14.3 | 36.4 |
| | Mathemateg | 40.0 | 28.6 | 54.5 |
| | Cymraeg | 40.0 | 28.6 | 45.5 |
| | Saesneg | 58.3 | 28.6 | 36.4 |
| Ynys Môn | Gwyddoniaeth | 40.9 | 40.4 | 49.5 |
| | Mathemateg | 40.9 | 40.4 | 49.5 |
| | Cymraeg | 38.1 | 35.3 | 38.3 |
| | Saesneg | 42.9 | 41.1 | 46.4 |
| Cymru | Gwyddoniaeth | 41.1 | 42.5 | 46.4 |
| | Mathemateg | 41.1 | 42.5 | 46.4 |
| | Cymraeg | 38.1 | 35.3 | 38.3 |
| | Saesneg | 40.8 | 42.0 | 44.7 |

O'r ystadegau uchod:

- Mae'r tair ysgol yn perfformio'n weddol dda o safbwynt lefelau disgwyliedig
- Mae'r tair ysgol yn ymdebygu ond mae Biwmares ychydig yn well na Llangoed

O safbwynt arolygiadau gellir dadlau bod proffil arolygiad Ysgol Llandegfan yn rhagori ychydig (gweler isod).

Nodir hefyd ymateb Estyn i'r ymgynghoriad hwn: "Mae Estyn o'r farn fod y cynnig yn debygol o gynnal safonau presennol addysg yn yr ardal o leiaf.".

Mae Ysgolion Biwmares, Llandegfan a Llangoed wedi eu harolygu yn ystod y cyfnod 2014/15 ac mae'r deilliannau yn y tabl isod.

| Ysgol | Biwmares* | Llandegfan | Llangoed** |
|---|---|---|---|
| **Dyddiad** | **Ionawr 2014** | **Rhagfyr 2015** | **Ionawr 2015** |
| **Cwestiwn Allweddol 1** | **Digonol** | **Da** | **Digonol** |
| Safonau | Digonol | Da | Digonol |
| Lles | Da | Digonol | Da |
| **Cwestiwn Allweddol 2** | **Digonol** | **Da** | **Digonol** |
| Profiadau dysgu | Digonol | Da | Digonol |
| Addysgu | Digonol | Da | Digonol |
| Gofal, cefnogaeth ac arweinyddiaeth | Da | Da | Da |
| Yr amgylchedd dysgu | Digonol | Da | Da |
| **Cwestiwn Allweddol 3** | **Digonol** | **Da** | **Digonol** |
| Arweinyddiaeth | Digonol | Da | Digonol |
| Gwella ansawdd | Digonol | Da | Digonol |
| Gweithio mewn partneriaeth | Da | Da | Da |
| Rheoli adnoddau | Digonol | Da | Digonol |
| **Perfformiad presennol** | **Digonol** | **Da** | **Digonol** |
| **Rhagolygon gwella** | **Digonol** | **Da** | **Digonol** |

**Graddau Estyn**

Rhagorol - Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol sy'n arwain y sector

Da - Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol

Digonol - Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella

Annigonol - Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau

**Mae proffil arolygiad Llandegfan yn gryfach na'r ddwy ysgol arall. Mae proffil Biwmares a Llangoed yn eithaf tebyg.**

Er bod llawer o raddau da yn y tabl, ceir tipyn o raddau digonol yno hefyd. Mae'r awdurdod yn awyddus i sicrhau bod deilliannau arolygiadau'n dda.

Bwriad yr Awdurdod yw gwella ar y deilliannau a'r ddarpariaeth addysg uchod ynghyd â safonau arweinyddiaeth a rheolaeth.
*NODER – Daeth Estyn yn ôl ar ymweliad monitro ym mis Mawrth 2015 a dywed ei adroddiad: "Bernir bod Ysgol Gynradd Biwmares wedi gwneud cynnydd da o ran y materion allweddol ar gyfer gweithredu yn dilyn ymweliad Estyn ym Mawrth 2015. Byddwn yn awr yn tynnu enw'r ysgol oddi ar y rhestr o ysgolion y mae angen iddynt gael eu monitro gan Estyn. Ni fydd mwy o ymweliadau monitro gan Estyn mewn perthynas â'r arolygiad hwn."

**NODER - Daeth Estyn yn ôl ar ymweliad monitro ym mis Mehefin 2016 a dywed ei adroddiad: "Bernir bod Ysgol Gynradd Llangoed wedi gwneud cynnydd da o ran y materion allweddol ar gyfer gweithredu yn dilyn ymweliad Estyn ym Mehefin 2016. Byddwn yn awr yn tynnu enw'r ysgol oddi ar y rhestr o ysgolion y mae angen iddynt gael eu monitro gan Estyn. Ni fydd mwy o ymweliadau monitro gan Estyn mewn perthynas â'r arolygiad hwn."

2. **Costau a chyflwr yr adeilad**
Roedd nifer helaeth o'r rhanddeiliad yn cyfeirio at y faith bod cyflwr adeilad Ysgol Llangoed yn dda a bod lle i'w ymestyn ymhellach.

Cynhaliwyd arolygon cyflwr gan Syrfewyr y Cyngor o ddiwedd 2015 i ddechrau 2016 gyda graddfa gyflwr fel a ganlyn:

| Ysgol | Biwmares | Llandegfan | Llangoed |
|---|---|---|---|
| Cyflwr | C | B | B |

Mae ystyr y graddau a roddwyd fel a ganlyn:

| Cyflwr Gradd | Diffiniad |
|---|---|
| A | Da. Yn perfformio fel y bwriadwyd ac yn gweithredu'n effeithiol. |
| B | Boddhaol. Yn perfformio fel y bwriadwyd ond yn arddangos dirywiad bychan. |
| C | Gwael. Yn arddangos diffygion mawr ac yn /a heb fod yn gweithredu fel y bwriadwyd. |
| D | Drwg. Bywyd wedi dod i ben ac/neu risg ddifrifol o fethiant ar fin digwydd. |

Mae'r arolwg yn darparu cost ôl groniad cynnal a chadw – hynny yw, y gost sy'n gysylltiedig â gwella cyflwr yr adeilad i'r safon disgwyliedig sydd yn ddiogel ar gyfer plant, staff, rhieni a defnyddwyr eraill yr ysgol h.y. gwaith sy'n cydymffurfio gyda safonau statudol iechyd a diogelwch. Dangosir isod y ffigurau ar gyfer ôl-groniad cynnal a chadw ar gyfer pob un o'r tair ysgol.

| Ysgol Biwmares | Ysgol Llandegfan | Ysgol Llangoed |
|---|---|---|
| £936,000 | £86,000 | £107,000 |

Mae'r swm ar gyfer Ysgol Llangoed yn cymharu'n ffafriol â Ysgol Biwmares sydd yn adlewyrchu y radd cyflwr [C] sydd yn nodi bod nifer o ddiffygion sydd angen sylw yn yr ysgol.


Mae syrfewyr siartredig y Cyngor hefyd wedi gwneud archwiliad cychwynnol sy'n dangos bod tir o gwmpas yr ysgol ar gyfer ymestyn yr adeilad ymhellach yn Llangoed.

3. **Teithio/ Cerdded/ Beicio i ysgol newydd petai Ysgol Llangoed yn cau**
Roedd nifer o'r rhanddeiliad yn bryderus o anfon plant ifanc ar fws heb gael eu goruchwylio i ysgol newydd tra roedd eraill yn cyfeirio at y ffaith bod disgyblion Ysgol Llangoed yn cerdded neu yn beicio i'r ysgol.

Mae plant 4-11 oed yn teithio ar fysus i'r ysgol yn barod e.e. o Lanfachraeth, Llanddeusant, Rhydwyn a Llanfairynghornwy i Ysgol Rhyd y Llan ac o bentrefi Penmynydd a Star i Ysgol Llanfairpwll.

4. **Llefydd gweigion**
Nifer helaeth o'r rhanddeiliaid yn cyfeirio at y ffaith bod na lawer llai o lefydd gweigion yn ysgol Llangoed i gymharu a ysgol Biwmares .

Mae % y llefydd gweigion (Ionawr 2018) yn y tair ysgol yn amrywio. Mae Ysgol Llandegfan dros ei chapasiti tra mae gan **Ysgol Llangoed 20% o lefydd gweigion ac mae 72% o llefydd gweigion yn Ysgol Biwmares:**




O'u grwpio, mae 32% o lefydd gweigion yn ysgolion ardal Seiriol sy'n cyfateb i 123 o lefydd gweigion.

5. **Addysg Ysgolion Gwledig**
Roedd rhai rhanddeiliaid yn cefnogi "datganiad diweddar Ysgrifennydd y Cabinet dro Addysg ar ysgolion gwledig".

Dylid nodi, fodd bynnag, mai rhagdybiaeth yn erbyn cau yw hyn, ac nid yw'r Cô Trefniadaeth diwygiedig yn dweud na ddylai ysgolion gwledig gau. Yn wir, mae'r Cô Trefniadaeth yn datgan bod blaenoriaeth i ddarparu addysg o safon uchel mewn ysgolion bach a gwledig, ac yn wir mae'n cydnabod mai addysg yw'r ystyriaeth bennaf. Nid yw'r Cô Trefniadaeth Ysgolion diwygiedig wedi dod i rym eto ond mae'r Awdurdod yn ceisio cyfarc ei gynnwys.

6. **Amgylchedd**
Pryder gan rai rhanddeiliaid oedd y byddai cau Ysgol Llangoed yn arwain at gynnydd mewn allyriadau carbon wrth deithio i Ysgol arall mewn bws/ car .Gwnaed y sylw hefyd bod costau ynni ysgol Llangoed yn llawer is na'r ysgolion eraill.

Ceir ystadegau am faterion amgylcheddol yn rhan 12 o'r adroddiad hwn.

Pryder gan rai rhanddeiliaid oedd y byddai cau Ysgol Biwmares yn arwain at gynnydd mewn allyriadau carbon. Er hynny, mae cyfrifiadau'n dangos:

- byddai cau Ysgol Biwmares yn arwain leihad mewn allyriadau carbon
- byddai cau Ysgol Llangoed yn arwain at gynnydd mewn allyriadau carbon.

O ran gwariant ar drydan a thanwydd, ar gyfartaledd, Ysgol Llangoed sydd â'r gwariant isaf o'r tair ysgol a sydd â'r allyriadau carbon deuocsid isaf o'r tair ysgol.

| | Gwariant (ar drydan a thanwydd) | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Ysgol** | **2014-2015** | **2015-2016** | **2016-2017** | **Cyfartaledd (y flwyddyn)** |
| **Biwmares** | £21,192 | £17,630 | £19,617 | £19,480 |
| **Llangoed** | **£7,066** | **£7,441** | **£9,308** | **£7,938** |
| **Llandegfan** | £17,340 | £4,562 | £10,995 | £10,966 |

| | Tunnell $CO_2$ (trydan a thanwydd) | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Ysgol** | **2014-2015** | **2015-2016** | **2016-2017** | **Cyfartaledd (tunnell $CO_2$)** |
| **Biwmares** | 93 | 88 | 92 | 91 |
| **Llangoed** | **29** | **29** | **29** | **29** |
| **Llandegfan** | 39 | 35 | 33 | 36 |

7. **Effaith posib ar y gymuned**
Yr effaith posib o gau Ysgol Llangoed ar y gymuned oedd yn poeni nifer o randdeiliaid a bod ysgol yn galon y gymuned.

O ran yr honiad fod "ysgolion yn galon y gymuned ac y byddai'r gymuned yn dirywio pan fo ysgol yn cau, derbynnir bod hyn yn her. Er hynny, mae esiamplau penodol lle bo ysgol newydd wedi creu cymuned "ehangach". Yn ogystal mae esiamplau lle mae'r gymuned yn parhau i ffynnu mewn pentrefi lle mae'r ysgol wedi cau. Mae eisteddfodau yn parhau mewn pentrefi ar Ynys Môn lle nad oes ysgol e.e Marianglas**.**

8. **Y Gymraeg**
Roedd nifer o sylwadau ynghylch y Gymraeg ac yn cwestiynu effaith posib cau Ysgol Llangoed ar yr iaith pe bai plant yn symud i Ysgol Biwmares.

O ran y Siarter Iaith yr Awdurdod mae Ysgol Llangoed wedi cyrraedd safon arian ac mae Ysgol Biwmares wedi cyrraedd safon arian. Mae nifer y disgyblion sy'n siaradwyr Cymraeg gartref fel a ganlyn:

| Ysgol | Biwmares | Llandegfan | Llangoed |
|---|---|---|---|
| % sy'n siarad Cymraeg gartref | 20% | 43% | 46% |

9. **Cost y pen yn isel**
Cyfeiriodd lawer o'r rhanddeiliad bod cost y pen yn is yn Ysgol Llangoed i gymharu a Ysgol Biwmares.

Ym mlwyddyn ariannol 2017/18, roedd gwariant y pen ar Ynys Môn yr uchaf ond 2 yn genedlaethol [3ydd allan o 22] yn y sector cynradd. Mae'r tabl yn dangos gwariant y pen yn y tair ysgol:

| Ysgol | Nifer y disgyblion Medi 2016* | Dyraniad 2017/18 | Dyraniad y disgybl 2017/18 |
|---|---|---|---|
| **Biwmares** | 43.8 | £261,729 | **£5,976** |
| **Llandegfan** | 144.0 | £516,846 | **£3,589** |
| **Llangoed** | 86.8 | £353,899 | **£4,077** |
| **Cyfanswm** | **274.6** | **£1,132,474** | **Cyfartaledd o £4,124** |
| **Ynys Môn** | | | **Cyfartaledd o £3,972** |
| **Cymru** | | | **Cyfartaledd o £3,690** |

***Mae niferoedd disgyblion yn unryw fis Medi yn cael eu defnyddio i gyfrifo cyllidebau ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf.**

Mae’r tabl yn dangos bod gwariant y pen ar gyfer 2017/18 yn uwch na’r cyfartaledd ar gyfer Cymru (£3,690) mewn 2 o’r tair ysgol ac mae gwariant y pen yn Ysgol Llandegfan yn llai na’r cyfartaledd ar gyfer Ynys Môn (£3,972). Mae gwariant y pen yn Ysgol Llangoed yn fwy na’r cyfartaledd yn Ynys Môn a Chymru.

Dengys yr uchod bod Ysgol Biwmares yn derbyn £80,160 yn fwy o gyllid na chyfartaledd yr Awdurdod ar gyfer 2017-18 [ac mae’r patrwm hwn wedi bodoli ers sawl blwyddyn]. Mae’r ffigwr cyfatebol ar gyfer Ysgol Llangoed yn £8,190. Mae’r un cyfrifiad yn dangos bod Ysgol Llandegfan yn derbyn £58,982 yn llai o gyllid na chyfartaledd yr Awdurdod.

10. **Tai**
Y rhanddeiliaid yn mynegi bod tai fforddiadwy newydd gael eu hadeiladu ger Ysgol Llangoed ar gyfer teuluoedd ifanc sydd yn anfon eu plant i’r ysgol . Nododd y rhanddeiliad hefyd bod prisiau tai yn is yn Llangoed na Biwmares sydd yn denu teuluoedd ifanc fydd yn anfon eu plant i’r ysgol hefyd i’r dyfodol.

Adeiladwyd deg o dai fforddiadwy yn ystod 2016 gan Gymdeithas Tai Gogledd Cymru.

11. **Safle Ysgol Llangoed yn addas ar gyfer disgyblion anabl**
Mynegwyd gan nifer o’r rhanddeiliaid bod Ysgol Llangoed yn addas ar gyfer disgyblion gyda anableddau i gymharu ag Ysgol Biwmares.

Mae syrfewyr siartredig y sir wedi cadarnhau mai cydymffurfio yn rhannol gyda’r Ddeddf Cydraddoldeb 2010 mae Ysgol Llangoed ac Ysgol Biwmares.

12. **Rhannu Pennaeth**
Gallai Llangoed a Biwmares rannu pennaeth

Cafodd hyn ei ystyried yn yr adroddiad ar yr ymgynghoriad anstatudol fel opsiwn posib. Rhwng Ysgol Llangoed ac Ysgol Biwmares, byddai tua 120 o ddisgyblion yn yr ysgol. Er hynny, ni fyddai ffedereiddio'r 2 ysgol yn mynd i'r afael â llefydd gweigion, cyflwr yr adeiladau nag o anghenraid yn arwain at arbedion cyllidol.

## 10.4 Cyffredinol

1. Mae’r dogfennau'n anodd eu deall

Mae angen llawer o wybodaeth yn y dogfennau ymgynghori yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion. Mae'r Awdurdod yn ymdrechu i sicrhau bod y dogfennau mor hygyrch â phosib. Yn ogystal dywedodd Estyn: “Mae’r cynigiwr wedi cyflwyno ystod gynhwysfawr ... o ddadleuon dros ac yn erbyn y cynigion sy’n cael eu hystyried.”

2. Mae'r gyrwyr newid yn y ddogfen yn lleihau mewn arwyddocâd

Nid yw'r Awdurdod yn cytuno bod y gyrwyr am newid yn lleihau mewn arwyddocâd ac felly'n parhau i'w defnyddio.

3. Plentyn ag AAA

Mae Datganiad yn ddogfen sy'n nodi Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) plentyn ac unrhyw gymorth ychwanegol y dylai'r plentyn ei dderbyn. Nod y Datganiad yw sicrhau bod y plentyn yn cael y gefnogaeth gywir i'w alluogi/galluogi i wneud cynnydd yn yr ysgol. Byddai'r Datganiad hwn yn parhau'n ddilys i unrhyw blentyn dan sylw.

4. Mae angen mynd i'r afael â phroblemau ffyrdd / Mae angen datrys y sefyllfa o ran ffyrdd.

Mae gwaith i wella a chryfhau'r A545 yn parhau trwy Adran Priffyrdd yr Awdurdod. Bydd £159,000 yn cael ei wario ar sefydlogi'r brif ffordd rhwng Porthaethwy a Biwmares.

**10.5 Opsiynau Amgen (Pwyllgor Ymateb Ysgol Biwmares)**

Mynegodd dros 15 o’r rhanddeiliaid eu cefnogaeth i gadw’r tair ysgol ar agor gan leihau ysgol Biwmares a defnyddio’r safle gwag ar gyfer darpariaeth gofal ychwanegol.

Ar ôl yr ymgynghoriad statudol o 20 Tachwedd 2017 tan 6 Chwefror 2018, cyflwynodd Pwyllgor Ymateb Ysgol Gynradd Biwmares bedwar opsiwn amgen:

A. Cau Ysgol Llangoed a moderneiddio Ysgol Biwmares i ddod yn Ysgol Bro Seiriol.

B. Gwnewch Ysgol Biwmares yn ysgol lai a defnyddiwch ran o'r adeilad ar gyfer meithrinfa neu ddarpariaeth addysgol arall.

C. Datblygu cynnig addysgol gwahanol iawn yn Ysgol Biwmares i ddenu mwy o ddisgyblion ar draws yr ardal, yn seiliedig ar antur, meddylfryd a chreadigrwydd.

D. Datblygu model arloesol lle mae disgyblion Ysgol Biwmares a phobl hŷ yn ychwanegol gofal yn dysgu gyda'i gilydd ac yn ymgymryd â gweithgareddau a rennir.

Cafodd y rhain eu hail-gyflwyno ar 2 Gorffennaf 2018, ychydig cyn ddiwedd yr ymgynghoriad hwn. Cafodd yr opsiynau eu sgorio gan swyddogion yr Awdurdod fel ymateb i’r opsiynau amgen a derbyniwyd sgoriau Corff Llywodraethu YGB:

| **Opsiwn** | **A** | **B** | **C** | **D** |
|---|---|---|---|---|
| Sgôr yr Awdurdod | 75 | 68 | 72 | 72 |
| Sgôr Corff Llywodraethu YGB | 77 | 78 | 81 | 83 |

| Opsiwn | Manteision | Anfanteision | Risgiau |
|---|---|---|---|
| Opsiwn A - Cau Ysgol Llangoed a moderneiddio Ysgol Biwmares a'i gwneud yn Ysgol Bro Seiriol | ▪ Ffedereiddio gydag Ysgol Llandegfan – ac felly cryfhau arweinyddiaeth<br>▪ Atgyweirio adeilad rhestredig presennol a gwneud gwell defnydd o'r adeilad<br>▪ Yr opsiwn yn gallu denu cyllid cyfalaf 50% Ysgolion 21ain Ganrif | ▪ Cyflwr adeilad Ysgol Biwmares wedi'i raddio yn C ac mae'r ôl groniad cynnal a chadw yn £936,000.<br>▪ Costau cyfalaf uwch na opsiwn 3a yn yr adroddiad<br>▪ Goblygiadau staffio - adleoli ac / neu digyflogi<br>▪ Heriau gweithredu newydd e.e. Enw'r ysgol newydd, gwisg ysgol newydd<br>▪ Cau ysgol bentref Llangoed<br>▪ Ôl troed carbon uchel yn Ysgol Biwmares<br>▪ Yr angen i ad-leoli'r plant a'r staff dros dro pan fydd yr ysgol yn cael ei gwagio i bwrpas yr addasiadau. | Mae rhieni yn cael dewis i ba ysgol maent am anfon eu plant, ac nid oes rhaid iddynt anfon eu plant i'r ysgol agosaf. Rhaid nodi felly bod risg o anghysondebau yn y rhagamcanion ar gyfer ysgolion unigol ac o ganlyniad y risg o sicrhau bod yr ysgol yn hyfyw<br><br>Y risg o gyfanswm cost y prosiect yn cynyddu oherwydd maint y gwaith i'r Adeilad Rhestredig Gradd II ar y safle.<br><br>Y risg o oediad i'r amserlen gan fod cais i addasu adeilad rhestredig yn gallu bod yn broses hirach.<br><br>Y risg o'r 'anrhagweledig' unwaith bydd y gwaith yn cychwyn ar yr adeilad rhestredig, ac oediad i'r amserlen.<br><br>Y Risg nad yw CADW yn cymeradwyo'r cais cynllunio. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Opsiwn B** - Gwneud Ysgol Biwmares yn ysgol lai ei maint, a defnyddio rhan o'r adeilad ar gyfer darpariaeth Meithrin neu addysgol arall | Y tair ysgol yn parhau ar agor ac felly yn fanteisiol i'r cymunedau hynny dan sylw.<br><br>Cyfeirir at gynnig o ddarpariaeth gofal plant cyn- ysgol ar y safle yn yr opsiwn yma sy'n fanteisiol iawn i deuluoedd. Ond dylid nodi bod strategaeth moderneiddio ysgolion eisoes wedi cyfarch hyn. Bydd Band B Ynys Môn yn parhau i ymgynghori, ymgysylltu a gweithio gyda phartneriaid, yn arbennig mewn perthynas â datblygu lleoedd mewn ysgolion ochr yn ochr â digonolrwydd y ddarpariaeth gofal plant drwy gyfrwng y Gymraeg gyda Mudiad Meithrin, Cymdeithas Cylchoedd Chwarae Cyn-ysgol Cymru a phartneriaid yn y sector gofal plant preifat i rai rhwng 0 a 3 oed. Bydd y penderfyniad ar gyfer ardal Seiriol yn cyfarch y galw am ddarpariaeth gofal plant yn yr ardal. | Cadw'r 3 ysgol ar agor - felly ni fydd yn mynd i'r afael a sefyllfa cynnal a chadw ôl groniad uchel ac ôl troed carbon uchel. Nid yw'r weledigaeth ar gyfer creu partneriaethau yn glir<br><br>Nid yw'r galw am ddarpariaeth addysgol arall e.e. Coleg Menai wedi ei amlygu yn ardal Biwmares. Mae Coleg Menai wedi dweud "eu bod yn rhesymoli safleoedd ac mae'r dyddiau o dwf, ble roeddem yn agor canolfannau cymunedol wedi hen fynd oherwydd pwysau cyllidol."<br>Yn ogystal, dywedodd Prif Weithredwr Grŵp Llandrillo Menai y byddai "agor canolfan yn Biwmares ddim yn cyd-fynd a'u strategaeth stadau". Gweler isod am fwy o sylwadau Prif Weithredwr Grŵp Llandrillo Menai. | Mae rhan o'r ysgol yn cael ei defnyddio yn bresennol ar gyfer darpariaeth Meithrin ac mae denu sefydliadau addysgol / creu partneriaeth eraill i ddefnyddio'r safle yn risg yn enwedig os nad oes galw am hynny wedi dod i'r amlwg yn yr ardal benodol yma.<br>Cadw tair ysgol - risg o sicrhau eu bod yn hyfyw<br><br>Risg mewn perthynas a diogelwch. Bydd angen sicrhau bod y safle yn cael ei reoli yn briodol |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Opsiwn C** - Datblygu cynnig addysgol wahanol yn Ysgol Biwmares I ddenu mwy o blant ar draws yr ardal - yn seiliedig ar antur, ymwybyddiaeth ofalgar (mindfulness) a chreadigrwydd. | Y tair ysgol yn parhau ar agor ac felly yn fanteisiol i'r cymunedau hynny dan sylw.<br><br>Caniatáu cyflwyno amrywiaeth o brofiadau addysgol | Cadw'r 3 ysgol ar agor - felly ni fydd yn mynd i'r afael a sefyllfa cynnal a chadw ôl groniad uchel ac ôl troed carbon uchel. Mae antur, creadigrwydd ac ymwybyddiaeth ofalgar yn nodweddion carid y cwricwlwm Donaldson newydd a ddaw i rym yn 2021 ac felly ni fyddai'n unigryw. | Y risg o oediad i'r amserlen gan fod cais i addasu adeilad rhestredig yn gallu bod yn broses hirach.<br><br>Y risg o'r 'anrhagweledig' unwaith bydd y gwaith yn cychwyn ar yr adeilad rhestredig, ac oediad I'r amserlen.<br><br>Y Risg nad yw CADW yn cymeradwyo'r cais cynllunio. |
| **Opsiwn D** - Datblygu model arloesol ar gyfer disgyblion Ysgol Biwmares a phobl hŷn o'r cyfleusterau gofal ychwanegol ac ymgymryd â gweithgareddau ar y cyd. | Y tair ysgol yn parhau ar agor ac felly yn fanteisiol i'r cymunedau hynny dan sylw. | Cadw'r 3 ysgol ar agor - felly ni fydd yn mynd i'r afael a sefyllfa cynnal a chadw ôl groniad uchel ac ôl troed carbon uchel. | Y risg o oediad i'r amserlen gan fod cais i addasu adeilad rhestredig yn gallu bod yn broses hirach.<br><br>Y risg o'r 'anrhagweledig' unwaith bydd y gwaith yn cychwyn ar yr adeilad rhestredig, ac oediad i'r amserlen.<br><br>Y Risg nad yw CADW yn cymeradwyo'r cais cynllunio. |

| Opsiwn | Opsiwn A - Cau Llangoed a Moderneiddio Biwmares a Llandegfan | Opsiwn B - Lleihau maint Biwmares, a rhentu gweddill yr adeilad fel Meithrinfa | Opsiwn C - Cadw'r 3 ysgol yn agored, a gwneud y gwaith ôl-groniad | Opsiwn D - Lleihau maint Ysgol Biwmares, a gwneud gweithgareddau ar y cyd efo'r Cynllun Tai Gofal Ychwanegol |
|---|---|---|---|---|
| Amcangyfrif Cost Cyfalaf | £- | £ - | £- | £ - |
| Cost Cynnal a Chadw Ol-Groniad | £1,022,000 | £1,323,000 | £1,129,000 | £688,067 |
| **Cyfanswm Costau Cyfalaf** | **£1,022,000** | **£1,323,000** | **£1,129,000** | **£688,067** |
| Cyllid Llywodraeth Cymru | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Derbyniadau Cyfalaf | -£364,000 | 0 | 0 | 0 |
| **Benthyca Di-gefnogaeth Net** | **£658,000** | **£1,323,000** | **£1,129,000** | **£688,067** |
| Cost flynyddol Darpariaeth Refeniw Isaf | £32,900 | £66,150 | £56,450.00 | £34,403.34 |
| Cost Llog Blynyddol @ 2.72% | £17,898 | £35,986 | £30,709 | £18,715 |
| Costau Cludo Ychwanegol | £52,000 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm Costau Refeniw Ychwanegol** | **£102,797.60** | **£102,135.60** | **£87,159** | **£53,119** |
| (Arbedion) / Cost Ychwanegol Refeniw | -£71,992 | -£30,686 | 0 | -£30,686 |
| Incwm Rent ychwanegol | £0 | -£43,110.00 | 0 | 0 |
| **Cost Refeniw Ychwanegol Net** | **£30,805.60** | **£28,339.60** | **£87,158.80** | **£22,432.75** |
| **Unrhyw (Arbedion) / Costau Ychwanegol** | Costau yn lleihau £1,268 drwy ffedereiddio Biwmaris a Llandegfan, fodd bynnag ni fydd hyn yn arwain at leihad yn y dyraniadau. Ddim yn ystyried costau diswyddo. | | Costau yn lleihau rhwng £34,497 a £39,420 drwy ffedereiddio Biwmaris, Llandegfan a Llangoed, fodd bynnag ni fydd hyn yn arwain at leihad yn y dyraniadau. Ddim yn ystyried costau diswyddo. | Costau ychwanegol tua £90,000, yn y flwyddyn gyntaf I ddymchwel y rhan o'r ysgol na fydd yn cael ei defnyddio. |

O edrych ar gostau tebygol yr opsiynau, ni fyddai unrhyw un yn arwain at arbedion refeniw i’r Awdurdod.

O ran opsiwn B, cadarnhaodd Coleg Menai:
1. Nad oes dim cysylltiad wedi bod gan y Grŵp Ymateb â'r Coleg am y syniad hwn.
2.Mae Grŵp Llandrillo Menai ar hyn o bryd yn rhesymoli safleoedd ac mae’r dyddiau o dwf, ble roeddem yn agor canolfannau cymunedol wedi hen fynd oherwydd pwysau cyllidol.
3. Fyddai agor canolfan yn Biwmares ddim yn cyd-fynd a’u strategaeth stadau.

**Opsiwn D - Lleihau maint Ysgol Biwmares, a gwneud gweithgareddau ar y cyd efo'r Cynllun Tai Gofal Ychwanegol**

Mae’r opsiwn yn golygu lleihau maint Ysgol Biwmares, a chyd-leoli gyda’r Cynllun Tai Gofal Ychwanegol. Byddai hyn yn golygu ysgol gyda chynhwysedd o 60 gan gynnwys 2 ystafell ddosbarth, ystafell staff, neuadd, derbynfa fel isafswm.

Asesir isod yr opsiwn amgen hwn yn erbyn y gyrwyr newid ar gyfer y rhaglen moderneiddio ysgolion (gweler rhan 2 o’r adroddiad).

*Codi safonau addysgol*

- Byddai cael 2 ystafell ddosbarth o anghenraid yn golygu dosbarthiadau oedran cymysg fyddai o bosib yn rhychwantu cyfnodau allweddol h.y. ni fyddai’r cynllun yn rhoi sylw digonol i hyn. O ganlyniad, ni fyddai’n sicrhau’r amgylchiadau i athrawon gyflawni a byddai pryder ynghylch gallu’r trefniant i barhau i godi safonau.
- Yn ôl fformiwla’r Awdurdod byddai hyn yn arwain at sefyllfa lle fyddai gan y pennaeth gyfrifoldeb dosbarth am ran helaeth o’r wythnos. Ni fyddai digon o staff i ffurfio tîm rheoli i arwain ar yr addysgu a’r dysgu.
- Rhagwelir na fyddai ysgol o’r maint hyn yn gallu cynnig mwy o hyblygrwydd i gyfarfod ag anghenion plant unigol fyddai yn ei dro yn arwain a chodi safonau ar draws yr ystod gallu.

*Lleihau’r amrywiad mewn cost y disgybl*

- Mae’n debygol byddai cost y disgybl ar gyfer yr ardal h.y. Biwmares/Llangoed yn parhau yn uwch na’r cyfartaledd ar gyfer Ynys Môn a Chymru.

*Sicrhau bod adeiladau ysgol yn creu amgylchedd dysgu orau bosib*

- Wrth wneud gwaith i leihau’r ôl-groniad cynnal a chadw, byddai ansawdd yr adeiladau yn well. Byddai angen 2 ystafell/dosbarth, staff, toiledau, neuadd, swyddfa, derbynfa, gofod chwarae a MUGA (Multi Use Games Area).
- Amcangyfrifir byddai cael uned ysgol yn yr adeilad presennol yn costio £1,118,900. Nid oes unrhyw sicrwydd byddai Llywodraeth Cymru’n yn cyfrannu hanner y cyllid tuag y gwaith adeiladu.
- Byddai’r opsiwn hwn yn lleihau’r ôl-groniad cynnal a chadw ac fe fyddai materion diogelwch yr adeilad yn cael sylw.
- Byddai cost ychwanegol i roi sylw i faterion trafnidiaeth a pharcio ar y safle ar gyfer staff, ymwelwyr ac ar gyfer man gollwng addas ar gyfer bysiau.
- Byddai swyddfeydd ar gyfer y Pennaeth a staff gweinyddol, ystafell staff ac ystafell ar gyfer cyfnodau CPA’r athrawon yn debyg i’r hyn sydd yno ar hyn o bryd.
- Buasai’r rhwydwaith TGCh yn debyg i’r hyn sydd yno ar hyn o bryd.
- Byddai cost refeniw blynyddol i’r Cyngor o’r trefniant hwn.

*Creu'r amodau fel bod Penaethiaid yn llwyddo - cynyddu capasiti arweinyddol*

- Byddai gan y Pennaeth [neu Pennaeth safle] gyfrifoldeb dosbarth am ran helaeth o'r wythnos.
- Os byddai Ysgol Biwmares yn cael ei ffedereiddio, byddai angen rheolwr safle i ddirprwyo am y pennaeth yn ei (h)/absenoldeb i arwain a rheoli. Byddai hyn yn gost ychwanegol.

*Sicrhau cyflenwad digonol o Benaethiaid at y dyfodol*

- Ni fyddai'r sefyllfa hwn o anghenraid yn arwain ychwanegu at y cyflenwad o benaethiaid.
- Petai Rheolwr Safle yno, gellir dadlau byddai'r trefniant yn ffordd o ddatblygu unigolion ar gyfer swydd Pennaeth.

*Defnydd cymunedol o adeilad yr ysgol*

- Byddai trefniant Tai Gofal Ychwanegol yn darparu'r gofod ar gyfer hyn.

*Lleihau nifer llefydd gweigion*

- Byddai % llefydd gweigion yn lleihau yn Ysgol Biwmares gan y byddai'r cynhwysedd yn lleihau ond ni fyddai'n lleihau yn Ysgol Llangoed. Serch hynny, gallai godi yn Ysgol Llangoed ac yn Ysgol Biwmares hefyd yn sgîl penderfyniadau rhieni.

*Darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog*

- Byddai'r Awdurdod yn sicrhau bod unrhyw benodiadau i'r ysgol yn gwbl ymroddedig i adeiladu ymhellach ar y sylfaen sydd wedi'i osod yn yr ardal yn gyfredol mewn perthynas â hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a hyfedredd dwyieithog.
- Byddai rhaid cael ymrwymiad pendant i wireddu hyn.

*CADW*

- Yn ychwanegol i'r materion uchod, byddai angen cytundeb CADW i unrhyw ddatblygiadau ar y safle. Yn ogystal, rhagwelir byddai cost ychwanegol i addasu adeilad rhestredig fel ddigwyddodd gydag Ysgol Cybi.

**Opsiwn gyflwynwyd yn ystod yr ymgynghori**

Cyflwynwyd opsiwn arall sef ysgol i tua 120 o blant yn Ysgol Gynradd Biwmares sef cau Ysgol Llangoed a symud disgyblion Ysgol Llangoed i Ysgol Biwmares a cael datblygiad Tai Gofal Ychwanegol ar y safle.

Er mwyn ceisio gwireddu'r opsiwn hwn, byddai'n golygu ysgol i tua 120 o blant ynghyd â 10% ychwanegol i ehangu yn y dyfodol. O ran costau cludiant, fel amlinellir yn rhan 11 o'r adroddiad hwn, byddai'r opsiwn hwn yn debyg iawn i Opsiwn 2 a byddai'n costio £54,000 i gludo'r plant o Langoed i Fiwmares mewn bysus. Byddai hyn, yn ei dro'n golygu byddai'r bysus yn gorfod teithio fyny Allt Goch ar Ysgol Gynradd Biwmares. Nid yw'n debygol byddai'r opsiwn hwn chwaith yn arwain at arbedion refeniw net i'r Awdurdod ar adeg pan mae'n rhaid i Gyngor Sir Ynys Môn wneud arbedion [o rhwng £6m a £10 m arall dros y tair blynedd nesaf] a byddai'n rhaid i'r Adran Dysgu Gydol Oes gynllunio i wneud arbedion o 10.8% fyddai'n debygol o gael effaith ar gyllidebau ysgolion.

## 11. YSTYRIAETHAU ARIANNOL

Mae gwariant cyhoeddus yn cael ei leihau ac mae’r rhagamcanion yn wael. Mae’n rhaid i Gyngor Ynys Môn wneud arbedion [o rhwng £6m a £10 m arall dros y tair blynedd nesaf] ac mae’n rhaid i’r Adran Dysgu Gydol Oes gynllunio i wneud arbedion o 10.8% a bydd hyn yn cael effaith ar gyllidebau ysgolion.

Ym y flwyddyn ariannol 2017/18, roedd gwariant y pen ar Ynys Môn yr uchaf ond 2 yn genedlaethol [3ydd allan o 22] yn y sector cynradd. Mae’r tabl yn dangos gwariant y pen yn y tair ysgol dan sylw:

| Ysgol | Nifer y disgyblion Medi 2016* | Dyraniad 2017/18 | Dyraniad y disgybl 2017/18 |
|---|---|---|---|
| **Biwmares** | 43.8 | £261,729 | **£5,976** |
| **Llandegfan** | 144.0 | £516,846 | **£3,589** |
| **Llangoed** | 86.8 | £353,899 | **£4,077** |
| **Cyfanswm** | **274.6** | **£1,132,474** | **Cyfartaledd o £4,124** |
| **Ynys Môn** | | | **Cyfartaledd o £3,972** |
| **Cymru** | | | **Cyfartaledd o £3,690** |

Cyllidir costau cyfalaf unrhyw ysgol newydd a adeiladir dan raglen Ysgolion 21ain Ganrif Llywodraeth Cymru drwy gyfuniad o grantiau a benthyciadau. Darperir 50% o’r gyllideb gan Llywodraeth Cymru drwy grantiau cyfalaf a benthyca gyda chefnogaeth (cyllidir ad-daliadau dyled blynyddol a chostau llog yn y Grant Cymorth Refeniw). Mae’n rhaid cyllido’r 50% sy’n weddill gan yr Awdurdod Lleol drwy unrhyw incwm a gynhyrchir drwy werthu hen safleoedd ysgolion a drwy benthyca di-gefnogaeth lle mae’n rhaid i’r Cyngor gyllido’r cost blynyddol o ad-dalu dyled a llog blynyddol.

Mae adeiladu ysgolion newydd yn fuddsoddiad cyfalaf sylweddol a rhaid i’r gwerthusiad ariannol o’r opsiynau ystyried y rhwymedigaeth refeniw i’r dyfodol er mwyn sicrhau fod y baich ariannol o adeiladu ysgolion newydd i genedlaethau’r dyfodol cyn lleied â phosib. Mae adeiladu ysgolion newydd mwy hefyd yn arwain at economïau maint a chostau refeniw llai. Mae’r gostyngiad yng nghostau refeniw hefyd yn ffactor bwysig yn y gwerthusiad ariannol gan fod yr arbedion a gynhyrchir yn cyfrannu tuag at y costau cyllido cyfalaf ychwanegol.

Cynhyrchir arbedion refeniw gan fod rhedeg un ysgol fawr yn llai costus yn nhermau cynnal a chadw adeilad ac ynni, costau rheoli llai (un Pennaeth yn lle dau) a gellir gosod meintiau dosbarthiadau i’r lefel orau posib sy’n gostwng costau dysgu.

Mae’r gwerthusiad ariannol yn ystyried y gost o gyllido’r benthyciad, yr arbedion refeniw a gynhyrchir a’r costau ychwanegol o gludo disgyblion i’r ysgol newydd. Er mwyn ymgymryd â’r gwerthusiad ariannol, gwnaed y rhagdybiaethau isod :-

- Fe gyllidir benthyciadau i gyllido’r ysgolion newydd dros gyfnod o 50 mlynedd gyda’r Ddarpariaeth Refeniw Isaf wedi ei gyfrifo ar ddull llinell syth.
- Fe gyllidir benthyciadau i gyllido’r costau cynnal a chadw ôl-groniad dros gyfnod o 20 mlynedd gyda’r Ddarpariaeth Refeniw Isaf wedi ei gyfrifo ar ddull llinell syth.
- Roedd y graddfeydd llog yn seiliedig ar y raddfa benthyca gyfredol.

- I gyfrifo costau refeniw'r ysgol newydd, defnyddiwyd y wybodaeth gyfredol ynglŷn â niferoedd disgyblion, prydau ysgol am ddim, anghenion addysgiadol arbennig disgyblion, ac ati, er mwyn gwneud dyraniad amcangyfrifiedig ar gyfer yr ysgol newydd.
- Ni chynhwyswyd costau unwaith ac am byth yn y gwerthusiad ariannol, gan gynnwys costau apwyntio Pennaeth cyn i'r ysgol newydd agor, costau diswyddiadau, diogelu cyflogau a chostau cynnal y gyn safleoedd. Fe gymerir y rhain i ystyriaeth pan lunnir y cynllun busnes manwl o'r opsiwn y cytunir arni.

O ran y cynnig dan sylw, mae'r ymgynghoriad yn ymwneud ag Opsiynau 1 a 2 sef:
*Opsiwn 1* - Adnewyddu ac ymestyn Ysgol Llandegfan, cau Ysgol Biwmares ac adnewyddu Ysgol Llangoed
neu
*Opsiwn 2* - Adnewyddu ac ymestyn Ysgol Llandegfan, cau Ysgol Llangoed ac adnewyddu Ysgol Biwmares.
Er mwyn gallu cymharu posibiliadau eraill, cynhwyswyd yr opsiwn o wneud dim yn ogystal a chynnwys yr opsiwn o gadw'r tair ysgol ond ffedereiddio Ysgol Llangoed ac Ysgol Biwmares.

Gwelir yn y Tabl isod canlyniadau'r gwerthusiad ariannol o'r opsiynau :-

| **Opsiwn** | **Gwneud Dim** | **Cadw'r 3 ysgol yn agored, ond ffedereiddio Llangoed a Biwmares** | **Opsiwn 1 Cadw Llandegfan a Llangoed yn agored, ond cau Biwmares** | **Opsiwn 2 Cadw Llandegfan a Biwmares yn agored ond cau Llangoed** |
|---|---|---|---|---|
| Amcangyfrif Cost Cyfalaf | £0 | £0 | £1,864,745 | £1,079,200 |
| Cost cynnal a chadw ôl-groniadol | £1,129,000 | £1,129,000 | £0 | £936,000 |
| **Cyfanswm Costau Cyfalaf** | **£1,129,000** | **£1,129,000** | **£1,864,745** | **£2,015,200** |
| Cyllid Llywodraeth Cymru | £0 | £0 | (£932,372) | (1,007,600) |
| Derbyniadau Cyfalaf | £0 | £0 | (£342,000) | (£364,000) |
| **Benthyca Di-gefnogaeth Net** | **£1,129,000** | **£1,129,000** | **590,373** | **643,600** |
| **Rhwymedigaethau Refeniw** | | | | |
| Cost flynyddol Darpariaeth Refeniw Isaf | £56,450 | £56,450 | £11,807 | £21,839 |
| Cost Llog Blynyddol | £30,709 | £30,709 | £14,228 | £16,416 |
| Costau Cludo Ychwanegol | £0 | £0 | £38,000 | £54,000 |
| **Cyfanswm Costau Refeniw Ychwanegol** | **£87,159** | **£87,159** | **£64,035** | **£92,255** |
| (Arbedion) / Cost Ychwanegol Refeniw | £0 | £227 - £7,364 | (£101,710) | (£71,992) |
| **Costau Refeniw Ychwanegol Net** | **£87,159** | **£87,386 - £94,523** | **(£37,675)** | **£20,263** |

**Rhagdybiaethau**

| | |
|---|---|
| Gwneud dim | Yr unig waith cyfalaf fyddai gwneud y gwaith ôl- groniadol Cynnal a Chadw. Rydym felly yn rhagdybio ni fyddai Llywodraeth Cymru yn Cyfrannu at y gost. |
| Cadw'r 3 ysgol | Yr unig waith cyfalaf fyddai gwneud y gwaith ôl- groniadol Cynnal a Chadw. Rydym felly yn rhagdybio ni fyddai Llywodraeth Cymru yn Cyfrannu at y gost. |
| Opsiwn 1 | Yn cynnwys gwaith adnewyddu, ac estyniadau i Ysgol Llandegfan a Llangoed i wella'r adeilad i safonau Ysgolion Unfed Canrif ar hugain. Rhagdybir bydd hyn yn denu 50% o'r cyllid grant gan y Llywodraeth. |

Opsiwn 2 Yn cynnwys gwaith ôl groniad i Ysgol Biwmares, ac adnewyddu ac estyniad i Ysgol Llandegfan. Rhagdybir bydd hyn yn denu 50% o'r cyllid grant gan y Llywodraeth I'r ddwy ysgol. Os na ellir derbyn grant tuag at y gwaith ôl-groniad cynnal a chadw, byddai'r cost benthyg blynyddol yn codi £35,990, ac byddai'r Costau refeniw Ychwanegol Net yn £56,253.

Wrth gysidro'r ystyriaethau ariannol noder fod y tabl uchod yn dangos mai dim ond opsiwn 1 (sef cadw ysgol Llandegfan a Llangoed yn agored ond cau Ysgol Beaumaris) sy'n arwain at arbedion refeniw ac felly awgrymir mai dyma'r opsiwn gorau yn ariannol.

Byddai cadw Ysgol Biwmares, Ysgol Llandegfan ac Ysgol Llangoed ar agor yn golygu gwario £1,129,000 o bres y Cyngor a hynny heb unrhyw dderbynebau cyfalaf. Yn ogystal, byddai'n arwain at gostau refeniw ychwanegol o £87,159. Cost gwella'r ysgolion yw hyn ac nid gwariant ar gyfer eu gwella i safonau'r Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif. Yn ogystal byddai'r ôl-groniad cynnal a chadw'n debygol o gynyddu o £1,129,000 drwy wneud hynny. Yn ei dro, byddai hyn yn golygu gwneud y penderfyniad hwn ar adeg pan mae'n rhaid i Gyngor Sir Ynys Môn wneud arbedion [o rhwng £6m a £10 m arall dros y tair blynedd nesaf] a byddai'n rhaid i'r Adran Dysgu Gydol Oes gynllunio i wneud arbedion o 10.8% fyddai'n debygol o gael effaith ar gyllidebau ysgolion.

## 12. YSTYRIAETHAU AMGYLCHEDDOL

Cafodd Strategaeth Ynni'r Awdurdod ei fabwysiadu gan y Pwyllgor Gwaith yn 2017. Nod y strategaeth yw lleihau allyriadau carbon yr Awdurdod o 15% erbyn 2022.

Gweler isod wybodaeth am wariant yr Awdurdod ar danwydd a thrydan, dros y tair blynedd ariannol diwethaf, i'r ysgolion.

| | **Gwariant (ad drydan a thanwydd)** | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Ysgol** | **2014-2015** | **2015-2016** | **2016-2017** | **Cyfartaledd (y flwyddyn)** |
| **Biwmares** | £21,192 | £17,630 | £19,617 | £19,480 |
| **Llangoed** | £7,066 | £7,441 | £9,308 | £7,938 |
| **Llandegfan** | £17,340 | £4,562 | £10,995 | £10,966 |

Mae'r tabl isod yn manylu ar allyriadau carbon deuocsid o'r ysgolion dros y tair blynedd ariannol diwethaf.

| | **Tunnell $CO_2$ (trydan a thanwydd)** | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Ysgol** | **2014-2015** | **2015-2016** | **2016-2017** | **Cyfartaledd (tunnell $CO_2$)** |
| **Biwmares** | 93 | 88 | 92 | 91 |
| **Llangoed** | 29 | 29 | 29 | 29 |
| **Llandegfan** | 39 | 35 | 33 | 36 |

Gweler mai yn Ysgol Biwmares mae'r gwariant uchaf ar danwydd a thrydan a'r un ysgol sydd â'r allyriadau carbon deuocsid uchaf o'r tair ysgol.

## 13. CASGLIADAU AC ARGYMHELLIAD

Mae'r dystiolaeth a gyflwynwyd yn arwain at y casgliadau a ganlyn.

1. Bod angen i Ysgol Llandegfan, yn sgîl nifer y disgyblion, perfformiad cyfredol, cost y pen ac ôl-groniad cynnal a chadw a phatrwm teithio rhieni [h.y. tuag at Porthaethwy], fod yn rhan allweddol o unrhyw drefniadaeth newydd.

2. Bod maint yr ysgolion, ôl-groniad cynnal a chadw, cost y pen a % llefydd gweigion yn golygu nad yw yn bosib cyfiawnhau cadw Ysgol Biwmares **ac** Ysgol Llangoed ar agor. Byddai penderfyniad i uno ysgolion Biwmares a Llangoed yn
   - dod â dwy ysgol lle mae perfformiad cyfredol yn debyg ynghyd ac yn creu'r amodau cywir i godi safonau;
   - lleihau llefydd gweigion [20% yn Llangoed a 72% yn Biwmares] ac yn gwneud cyfraniad tuag at leihau'r gwahaniaeth rhwng cost y pen;
   - cynnig cyfle i roi sylw i'r ôl-groniad cynnal a chadw yn y ddwy ysgol a darparu un adeilad o safon unfed ganrif ar hugain ar gyfer y plant a'r athrawon;
   - yn gwneud defnydd mwy effeithlon o adnoddau'r Cyngor;
   - lleihau'r allyriadau carbon.

3. Crynhoir isod cymhariaeth o'r prif ffeithiau a gyflwynir yn yr adroddiad ynghylch sefyllfa Ysgol Biwmares ac Ysgol Llangoed yn erbyn y gyrwyr newid.

| Ysgol Biwmares | Ysgol Llangoed |
|---|---|
| Niferoedd disgyblion a chost y pen | |
| Mae niferoedd yn Ysgol Biwmares wedi gostwng yn sylweddol – un o'r rhesymau dros hyn yw'r ffaith fod cynifer o rieni'r ysgol eisoes wedi dewis i'w plant gael eu haddysgu mewn ysgolion eraill. Rhagolygon yn awgrymu bydd Ysgol Biwmares yn parhau i fod yn o leiaf yn hanner gwag.<br>Yn Ionawr 2018, roedd 8 disgybl, neu 17% o'r disgyblion, yn dod o'r tu allan i'r dalgylch a 72% yn gadael y dalgylch.<br>Mae Ysgol Biwmares yn derbyn £80,160 yn fwy o gyllid na chyfartaledd yr Awdurdod ar gyfer 2017-18 [ac mae'r patrwm hwn wedi bodoli ers sawl blwyddyn].<br>Llefydd gweigion yn uwch yn ysgol Biwmares (72%). | Mae niferoedd Ysgol Llangoed wedi aros yn eithaf cyson ond mae'r rhagolygon yn awgrymu gostyngiad.<br>Yn Ionawr 2018 roedd 19 disgybl neu 23% o'r disgyblion yn dod o'r tu allan i'r dalgylch a 35% yn gadael y dalgylch.<br>Mae Ysgol Llangoed yn derbyn £8,190 yn fwy o gyllid na chyfartaledd yr Awdurdod ar gyfer 2017-18<br>Llefydd gweigion yn Ysgol Llangoed yn 20%. |
| Safonau | |
| Mae perfformiad y ddwy ysgol wedi amrywio yn ystod y tair blynedd diwethaf ac mae'r proffil perfformiad, ar y cyfan, yn debyg.<br>Mae'r ysgol wedi gwella a bellach mewn categori Melyn h.y. ysgol sydd angen monitro a chefnogaeth ysgafn. | Mae perfformiad y ddwy ysgol wedi amrywio yn ystod y tair blynedd diwethaf ac mae'r proffil perfformiad, ar y cyfan, yn debyg.<br>Mae'r ysgol mewn categori Melyn h.y. ysgol sydd angen monitro a chefnogaeth ysgafn. |

| | |
|---|---|
| Cynhaliwyd yr Arolygiad Estyn diwethaf yn Ionawr 2014. Mae proffil arolygiad Biwmares a Llangoed yn eithaf tebyg. | Cynhaliwyd yr Adolygiad Estyn diwethaf yn Ionawr 2015. Mae proffil arolygiad Biwmares a Llangoed yn eithaf tebyg. |
| Arweinyddiaeth | |
| Mae amser digyswllt Pennaeth yn debyg yn y ddwy ysgol.<br>Mae dyfarniadau Estyn ar gyfer Arweinyddiaeth yn y ddwy ysgol yn ddigonol. | Amser digyswllt Pennaeth yn debyg yn y ddwy ysgol.<br>Mae dyfarniadau Estyn ar gyfer Arweinyddiaeth yn y ddwy ysgol yn ddigonol. |
| Cyflwr yr adeilad | |
| Mae cyflwr adeilad Biwmares wedi'i raddio yn C ac mae'r ôl-groniad cynnal a chadw yn £936,000.<br>Mae gwariant Ysgol Biwmares ar danwydd a thrydan yn uwch na Llangoed fel mae allyriadau carbon deuocsid. | Mae cyflwr adeilad Llangoed wedi'i raddio yn B ac mae'r ôl-groniad cynnal a chadw yn £107,000.<br>Mae gwariant Ysgol Biwmares ar danwydd a thrydan yn uwch na Llangoed fel mae allyriadau carbon deuocsid. |

Yn sgîl yr uchod, a'r holl sylwadau a dderbyniwyd, cyflwynir yr opsiynau a ganlyn. *Dylid nodi bod adnew yddu yn golygu gw ell a'r adeilad i safon ysgolion yr unfed ganrif ar hugain.*

*Opsiwn 1*
Adnewyddu ac ymestyn Ysgol Llandegfan, cau Ysgol Biwmares ac adnewyddu Ysgol Llangoed.
*Opsiwn 2*
Adnewyddu ac ymestyn Ysgol Llandegfan, cau Ysgol Llangoed ac adnewyddu Ysgol Biwmares.

**Gofynnir i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol gyflwyno sylwadau ynghylch yr opsiwn a ffefrir sef**
***Opsiwn 1* - Adnewyddu ac ymestyn Ysgol Llandegfan, cau Ysgol Biwmares ac adnewyddu Ysgol Llangoed**
**neu**
***Opsiwn 2* - Adnewyddu ac ymestyn Ysgol Llandegfan, cau Ysgol Llangoed ac adnewyddu Ysgol Biwmares.**

**14.**


**ADBORTH AR LEIN**

**Ymgynghoriad Statudol ar gynnig ar gyfer y ddarpariaeth addysg gynradd yn ardal Seiriol**

Yn ychwanegol i'r adroddiad ar yr ymgynghoriad roedd cyfle i'r rhanddeiliaid gyfrannu at arolwg electroneg trwy wefan Cyngor Sir Ynys Môn .Cyflwynir isod grynodeb o'r arolwg. Rydym yn ddiolchgar i'r 86 o bobl a gymerodd rhan yn yr arolwg gyda chynrychiolaeth o'r tair ysgol dan sylw.


**Mae ymateb yr Awdurdod i nifer o'r pwyntiau sy'n cael eu codi yn yr arolwg ar lein wedi eu cynnwys yn rhan 9 o'r adroddiad.**

**Holwyd y rhanddeiliaid: Ydych chi'n cytuno gyda'r rhesymau dros newid?**




Roedd 60.34% yn cytuno.

**Ydych chi'n cytuno gyda'r cynnig?**




Roedd ychydig dros hanner y rhai atebodd yn cytuno gyda'r cynnig.

**A oes gennych gynigion eraill?**

| |
|---|
| Cadw Ysgol Biwmares / Biwmares yna agored gan ei fod gyda digon o botensial a digon o le i blant ysgol arall yno. |
| Cytunaf â'r pedwar opsiwn amgen a gynigir gan lywodraethwyr ysgol a phwyllgor ymateb y Biwmares |
| Credaf y dylai holl drefi Ynys Môn gael ysgol. Efallai nad yw'r ysgol ym Miwmares yn llawn gyda disgyblion ar hyn o bryd ond nid yw hynny'n golygu y bydd fel hyn bob amser. Rwy'n teimlo bod angen i Biwmares barhau i fod yn lle deniadol i deuluoedd ifanc fyw ynddi. Mae'n bwysig bod plant yn cael lle sefydlog a diogel i gael eu haddysg heb yr angen i deithio i ffwrdd o'u cartref. Efallai y bydd angen gwario arian ar yr ysgol bresennol ond mae hyn yn llai na chostau cyfunedig moderneiddio'r ddwy ysgol arall sef Llangoed a Llandegfan.<br>Os bydd tai fforddiadwy yn cael eu hadeiladu yna gall mwy o deuluoedd symud i mewn. Mae'r hen gyfleuster gofal dydd ger yr ysgol yn cael ei esgeuluso pan ellid ei addasu ar i'w defnyddio ac nid wyf yn credu y byddai'r ardal ar allt mynydd serth yn addas ar gyfer pobl hŷn.<br>Mae cael ysgol mewn cymuned yn dod â bywyd iddo ac efallai y gellid defnyddio'r ysgol gyda'r nos ar gyfer gweithgareddau cymunedol a allai ddod ag incwm i helpu i redeg yr ysgol.<br>Rwy'n credu bod yna lawer o resymau cymhellol i gadw'r ysgol a'r disgyblion presennol ac i weithio allan datrysiad ateb a fydd yn cadw Biwmares fel cymuned gytbwys o bob oed. Ar ôl ei cholli, ni ellir adfer y cyfleuster hwn ac rwy'n teimlo'n gryf iawn y dylai'r ysgol barhau. Yn ychwanegol i hynny - mae'r adeilad yn eiconig o'i hoedran ac mae angen ei gadw |

| |
|---|
| Mae Biwmares yn un o 5 tref ar Ynys Môn ac mae'n druenus i ysgol beidio gael tref. Caewch ysgol Llangoed a symudwch y plant i Fiwmares. Neu hyd yn oed hefyd cau Ysgol Llandegfan ac anfon plant i Fiwmares. |
| Gwnewch ysgol Biwmares yn llawer llai, ar yr un safle.<br>Cadwch Llangoed fel y mae gyda dewis i ehangu.<br>Gadewch Llandegfan fel y mae.<br>Os oes angen, rhowch un pennaeth dros Llangoed a Biwmares |
| Mae'n bwysig cadw ysgol Biwmares ar agor. Mae'n chwarae rhan fawr yn y dref a byddai ei chau yn atal unrhyw deuluoedd rhag symud i'r dref yn y dyfodol. Byddai hyn yn golygu bod Biwmares yn dref gyda phoblogaeth sy'n heneiddio a chartrefi gwyliau. Mae angen ystod o grwpiau oedran ar bob tref i'w galluogi i ffynnu. Mae digon o le yn Llangoed a Llandegfan i fynd â'r Plant o Fiwmares heb eu hymestyn a fyddai'n gofyn am fuddsoddiad. Mae ysgol Llandegfan mewn ardal adeiledig prysur heb unrhyw le parcio ac ychydig o le i ehangu, mae hefyd ar 2 lawr sydd ddim yn ddelfrydol i unrhyw un ag anableddau.<br><br>Mae angen mawr ar fwy o gartrefi ar gyfer pobl ifanc a theuluoedd, mae digon o le i adeiladu rhywfaint o dai ar y safle lle mae'r ganolfan ddydd ac yn rhan o dir yr ysgol, ar hyn o bryd mae'r tir yn llawer mwy nag ysgolion eraill a llawer o hyn yn cael ei ddefnyddio gan y plant. Byddai unrhyw gynnydd mewn tai yn cynyddu nifer y plant yn yr ysgol.<br><br>Dylid edrych ar y posibilrwydd o ymestyn y stâd yn y Llanfaes, p'un a yw'r maes gyferbyn â hen safle Lairds (hen faes pêl-droed) yn cael ei brynu a'i ddefnyddio ar gyfer tai, neu / a'r tir y tu ôl i'r ganolfan hamdden a fyddai eto'n cynyddu nifer y plant sydd angen lleoedd ysgol.<br><br>Gellid adolygu'r sefyllfa ymhen ychydig flynyddoedd. |
| Dylid cadw'r ysgol ar y safle, o bosib ei lleihau am rwan, ond mae lle ar ôl yn yr adeilad rhag ofn bod nifer y disgyblion yn codi.<br><br>Mae llywodraethwyr yr ysgol wedi cynhyrchu 4 opsiwn arall ynglŷn â'r ysgol lle gellid mabwysiadu 1 neu bob un ohonynt neu dim ond rhai o'u cynigion er mwyn sicrhau bod yr ysgol yn parhau i weithredu a gall ddod yn gynnig hynod hyfyw.<br><br>Mae angen i CSYM archwilio'r 4 opsiwn arall yn drylwyr a'u sgorio yn erbyn eu cynigion eu hunain.<br><br>Mae Cyngor Tref Biwmares yn cefnogi pob ymdrech llywodraethwyr yr ysgol, a'u cynigion yn llawn. |
| Cau ysgol Llangoed a dod a disgyblion o Fiwmares yno. |
| Cadwch yr ysgol [Biwmares] ar agor, efallai fel un llai. |
| Adeiladu tai dan warchod yn Llangoed a thai cymdeithasol wrth ochr yr ysgol ym Miwmares,  fel hyn byddwn yn cadw'r ysgol yn agored. |

| |
|---|
| Datblygu safle Haulfre ar gyfer yr henoed, a cadw safle'r ysgol ar gyfer plant, pam na allwn ni gael ysgol seriol mwy (super school) fel ardaloedd eraill yr ynys? |
| Cau ysgol Llangoed a symudwch y plant i Ysgol Biwmares sydd wedi ei gwneud yn fwy. |
| Cau Ysgol Llangoed a moderneiddio Ysgol Biwmares o dan yr enw YSGOL BRO SEIRIOL |
| Cau Llangoed a gwnewch y newidiadau angenrheidiol i Biwmares a galwch hi'n YSGOL BRO SEIRIOL |
| Cau Ysgolion Biwmares, Llangoed a Llandegfan ac o bosibl ysgol Pentraeth ac adeiladu Ysgol fwy sy'n newydd yn ardal Llansadwrn. Mae wardiau eraill yn cael Ysgol fwy (superschool) pam ddim Seiriol. |
| Ie, byddwn yn cynnig bod Ysgol Gynradd Beaumaris yn aros yn agored ac dylid cau Ysgol Llangoed. Byddai hyn yn cyflawni nodau Llywodraeth Cynulliad Cymru sef lleihau nifer y lleoedd dros ben yn ardal Seiriol.<br>Mae nifer y disgyblion yn YGB ar gynnydd tra rhagwelir y bydd y niferoedd yn Ysgol Llangoed yn gostwng dros y 4 blynedd nesaf. Erbyn 2022 rhagamcenir bydd mwy o ddisgyblion yn YGB nag Ysgol Llangoed.<br>Mae lle yn YGB ar gyfer 143 o ddisgyblion a thrwy symud disgyblion o Ysgol Llangoed i YGB bydd yn golygu y bydd nifer y lleoedd dros ben tua 10% ac yn cwrdd â thargedau LlCC. Gellid trosglwyddo unrhyw staff dros ben i YGB.<br>Ni fydd angen gwario ar estyniadau yn Ysgol Llandegfan ac Ysgol Llangoed o dan y cynnig hwn. |
| Opsiynau amgen A, B, C, D fel amlinellwyd yn ymateb Bwrdd Llywodraethu Ysgol Beaumaris |
| Rwy'n cefnogi'r penderfyniad yn gryf i beidio â rhoi ystyriaeth bellach i gau Ysgol Llangoed. Mae hwn yn wasanaeth hanfodol i'r gymuned leol ac roedd gennyf bryderon sylweddol ynghylch y cynigion yn yr ymgynghoriad anffurfiol cynharach.<br><br>Fel Llywodraethwr Ysgol Llangoed, edrychaf ymlaen at weithio gyda'r Cyngor, ochr yn ochr â rhieni eraill, athrawon a disgyblion Ysgol Llangoed i sicrhau ein bod yn lleihau'r aflonyddwch ac yn manteisio i'r eithaf ar y cyfle posibl i wella'r cyfleusterau a darparu addysg yn Llangoed er lles y gymuned ehangach, a phlant yn arbennig, yn yr ardal hon. |
| Ymunwch y 3 ysgol, gan gynnwys Porthaethwy, Llanfair PG ac efallai Pentraeth.<br><br>Adeiladu ysgol fawr newydd (superschool) ar y tir ger Ysgol David Hughes ar y ffordd uchaf o Borthaethwy i Lanfair PG.<br><br>Gallai'r ysgol ddefnyddio'r cyfleusterau yn y ganolfan hamdden a bwydo'r ysgol uwchradd. Dylid cael diwrnodau pontio a hyd yn oed dyddiau cydweithio gyda'r staff a'r disgyblion. Bydd hyn yn helpu i gefnogi'r plant yn ystod y cyfnod pontio anodd o'r cynradd i'r uwchradd.<br><br>Gall fod yn gostus i ddechrau. Ond bydd yr arbedion yn y tymor hir yn fuddiol. 1 taliad |

| |
|---|
| treth cyngor y flwyddyn yn hytrach na 6! Cyfunwch yr holl adnoddau yn yr ysgolion. Cydweithio addysgu a dysgu. Bydd gan y plant gyfleoedd gwell i gael eu cynnwys mewn gemau tîm ac i ffynnu'n gystadleuol. |
| Mae Ysgol Llandegfan yn ysgol llwyddiannus iawn. Mae’r ysgol yn llawn, gyda ceisiadau dal i ddod. Mae’r ysgol yn rhan bwysig o’r gymuned leol. Gyda llawer o gymdogion yn dod i wirfoddoli yn yr ysgol. Mae’r disgyblion hefyd yn bwydo i’r gymuned. Mae angen sefydliad Gymraeg cadarn yn Llandegfan, mae’r ysgol yn sicrhau hyn. |
| Cadwch gymaint â phosibl yn Llangoed gan ein bod wedi colli cymaint |
| Na |
| Mae'n gwneud llawer mwy o synnwyr i uwchraddio a pharhau i ddefnyddio Ysgol Llandegfan ar ôl darllen eich holl ddata ar gostau a pherfformiad. O safbwynt ymarferoldeb, mae gan Ysgol Llandegfan ddigon o le i ymestyn ymlaen a / neu fod â rhai dosbarthiadau wedi'u hadeiladu'n allanol i adeilad yr ysgol.<br><br>Blynyddoedd yn ôl, roedd gan y clwb ar ôl ysgol a'r clwb gwyliau ei gaban ei hun ar ochr yr ysgol ac roedd yna ddau ddosbarth ynghyd â thoiledau wrth ymyl y clwb ar ôl ysgol. Roedd angen atgyweirio helaeth ar y rhain, felly y rheswm pam nad ydynt bellach yn bodoli yno. Fodd bynnag, gan edrych ar y gost sydd ei angen i uwchraddio Ysgol Biwmares ac Ysgol Llangoed byddai'n opsiwn llawer rhatach i'w asesu.<br><br>Cyn belled ag y gwn, Ysgol Llandegfan yw'r unig ysgol allan o'r 3 ysgol sydd â chlwb ar ôl ysgol a chlwb gwyliau sydd wedi'i gofrestru ag AGGCC. Mae'r clwb yn llawn y rhan fwyaf o'r amser sy'n dangos pa mor hanfodol yw hi i'r rhieni yn yr ysgol.<br><br>Ar hyn o bryd mae'r clwb ar ôl ysgol yn rhannu ystafell gyda'r cylch chwarae a'r Ysgol Feithrin. Pe bai ardal ar wahân wedi'i adeiladu ar gyfer y 3 grŵp hyn, byddai'n rhyddhau'r ystafell y maent yn ei ddefnyddio ar hyn o bryd yn yr ysgol. Byddai hyn yn galluogi'r ysgol i ddefnyddio'r ystafell ychwanegol, gan olygu y byddent yn cael ystafell ddosbarth ychwanegol ar gyfer plant Ysgol Biwmares.<br><br>Mae'r ystafell clwb ar ôl ysgol / cylch chwarae / Cylch Meithrin ar yr un lefel â'r dosbarth derbyn a dosbarth blwyddyn 1 ar hyn o bryd. Pe bai'r ystafell hon ar gael i'r ysgol, byddwn yn tybio y gallai blwyddyn 2 efallai ei gymryd yn golygu y byddai'r cyfnod sylfaen cyfan ar un lefel.<br><br>Byddai hyn yn sicr yn fwy effeithiol ar gyfer y cyfnod sylfaen cyfan i fod ar yr un lefel gan ddefnyddio ystafelloedd dosbarth a adeiladwyd yn bwrpasol ar gyfer eu plant yn ogystal â gallu rhannu'r ardaloedd awyr agored.<br><br>Felly, fy nghynnig personol yw gwario rhywfaint o arian i adeiladu rhywle ar dir yr ysgol i ddarparu ar gyfer y 3 grŵp i ryddhau'r ystafell y maent yn ei ddefnyddio ar hyn o bryd sydd wedi'i lleoli yn ardal cyfnod sylfaen yr ysgol. |
| Na, cadwch Ysgol Llandegfan! |

| |
|---|
| Rwyf wedi bod yn ddisgybl yn Ysgol Llandegfan ac ni allaf ddiolch digon i'r ysgol am eu hymroddiad i'w disgyblion. |
| Ymestyn Ysgol Llandegfan gan ei bid hi o bell ffordd yr opsiwn gorau ac yn agosach i'r tir mawr ar gyfer mwyafrif y rhieni sy'n gweithio. |
| Cadwch Llandegfan ar agor a trosglwyddo'r plant o Biwmares i Landegfan. |
| Mae Llandegfan yn ysgol ffyniannus lle mae plant yn dod o bob cwr o Ynys Môn.<br>Rwy'n warchodwr plant yn Llandegfan a byddwn yn hoffi gweld mwy o blant yn yr ardal.<br>Mae Llandegfan bob amser wedi cael enw da anhygoel. Roeddwn hefyd yn ddisgybl yno 26 mlynedd yn ôl ac yn dal i fod yn breswylydd. |
| Ymestyn a moderneiddio Ysgol Llandegfan.<br>Gwnewch Llandegfan yn ysgol 3-11.<br>Agorwch feithrinfa dan arweiniad ysgol yn Llandegfan. |
| Gadael Llandegfan ar ei phen ei hun, mae'r iaith Gymraeg yn bwysig iawn ac mae'n galon i'n cymuned. |
| Rwy'n teimlo ei bod yn bwysig cadw Ysgol Llandegfan ar agor gan ei fod yn ysgol dda sy'n perfformio'n dda. Mae gennym gymuned wych yn Llandegfan a byddai cau ein hysgol yn golled fawr i bawb.<br>Mae cyfran uchel o'n disgyblion pentref ac ysgol yn siarad Cymraeg sy'n cael ei annog yn Ysgol Llandegfan. |
| Mae'r plant o ysgol Biwmares yn cael eu lle yn Llangoed ac mae gan bob ysgol strwythur rheoli ar wahân. Angen gwneud lwfans ar gyfer adnewyddu Llandegfan a Llangoed. |
| Gwneud lwfans ar gyfer adnewyddu Llandegfan a llangoed |

**A oes unrhyw faterion eraill yr hoffech dynnu eich sylw atynt?**

| |
|---|
| Rwy'n wir yn teimlo nad yw Cyngor Sir Ynys Môn yn gwrando ar rieni Ysgol Biwmares. Pam cau'r ysgol hon er mwyn i'r tir gael ei ddefnyddio ar gyfer yr henoed? Mae gennym ddigon o gartrefi eisoes ar eu cyfer mewn 3 lleoliad gwahanol. Bydd y dref hon yn dod yn dref anghyfannedd yn unig, oherwydd heb ysgol ni fydd yn denu unrhyw bobl ifanc ac mae gennym gormod o gartrefi gwyliau yn yr ardal hon fel y gwyddoch pan fyddwch yn casglu'ch treth y pen! Mae angen ailfeddwl |
| Ni ystyriwyd astudiaeth cylch bywyd llawn o'r ysgol. |
| Pam nad oes "Ysgol fwy" ("Super School") yn cael ei hadeiladu yn Ward Seiriol. Mewn Wardiau eraill (Caergybi, Llanfaethlu a Niwbwrch) mae ysgolion llai wedi'u cau ac adeiladwyd ysgol fodern newydd. Pam mae Seiriol yn cael ei thrin yn wahanol? |
| Mae'r ysgol ym Miwmares yn hen ac mae'r nifer o blant yn gostwng am reswm. Mae prisiau tai yn rhy uchel i deuluoedd ifanc ac mae Biwmares bellach yn dref ymddeol. Dylem groesawu hyn yn lle herio'r anochel. |

| |
|---|
| Dylai tref maint Biwmares gael ysgol gynradd, oni bai eich bod am iddi fod yn faes chwarae i'r cyfoethog a / neu yn dref ymddeol. Ni fyddai cael ysgol yno yn golygu bod yn rhaid i deuluoedd ifanc symud neu yrru eu plant i lefydd eraill, sy'n gwneud dim synnwyr. |
| Mae parcio ym Miwmares yn ddifrifol ac mae angen gwneud rhywbeth ar stryd Wrecsam hyd at yr ysgol. Mae angen i drigolion allu parcio ond mae ymwelwyr yn parcio ar allt goch / stryd Wrecsam er mwyn osgoi talu am barcio ac yn achosi problemau, nid yw hyn yn gadael mannau tynnu fewn ar gyfer traffig sy'n dod i fyny ac i lawr yr allt ac mae angen bylchau lle mae parcio wedi'i gyfyngu fel bod mannau tynnu fewn ar gyfer pasio ceir / bysiau basio, gellir ei ddatrys yn hawdd gydag ychydig fetrau o linellau melyn dwbl ar ben stryd Wrecsam yn union ar ôl y tŷ olaf, byddai hyn yn dal i roi parcio i drigolion. |
| Rhagwelir bydd niferoedd disgyblion yn cynyddu yn y 4 blynedd nesaf.<br>Mae staff rheoli ac hierarchaeth Wylfa yn dueddol o ymgartrefu yn ardal Seiriol o Ynys Môn a gyda Wylfa Newydd ar ddod, dylai niferoedd disgyblion godi'n gyflym. |
| Ydw ... yn bersonol mae'n ofnadwy eich bod yn gallu hyd yn oed meddwl am gau'r ysgol pan fo'r dref eisoes yn cynnwys poblogaeth sy'n heneiddio. Byddwch yn llofnodi'r warant marwolaeth ar gyfer ein tref hefyd yn anhygoel i gael tref heb ysgol !! |
| Mae angen ysgol ar bob tref |
| Na fyddwch byth yn gwrando, rydych chi'n honni bod gennych ymgynghoriad i wrando ar yr hyn y mae pobl ei eisiau, ond rydych yn parhau heb ystyried barn y cyhoedd |
| Mae niferoedd disgyblion Biwmares yn cynyddu. Mae niferoedd disgyblion Llangoed yn lleihau. |
| Nid yw'r system sgorio a ddefnyddir wedi bod yn deg ac mae'r ffigyrau a gynhyrchir gan CSYM am gost cynnal a chadw wedi'i amcangyfrif yn anghywir ac nid yw'n ffeithiol |
| Mae diffygion yn yr ymgynghoriad hwn.<br>Rwy'n siomedig iawn gydag agwedd ychydig o bobl a ymwelodd â'r ysgol ar gyfer yr ymgynghoriad<br>Teimlaf eich bod yn anghwrtais ac yn bychanu nifer o'r gymuned |
| Edrychwch i adeiladu mwy o Dai Cymdeithasol yn ardal Biwmares. Mae'n bosib bod tir sbâr ger Ysgol Biwmares |
| Mae 170 o Drefi yng Nghymru, pump ohonynt ar Ynys Môn. Pe byddai Ysgol Gynradd Beaumaris yn cau, mae'n debyg mai dyma'r unig Dref yng Nghymru i beidio â chael ysgol. Mae addysg wedi bod yn y dref ers dros 400 mlynedd.<br>Targed Llywodraeth Cymru i gael 1 miliwn o bobl yn siarad Cymraeg 2050. Ni fydd cau'r ysgol yn denu pobl ifanc i'r Dref neu'r ardal. Gallai poblogaeth Biwmares mewn 150 mlynedd leihau fel canlyniad a dim ond ychydig iawn o ddefnydd o'r Gymraeg. Mae tebygolrwydd y bydd Wylfa Newydd yn denu gweithwyr i ardal Seiriol a fydd yn cynyddu'r boblogaeth.<br>Byddai'n annhebygol y byddai rhieni yn anfon eu plant i Ysgol Llangoed pe byddai YGB yn cau. Mae hyn oherwydd bod Llangoed i'r cyfeiriad arall.<br>Mae gan Biwmares yr holl gyfleusterau sy'n gysylltiedig ag addysg, gan gynnwys y Carchar, y Castell, yr Eglwys, y Pier a'r llys. |

| |
|---|
| Mae arolygon diweddar yn dangos mai dim ond 5% sydd eisiau i'r ysgol gau.<br>Gallai cau YGB arwain at rieni sy'n dewis anfon eu plant i ysgolion yng Ngwynedd oherwydd bod  Porthaethwy dros ei chapasiti. |
| Mae opsiwn dewisol y Cyngor mewn gwirionedd yn ddrutach na nifer o opsiynau eraill, yn fwyaf nodedig yr opsiwn i leihau maint Ysgol Biwmares, a fyddai'n agor y drws i symud ymlaen efo gwahanol ffyrdd arloesol.<br><br>Mae'r nifer uchel o lefydd gweigion ym Miwmares yn cael ei esbonio'n bennaf gan resymau demograffig: nifer uchel o bobl hŷn a llawer o gartrefi gwyliau (a nifer o deuluoedd sy'n siarad Saesneg sy'n hoffi anfon eu plant i ysgolion preifat Saesneg). Dylai'r ffaith bod nifer y disgyblion yn yr ysgol yn anhyfyw ganu clychau larwm am yr heriau demograffig i dref Biwmares. Yn syml, ni fydd diffodd y larwm trwy gau'r ysgol yn mynd i'r afael â'r rhain o gwbl. Mae angen i Biwmares fod yn llawer mwy deniadol i deuluoedd ifanc, a dim ond drwy gellir trwy gynyddu tai fforddiadwy a gwella darpariaeth gofal plant gellir gwneud hyn. Mae'r ysgol eisoes wedi gwella ei gynnig gofal plant, ac yn awr gall rhieni anfon eu plant yno o 8.00am i 5.30pm. Bydd hyn yn helpu i ddenu rhieni pellach i anfon eu plant i'r ysgol, ond mae effaith ystyriaethau mor bwysig yn cymryd amser i drosi i niferoedd disgyblion. Fodd bynnag, rhagamcaniadau'r Cyngor ei hun yw y bydd niferoedd Biwmares yn cynyddu, tra byddant yn mynd i lawr yn Llangoed. Erbyn i'r amser rhagwelir bydd y newidiadau’n digwydd, bydd Biwmares ar fin goddiweddyd Llangoed o ran nifer y disgyblion, sy'n golygu y byddai'r Cyngor yn ymestyn yr ysgol sydd yn llai o ran ei phoblogaeth a'i maint disgyblion. Nid yw hyn yn gwneud unrhyw synnwyr, yn enwedig gan fod Llangoed allan o'r ffordd i'r rhan fwyaf o rieni Ysgol Biwmares.<br><br>Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn adolygu pa ysgolion ddylai gael eu hamddiffyn fel ysgolion gwledig. Mae’n peri pryder mawr fod y Cyngor hyd yn oed yn ystyried symud ymlaen â'i Rhaglen Moderneiddio Ysgolion ei hun heb aros am y canlyniadau a goblygiadau’r ymgynghoriad.<br><br>Ar hyn o bryd yr ysgol yw’r unig sefydliad cymunedol ym Miwmares, sy'n cyfrannu at ddatblygiad diwylliant Cymreig a dysgu’r iaith Gymraeg - ac mae'n gwneud hynny gyda ymroddiad a chanlyniadau ardderchog. Mae fy mab pedair blwydd oed yn falch iawn o siarad Cymraeg er nad yw ei rieni. Mae uchelgais Llywodraeth Cymru i gynyddu nifer o siaradwyr Cymraeg yn cael ei danseilio'n ddifrifol pan fydd awdurdodau lleol yn gwneud penderfyniadau fel hyn, heb ystyried sut y gallent effeithio ar ddiwylliant Gymreig mewn cymunedau lleol.<br><br>Ar y nodyn hwn, mae'n syfrdanol nad yw'r Cyngor wedi gwneud dim i ddeall yn llawn effaith posib gweithredu’r opsiwn dewisol ar y gymuned. Mae'n gywilyddus i roi cynnig yn ffurfiol, sydd wedi ei feirniadu droeon ar y sail y byddai’n dinistrio dyfodol y dref - yn lle ceisio gwella'r hawliadau hyn yn well neu eu cymryd o ddifri. Mae Arolwg Effaith Gymunedol a luniwyd gan y pwyllgor ymateb i'r ymgynghoriad yn amlygu'r pryder mawr dros sefyllfa bresennol y dref a'i ddyfodol pe bai'r penderfyniad yn cael ei gadarnhau gan y Cyngor. |

| |
|---|
| Rwy’n cwestiynu fformat y cwestiynau uchod gan fy mod yn deall y rhesymau dros i'r cyngor adolygu'r ddarpariaeth ysgolion cynradd yn yr ardal, ni allaf gytuno'n llwyr a chefnogi cau'r ysgol ym Miwmares.<br><br>Rwyf wedi fy nhristau’n fawr gan y posibilrwydd o golli ysgol ym Miwmares a'r effeithiau a gaiff ar y dref hon. Nid wyf yn deall pam nad yw'n bosibl edrych ar ddarparu ar gyfer ysgol lai yn y dref a fyddai'n mynd i'r afael â'r mater clir o leoedd dros ben yn yr ysgol.<br><br>Wedi dweud hyn, rwy'n gwybod bod nifer o blant yn nalgylch Biwmares eisoes yn dewis mynychu Ysgol Llangoed ac rwy'n hyderus y gall yr ysgol groesawu myfyrwyr pellach yn y dyfodol. |
| Mae angen i’r cartref hen bobl aros |
| Hoffwn ymateb i'r ymgynghoriad statudol fel aelod o staff sy’n gweithio yn Ysgol Llandegfan. Hoffwn rannu fy mod i'n credu yn gryf y dylai ysgol aros yn Llandegfan.<br>Mae'r ysgol wedi ei rheoli'n dda ac mae mewn iechyd ariannol da. Rydym wedi gweithio'n hynod o galed i gadw safonau'n uchel ac yn ceisio cynnig profiadau eang i'r pant. Mae'r ysgol yn cynnal diwylliant cefnogol a chroesawgar ac ethos cryf o welliant parhaus.<br>Mae niferoedd yr ysgol yn cynyddu gyda dros 150 o ddisgyblion erbyn hyn. Mae gan yr ysgol enw da ac mae ceisiadau'n cael eu gwneud yn gyson, sy'n dangos bod cefnogaeth yn gryf i'r ysgol.<br><br>Hoffwn rannu fy mod i hefyd o'r farn bod angen pennaeth amser llawn ar yr ysgol ac nid yw yn credu mai ffederaleiddio yw'r ffordd ymlaen.<br><br>Rwy'n credu buasai croeso mawr i raglen foderneiddio i ddod ag Ysgol Llandegfan i safon ysgol yr 21ain ganrif. Mae tir yr ysgol a'r adeilad yn cynnig potensial ar gyfer ailfodelu neu estyniad. |
| Na |
| Rwy'n credu'n llwyr fod Ysgol Llandegfan yn parhau i dderbyn llai o ymatebion i'ch ymgynghoriadau yn syml oherwydd bod y rhieni ar edrych ar eich ffeithiau a'ch data, ac yn syml, yn tybio bod Ysgol Llandegfan yn mynd i fod yn ddiogel.<br><br>Mae Ysgol Llandegfan yn ysgol hynod o dda ac rwy'n gobeithio'n wir nad yw'r diffyg ymatebion yn adlewyrchu'n negyddol ar yr ysgol. |
| Nid yw’n gwneud synnwyr i gael gwared ar Ysgol Llandegfan pan fydd eich holl ddata yn dangos mai hi yw'r ysgol orau o bell ffordd |
| Ysgol Llandegfan yw calon y gymuned hon ac mae'n rhaid iddi aros |
| Mae'r 3 o fy meibion i gyd wedi mynychu Ysgol Llandegfan ac ni allant ganmol yr ysgol yn ddigon. |
| Mae Llandegfan yn ysgol wych, mae staff yn cael eu parchu ac mae'r plant yn mwynhau mynd i'r ysgol. Fel preswylydd yn Llandegfan ni fyddwn yn mynd â'm plentyn i ysgol Biwmares |

| |
|---|
| Mae angen diweddaru ysgol Llandegfan a dod a hi fyny i safonau'r 21ain ganrif a hefyd i ddarparu lle ar gyfer plant o Ysgol Biwmares. Gall parcio fod yn broblem ac mae angen edrych arno fel y mae'r ffyrdd i ac o Landegfan er mwyn ymdopi gyda mwy o draffig. |
| Dylai fod gan Ysgol Llandegfan brifathro llawn amser.<br>Yn enwedig os bydd yr ysgol yn cael ei ymestyn a mwy o ddisgyblion yn mynychu.<br>Dim ffederaleiddio os gwelwch yn dda.<br>Yn sicr yn cytuno y dylai Ysgol Llandegfan aros ym mhentref Llandegfan.<br>Ni fydd rhieni'n teithio i ffwrdd o Ynys Mōn tuag at Beaumaris / Llangoed.<br>Byddant yn mynd â'u plant tuag at Borthaethwy / Llanfairpwll a thros y bont i Fangor.<br>Byddai hyn wedyn yn achosi problem i ysgolion eraill yn yr ardal. |
| Efallai y bydd angen moderneiddio Ysgol Llandegfan ond nid wyf yn teimlo y byddai angen llawer o waith. Byddai'n sylweddol llai nag adeiladu ysgol fawr (super school) |
| Ysgol Llandegfan yw calon y gymuned ac yn ased gwych a dylai hyn barhau. Mae'n hanfodol i'r Gymraeg fod yr ysgol yn parhau i addysgu'r plant trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r ysgol yn boblogaidd iawn oherwydd mai Cymraeg yw'r iaith y buarth.<br>Dylid moderneiddio Llandegfan i ddod ag ef yn unol ag ysgolion yr 21ain ganrif. Os byddai disgyblion ychwanegol yn mynychu, byddai'n rhaid ymestyn yn amlwg, i ddarparu ar gyfer y plant hyn. |
| Yr angen i gynnal ysgol gymunedol yn Llandegfan. Heb ysgol yn ei galon, gan weithredu fel ffocws byddai'r pentref yn dioddef. Nid oes ganddi'r un adnoddau â Beaumaris gyda'i chastell, bwytai, clwb hwylio a chanolfan gymunedol. |
| Mae ysgol Llandegfan yn bwysig iawn, mae'n galon i'n cymuned ac mae'n hanfodol i'r Gymraeg. Dylid moderneiddio ysgol Llandegfan yn unol â'r 21ain ganrif. |

Atodiad 2

CYNGOR SIR YNYS MÔN
*ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL*

ADRAN DYSGU GYDOL OES
*LIFELONG LEARNING DEPARTMENT*

## CYNLLUN MODERNEIDDIO YSGOLION CYNRADD ARDAL SEIRIOL

# ASESIADAU EFFAITH

| | |
|---|---|
| **Dyddiad yr asesiad** | Fersiwn 1 – Tachwedd 2017<br><br>Fersiwn 2- Mawrth 2018<br><br>Fersiwn 3 – Mai 2018 |
| **Y Swyddog sydd â chyfrifoldeb am yr Asesiad** | Arwyn Williams |
| **Dyddiad Adolygu** | Medi 2018. Mae'r ddogfen yma yn un weithredol felly bydd adolygiad parhaus ohoni. |

**Cynnwys**

1. **Cyflwyniad**

2. **Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol**

3. **Asesiad Effaith Cydraddoldeb**
   **3.a Yr Asesiad Effaith**

4. **Asesiad Effaith Ieithyddol**
   **4.a Defnyddio'r Gymraeg yn yr Ysgol**

5. **Asesiad Cymunedol**

   **5.a Lleoliad yr ysgolion**

   **5.b Niferoedd yn yr ysgolion**

   **5.c Ffactorau Teithio a Daearyddol**

   **5.d Ymateb Cymunedol**

   **5.e. Mwy o wybodaeth am yr ysgolion**

**Atodiad 1**
**Cofnod o sylwadau a gynigwyd mewn ymgynghoriadau blaenorol ac ymatebion Cyngor sir Ynys Môn iddynt**

## 1. CYFLWYNIAD

Mae Cyngor Sir Ynys Mon wedi cynnal ymgynghoriad statudol ar ddyfodol darpariaeth ysgolion cynradd yn ardal Seiriol. Yr ysgolion cynradd sy'n rhan o'r broses ymgynghori dan sylw yw Ysgol Beaumaris, Ysgol Llangoed ac Ysgol Llandegfan.

Mae Cod Trefniadaeth Ysgolion (2013) Llywodraeth Cymru yn gofyn i Awdurdodau Lleol pan maent yn ymgynghori ar gynigion sy'n effeithio ar ein hysgolion, gynnal asesiadau effaith ar y gymuned, cydraddoldeb a'r Gymraeg, gan roddi sylw i'r effaith ar bob ysgol sy'n rhan o'r cynnig i newid a phawb arall y mae'r cynnig yn debygol o effeithio arnynt.

Mae gan Gyngor Sir Ynys Môn bolisi rhanbarthol ar gyfer ymgysylltu â dinasyddion (Isle of Anglesey County Council *et al.*, 2016). Mae'r polisi yn seiliedig ar yr egwyddorion cenedlaethol ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd yng Nghymru. Mae cynllun ymgynghori Moderneiddio Ysgolion yn cynnwys cyfarfodydd ymgynghori, cyhoeddi'r ddogfen ar wefan Cyngor Sir Ynys Môn a rhoi cyfle i randdeiliaid anfon eu sylwadau i sylw'r swyddogion perthnasol. Cysylltwyd yn ogystal â grwpiau penodol yn unol â rhestr rhanddeiliaid sydd wedi ei gynnwys yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion (2013).

Aeth swyddogion Dysgu yr Awdurdod allan i ymgynghori'n statudol rhwng 20fed Dachwedd 2017 a 6ed Chwefror, 2018 ac roedd ymgynghoriad ar wahân yn cael ei gynnal gyda phlant yr ysgolion yn ystod yr un cyfnod.

Y cynnig dan sylw oedd:

- Cau Ysgol Beaumaris ac i rieni'r disgyblion sydd ar y gofrestr adeg pan fydd y Pwyllgor Gwaith yn gwneud y penderfyniad, i ddatgan eu dewisiad am naill Ysgol Llandegfan neu Ysgol Llangoed, yn unol â'r polisi mynediad ysgolion,
- Adolygu dalgylchoedd presennol y tair ysgol gyda'r bwriad o weithredu unrhyw newidiadau pan fydd Ysgol Beaumaris yn cau; ac
- Adnewyddu Ysgol Llandegfan a Llangoed; ac
- Ystyried ffedereiddio Ysgol Llangoed ac Ysgol Llandegfan ar ddiwedd y broses hon.

Bu i'r Pwyllgor Gwaith ar 26ain Fawrth 2018 benderfynu gohirio gwneud penderfyniad ynghylch moderneiddio ysgolion yn ardal Seiriol fel y gellid cynnal ymgynghoriad statudol newydd ar y cynigion ar gyfer addysg gynradd yn yr ardal. Bydd y cyfnod ymgynghori yn digwydd rhwng y 22ain o Fai a'r 2il o Gorffennaf 2018. Cyflwynir yr opsiynau isod:

*Opsiwn 1*

Adnewyddu ac ymestyn Ysgol Llandegfan, cau Ysgol Beaumaris ac adnewyddu Ysgol Llangoed.

*Opsiwn 2*

Adnewyddu ac ymestyn Ysgol Llandegfan, cau Ysgol Llangoed ac adnewyddu Ysgol Beaumaris.

Yn amodol ar ddewis *opsiwn 1* neu *2*,

- Creu un ysgol ar ddau safle trwy uno Ysgol Llandegfan gyda'r ysgol newydd ar gyfer Biwmares/Llangoed.
- Adolygu dalgylchoedd presennol y tair ysgol gyda'r bwriad o weithredu unrhyw newidiadau pan fydd un ysgol yn cau.
- Yn sgîl pryderon ynghylch niferoedd disgyblion yn ysgolion Biwmares a Llangoed rhoi ystyriaeth i ddileu'r cynnig a nodwyd yn yr adroddiad blaenorol i rieni'r disgyblion sydd ar y gofrestr ar yr adeg pan fydd y Pwyllgor Gwaith yn gwneud y penderfyniad ddatgan eu dewis o Ysgol Llandegfan neu'r ysgol arall.

## 2. Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol

Er mwyn gwireddu'r Rhaglen Moderneiddio Ysgolion a chymryd i ystyriaeth y Ddeddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol (2015) rhoddir sylw i greu cymunedau mwy gwydn, cyfathrebu efo'n cymunedau, sefydlu partneriaeth leol, a chynnwys ein cymunedau yn y gwaith cynllunio tymor hir. Y bwriad yw ein bod yn dilyn proses o'r fath er mwyn galluogi darparwyr a chymunedau i ddatblygu gwasanaethau ar sail angen, yn gallu annog rhannu adnoddau ac arwain at wariant mwy effeithlon hirdymor.

Mae Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol (2015) yn ymwneud â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn gweithio tuag at gyflawni amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015). Fel dilyniant i'r Asesiad Llesiant a gynhaliwyd, mae Cynllun Llesiant Ynys Môn wedi ei ddatblygu o dan arweiniad Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn. Bydd trefniadau ymgynghori ac ymgysylltu moderneiddio ysgolion yn cael eu cynllunio i gyfrannu at ddiwallu anghenion yr asesiad.

Amlinellir isod sut y rhagwelir y Bydd prosiect ar gyfer ysgolion cynradd yn ardal Seiriol yn cyfrannu tuag at y 7 nod Llesiant.

<table>
<tr><th>7 nod llesiant</th><th>Sut bydd y cynnig ar gyfer Seiriol yn cyfrannu tuag at y 7 nod llesiant</th></tr>
<tr><td>Ffyniannus</td><td rowspan="2">Bydd y prosiect yn sicrhau bod adeiladau yn addas i bwrpas a sicrhau bod capasiti a bod potensial pob disgybl i lwyddo yn cael ei gyflawni.<br><br>Mae'r Awdurdod yn ymroddedig i gynyddu gwerth pob punt y mae'r Awdurdod Lleol yn ei wario, a gellir gwireddu hyn drwy'r defnydd o fanteision cymunedol. Bydd yr Awdurdod yn ymgorffori manteision cymunedol (e.e. cyfleoedd gwaith a hyfforddiant yn lleol) ym mhob prosiect Moderneiddio Ysgolion gan gynnwys prosiect Seiriol.</td></tr>
<tr><td>Cymru sy'n fwy cyfartal</td></tr>
<tr><td>Cydnerth</td><td>Mae gan Gyngor Sir Ynys Môn bolisi a sefydlwyd ar y cyd efo siroedd eraill y Gogledd, ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid. Mae'r polisi yn seiliedig ar yr egwyddorion cenedlaethol ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd<br><br>Rydym yn ymgynghori'n statudol yn bresennol er mwyn ymateb i bryderon a</td></tr>
</table>

| | |
|---|---|
| | chanfod barn.Yn dilyn yr ymgynghoriad bydd grŵp rhanddeiliaid yn cael ei sefydlu, er mwyn cynnal y cydweithio rhwng yr Awdurdod a'r rhanddeiliaid.<br><br>Bydd hefyd gyfle ar wahân i blant gyfrannu at y broses o wneud penderfyniadau, a chyfrannu trwy gydol oes y prosiect.<br><br>Yn ogystal, bydd Corff Llywodraethu yn cael ei sefydlu ac yn cyfrannu tuag at ddatblygiad y prosiect.<br><br>Bydd y rhaglen Moderneiddio Ysgolion yn cydweithio efo cymunedau er mwyn cyfrannu tuag at y Strategaeth Cynllunio Lle (Place Shaping) trwy hyrwyddo'r egwyddor o berchnogaeth leol ar gyfer datblygu cymunedol. |
| Iachach | Mae'r Asesiad Cymunedol sy'n rhan o'r pecyn yma yn cadarnhau bod ysgolion presennol yn ardal Seiriol yn gweithredu fel ysgolion cymunedol.<br><br>Ymhellach i hyn, bydd ysgolion sy'n cael eu haddasu / adeiladu yn sgîl rhaglen moderneiddio ysgolion yn cael eu defnyddio fel hybiau cymunedol sy'n hyrwyddo cymunedau iachach.<br><br>Bydd yr ysgolion sy'n cael eu hadeiladu / haddasu yn sgîl y Rhaglen Moderneiddio Ysgolion yn cwrdd â safonau Iechyd a Diogelwch a Llesiant. |
| Cymunedau cydlynus | Fel rhan o'r broses ymgynghori anstatudol mae'r rhanddeiliaid wedi cael y cyfle i leisio barn a chynnig sylwadau. Mae cyfle pellach yn sgîl yr ymgynghoriad statudol sy'n mynd rhagddo i fynegi barn a holi swyddogion ymhellach am y cynnig. Rhagwelir mwy o weithio mewn partneriaeth i wella canlyniadau mewn perthynas â lles, iechyd a chyflawni potensial.<br><br>Bydd yr ysgol hefyd yn cyfrannu tuag at isadeiledd cymunedol yr ardal, o safbwynt y gweithgareddau a darpariaeth gymunedol. |

| | |
|---|---|
| Diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu | Mae'r asesiad effaith ar yr Iaith Gymraeg ynghlwm. Mae'r tair ysgol yn ardal Seiriol, yn ysgolion cyfrwng Cymraeg.<br><br>Bydd yr ysgolion sy'n rhan o'r cynnig yn parhau gyda'r nod o gryfhau'r defnydd o'r Iaith Gymraeg yn yr ysgol, ac yn ceisio dylanwadu ar y defnydd o'r Iaith Gymraeg yn gymdeithasol. |
| Cymru sy'n gyfrifol ar lefel byd-eang | Hyd yma, mae moderneiddio ysgolion a'r prosiectau cysylltiedig wedi eu halinio â strategaethau corfforaethol, lleol a chenedlaethol. Mae'r rhaglen wedi gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru, rhanddeiliaid a'r holl bartneriaid perthnasol i sicrhau bod y prosiectau yn cael eu cefnogi a bod y cyfeiriad strategol yn cael ei ddeall.<br><br>Mae addasiadau i'n hysgolion yn cyflwyno gwelliannau sylweddol mewn effeithlonrwydd ynni. |

## 3. Asesiad Effaith Cydraddoldeb

Pan fo cynnig i newid trefniadau presennol yn digwydd, yn ôl Deddf Cydraddoldeb 2010, mae'n ofynnol i gyrff cyhoeddus asesu effaith 'polisïau ac ymarferion'. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i'r Awdurdod ystyried tystiolaeth berthnasol er mwyn deall effeithiau tebygol neu wirioneddol ei bolisïau a'i ymarferion ar grwpiau a amddiffynnir a rhoi 'ystyriaeth briodol' i'r canlyniadau asesu hyn. Mae hyn yn cynnwys:

- sicrhau nad yw'r polisi na'r arfer yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon
- nodi unrhyw effeithiau niweidiol ar y grwpiau a amddiffynnir
- ystyried sut mae'r polisi neu'r ymarfer yn hybu gwell cyfleoedd cyfartal
- ystyried a yw'r polisi'n effeithio ar gysylltiadau rhwng gwahanol grwpiau

Mae'n angenrheidiol cwblhau asesiadau pan gynigir neu adolygir polisi neu arfer. Mae hyn yn cynnwys cynllunio busnes, arbedion effeithlonrwydd ac ad-drefnu staff. Mae'n rhaid i awdurdod gyhoeddi adroddiad pan fydd asesiad yn dod i'r casgliad y bydd effaith sylweddol ar gydraddoldeb.

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn gosod dyletswydd gyffredinol ar y Cyngor, wrth iddi gefnogi ei waith i ystyried yr angen am:

- ddiddymu gwahaniaethau, aflonyddwch ac erlid anghyfreithlon ac ymddygiad arall sydd wedi ei wahardd gan y Ddeddf
- hybu cyfleoedd cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd berthnasol a amddiffynnir a rhai nad ydynt
- meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd a amddiffynnir a rhai nad ydynt .

Bydd ystyriaethau cydraddoldeb yn cael eu cynnwys wrth lunio achosion busnes moderneiddio ysgolion ac yn ystod y broses o ddatblygu prosiectau. Bydd y ddogfen asesiad effaith cydraddoldeb yn cael ei ddiweddaru'n gyson er mwyn sicrhau ystyriaeth deg i bawb.

O dan y ddeddf mae'n rhaid rhoi sylw yn benodol i ddileu gwahaniaethau a hyrwyddo cydraddoldeb mewn perthynas â hil, anabledd, rhyw, oedran, cyfeiriadedd rhywiol, beichiogrwydd a mamolaeth, crefydd neu gred.

Y data a'r dystiolaeth a gasglwyd i bwrpas yr asesiadau isod oedd Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion Ionawr 2018. Yn ogystal anfonwyd holiaduron at benaethiaid y 3 ysgol, er mwyn canfod gwybodaeth benodol am yr Iaith a gweithgareddau cymunedol.

**3.a Yr Asesiad Effaith**

Wrth ymgymryd â'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb yma mae'r Awdurdod wedi cymryd i ystyriaeth yr effaith negyddol a chadarnhaol o'r cynnig dan sylw.

| Meini Prawf Effaith Cydraddoldeb | Effaith<br><br>Negyddol/<br>Niwtral/<br>Cadarnhaol | Beth yw'r effaith a beth yw'r dystiolaeth | Sylwadau |
|---|---|---|---|
| Oedran<br><br>Bydd disgyblion o bob oedran yn cael eu heffeithio gan y newid.<br><br>Bydd plant o un ysgol yn gorfod dewis 2 ysgol gynradd amgen. Nid oes gwarant y bydd plant yn aros gyda'u ffrindiau. | Cadarnhaol a Negyddol | Mae CYBLD Ionawr 2018 yn nodi bod 272 disgyblion yn mynychu y tair ysgol sef:<br><br>Ysgol Beaumaris: 40<br>Ysgol Llangoed: 78<br>Ysgol Llandegfan: 154<br><br>Bydd disgyblion o bob oedran yn cael eu heffeithio gan y newid. | Mae gan yr Awdurdodau Lleol ddyletswydd statudol i ddarparu addysg llawn-amser i blant a phobl ifanc o'r oedran 5-16. Bydd yr Awdurdod yn parhau i gefnogi ysgolion wrth wella safonau addysg, a sicrhau cwricwlwm eang a chytbwys, ar gyfer pob grŵp oedran.<br><br>Bydd ymgynghoriad statudol yn cael ei gynnal gyda chynrychiolaeth o blant y 3 ysgol dan sylw. Bydd cyfle iddynt roi mewnbwn i mewn i'r cynllun moderneiddio ar gyfer eu hardal.<br><br>Os bydd penderfyniad i gau ysgol/ion yn cael ei gymeradwyo bydd cyfle i'r disgyblion sy'n trosglwyddo i ysgolion eraill gymryd rhan mewn gweithgareddau uno, gyda'r rheiny wedi eu trefnu ar y cyd er mwyn sicrhau bod cyfleoedd a phrofiadau yn cael eu rhannu cyn y broses o drosglwyddo. |

<table>
<tr>
<td>Anabledd</td>
<td>Niwtral</td>
<td>Mae CYBLD Ionawr 2018 yn cadarnhau bod llai na 9 o blant rhwng y 3 ysgol efo datganiad o AAA.<br><br>Dyma’r sefyllfa bresennol yn y 3 ysgol mewn perthynas â chydymffurfio efo Deddf Cydraddoldeb 2010.<br><br>
<table>
<tr><th>Ysgol</th><th>Ramp?</th><th>Mynediad rhwydd at doiledau</th><th>2 lawr?</th><th>Lifft</th></tr>
<tr><td>Beaumaris</td><td>Na</td><td>Na</td><td>Oes</td><td>Na</td></tr>
<tr><td>Llangoed</td><td>Na</td><td>Oes</td><td>Na</td><td>D/B</td></tr>
<tr><td>Llandegfan</td><td>Oes</td><td>Oes</td><td>Oes</td><td>Na</td></tr>
</table>
</td>
<td>Bydd y disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn parhau i dderbyn y cymorth ychwanegol sy’n ymateb i’w anghenion addysgol unigol.<br><br>Bydd yr Awdurdod yn darparu cymorth a chefnogaeth briodol ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol y disgyblion.<br><br>Bydd gofynion unigol yn cael eu hasesu ar adeg trosglwyddo i unrhyw ysgol .<br><br>Bydd addasiadau i’r ysgolion presennol yn cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010 a bydd yn sicrhau bod gan blant a rhieni anabl fynediad llawn i’r ysgol, y cwricwlwm a gwybodaeth - heb gyfyngiad na dibynnu ar eraill i’w cynorthwyo. Bydd hefyd doiled anabledd ac ystafell newid/ymolchi a fydd yn caniatáu i ddisgyblion anabl gyfranogi’n llawn mewn gweithgareddau a bydd yn hybu annibyniaeth gyda sgiliau hunan-gymorth a hylendid.</td>
</tr>
</table>

<table>
<tr>
<td>Rhyw</td>
<td>Cadarnhaol</td>
<td>
<table>
<tr><th>Rhyw</th><th>Beaumaris</th><th>Llangoed</th><th>Llandegfan</th></tr>
<tr><td>Gwryw</td><td>13 (38%)</td><td>40 (55%)</td><td>60 (49%)</td></tr>
<tr><td>Benyw</td><td>21 (62%)</td><td>33 (45%)</td><td>62 (51%)</td></tr>
</table>
CYBLD Ionawr 2018 , y data sydd wedi ei gofnodi.
</td>
<td>Bydd mwy o ddisgyblion yn gwella cydbwysedd o ran disgyblion a grwpiau blwyddyn.<br><br>Mae perfformiad yr holl ddisgyblion yn cael ei asesu a'i fonitro gan gynnwys grwpiau penodol megis bechgyn a merched, plant sy'n cael prydau ysgol am ddim, disgyblion ADY, lleiafrifoedd ethnig, Saesneg fel iaith Ychwanegol, Plant Mewn Gofal a phlant mwy abl a thalentog. Gweithredir cynlluniau i leihau'r gwahaniaeth mewn perfformiad rhwng bechgyn a merched, a'r grwpiau gwahanol yn seiliedig ar hynny.</td>
</tr>
<tr>
<td>Ethnigedd</td>
<td>Cadarnhaol</td>
<td>Mae CYBLD Ionawr 2018 yn cadarnhau'r data isod (y rhai sydd wedi eu cofnodi ar CYBLD 2018):
<table>
<tr><th>Ysgol Beaumaris</th></tr>
<tr><td>Gwyn Prydeinig 57%</td></tr>
<tr><th>Ysgol Llangoed</th></tr>
<tr><td>Gwyn Prydeinig 82%</td></tr>
<tr><th>Ysgol Llandegfan</th></tr>
<tr><td>Gwyn Prydeinig 78%</td></tr>
</table>
</td>
<td>Os oes disgyblion o gefndir ethnig arall yn mynychu'r ysgolion, ni fyddent yn cael eu trin mewn ffordd wahanol ar sail eu tras ethnig. Pe byddai staff o gefndiroedd ethnig eraill yn yr ysgol newydd, ni fyddent yn cael eu trin yn wahanol ar sail eu tras ethnig.</td>
</tr>
</table>

| | | | |
|---|---|---|---|
| Crefydd neu gred | Niwtral / Cadarnhaol | Nid yw CYBLD Ionawr 2018 yn cadw data ar y nodwedd yma. | Gall y cynnig roddi cyfle i wella dealltwriaeth y disgyblion o grefydd neu gred o ganlyniad i gynnydd yn y disgyblion.<br><br>Mae rhieni'n cael dewis rhannu gwybodaeth am grefydd/ gred eu plant efo'r ysgol yn unol â'u dyheadau.<br><br>Delir yn sensitif gydag unrhyw achosion pe codir. |
| Gogwydd Rhywiol | Niwtral | Nid yw CYBLD Ionawr 2018 yn cadw data ar y nodwedd yma. | Mae gan Gyngor Sir Ynys Môn Bolisi Gogwydd Rhywiol ac mae'n nodi bod gwahaniaethu ar sail gogwydd rhywiol yn anghyfreithlon. Ni cheir tystiolaeth bod gwahaniaethu ar sail gogwydd rhywiol yn digwydd gyda staff ysgol.<br><br>Mae rhieni'n cael dewis rhannu gwybodaeth am gogwydd rhywiol eu plant efo'r ysgol yn unol â'u dyheadau.<br><br>Delir yn sensitif gydag unrhyw achosion pe codir. |
| Iaith Gymraeg | Cadarnhaol a Niwtral | Beaumaris - Mae ffigurau CYBLD Ionawr 2018 yn dangos bod 21% (10) o'r disgyblion yn siarad Cymraeg gartref.<br><br>Llangoed- Mae ffigyrau o Ionawr 2018 yn dangos bod 46% (38) o'r disgyblion yn siarad Cymraeg gartref. | Ni fydd categori ieithyddol yr ysgolion yn newid.<br><br>Mae'n ddisgwyliad gan yr Awdurod i'r ysgolion barhau i fod yn ysgolion cymunedol, Cymraeg eu hiaith.<br><br>Bydd yn flaenoriaeth gan yr Awdurdod i |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Llandegfan - Mae ffigurau o Ionawr 2018 yn dangos bod 43% (66) o'r disgyblion yn siarad Cymraeg gartref. | gryfhau a diogelu'r Gymraeg ac addysg ddwyieithog. |
| Beichiogrwydd a Mamolaeth | Niwtral | Amherthnasol ar gyfer disgyblion yr ysgol. | |
| Newid Rhyw | Niwtral | Nid yw CYBLD Ionawr 2018 yn cadw data ar y nodwedd yma | Mae gan Gyngor Sir Ynys Môn gynllun Cydraddoldeb Rhywiol ac mae'n nodi bod gwahaniaethu ar sail newid rhyw yn anghyfreithlon. Ni cheir tystiolaeth bod gwahaniaethu ar sail newid rhyw yn digwydd gyda staff yr ysgol.<br><br>Delir yn sensitif gydag unrhyw achosion pe codir. |
| Arall<br><br>Cymdeithasol economaidd.<br><br>Ysgolion Bach a Gwledig | Cadarnhaol a Negyddol | Ystyriwyd ffactorau cymdeithasol-economaidd a gwledig yn yr 'Asesiad Effaith Cymunedol' isod.<br><br>Mae un o'r ysgolion, sef Ysgol Llangoed wedi ei gynnwys fel ysgol wledig yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion (Cyhoeddwyd Mehefin 2017 fel drafft, ac nid ydyw wedi ei gymeradwyo yn ffurfiol ar hyn o bryd).<br><br>Mae adroddiad thematig Estyn "Ysgolion Cynradd Bychain yng Nghymru (2006)" yn dynodi nad oes gwahaniaeth gwirioneddol rhwng safonau addysg mewn ysgolion bach ac | Mae'r Awdurdod yn cydnabod bod gan ysgolion gwledig, fel pob ysgol yn Ynys Môn, ran allweddol i'w chwarae mewn cyfrannu at gymunedau, y defnydd o'r Iaith Gymraeg a ffordd o fyw.<br><br>Wrth ystyried opsiynau moderneiddio ysgolion i'r dyfodol bydd yr Awdurdod yn rhoddi ystyriaeth i gydbwyso anghenion addysgol |

<table>
<tr>
<td></td>
<td></td>
<td>ysgolion mawr, ond "gall fod yn fwy anodd i athrawon mewn ysgolion bach gyfateb y gwaith i anghenion disgyblion, gan y gall disgyblion mewn dosbarth amrywio’n sylweddol yn nhermau oed a chamau datblygiad ". Mae hyn yn berthnasol i ysgolion llai. Mae hydwythedd o safbwynt staffio wedi gwella yn yr ysgolion mwy eu maint.</td>
<td>gydag anghenion tymor hir ein cymunedau, a hynny drwy gydweithio efo asiantaethau.</td>
</tr>
<tr>
<td>Niferoedd y plant sy’n gymwys am brydau ysgol di-dal.</td>
<td>Cadarnhaol</td>
<td><table><tr><th>Beaumaris</th><th>Llangoed</th><th>Llandegfan</th></tr><tr><td>10 (25%)</td><td>14 (18%)</td><td>8 (5%)</td></tr></table></td>
<td>Gall y cynnig fod yn gadarnhaol trwy roddi mwy o gyfleoedd i grŵp o ddisgyblion fanteisio ar yr adnoddau a darpariaeth ehangach.</td>
</tr>
</table>

Yn unol â’r asesiad effaith uchod mae’n ymddangos bydd y cynnig arfaethedig yn cael effaith gadarnhaol (+7)[1].

---

[11] 1. Mae’r effaith ar bob pennawd yn cael ei farnu fel ‘Negyddol’, ‘Niwtral’ neu ‘Gadarnhaol’.

2. Byddai hyn yn cyfrannu i’r Gwerthusiad Dewis gyffredinol gyda ‘Negyddol’ yn sgorio -1, ‘Niwtral’ yn sgorio 0 a ‘Cadarnhaol’ yn sgorio 1.

## 4. Asesiad Effaith Ieithyddol

Mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi mabwysiadu'r egwyddor na ddylai'r Gymraeg gael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac y dylai trigolion yr ynys allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny. Yr un yw'r disgwyliad mewn perthynas â'r Gymraeg ar gyfer pob ysgol, sy'n rhoi cyfle i bob disgybl yn y Sir feddu ar y sgiliau priodol i fod yn hyderus yn eu dwyieithrwydd. Yng ngoleuni hyn, bydd unrhyw gynllun newydd a gyflwynir - fel prosiectau sy'n deillio o'r rhaglen ysgolion yr 21ain ganrif, yn ddarostyngedig i ofynion y polisi iaith.

Mae Ynys Môn yn parhau i fod yn un o'r ardaloedd yng Nghymru efo presenoldeb cryf o'r Iaith Gymraeg. Mae Cyfrifiad 2011 yn dangos bod 57% o'r boblogaeth yn gallu siarad y Gymraeg.

Mae Polisi Iaith Adran Dysgu Gydol Oes Cyngor Sir Ynys Môn wedi ymrywmo i'r nod ac amcanion isod.

**Nod:**

Bod pob disgybl sydd yn mynd trwy gyfundrefn addysg Ynys Môn yn gwbl ddwyieithog erbyn diwedd eu gyrfa addysgol ac yn hyderus i gyfathrebu yn y ddwy iaith yn gyfartal yn y byd gwaith, yn ddiwylliannol ac yn gymdeithasol.

**Amcan Cyffredinol:**

1. Datblygu gallu holl ddisgyblion a myfyrwyr y Sir i fod yn hyderus ddwyieithog er mwyn eu galluogi i fod yn aelodau cyflawn o'r gymdeithas ddwyieithog y maent yn rhan ohoni.
2. Cynyddu'r defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg ymysg y gweithlu addysgol a plant a phobl ifanc sydd yn mynychu sefydliadau addysgol o fewn yr Awdurdod ac hefyd fel cyfrwng dysgu.
3. Bydd holl sefydliadau addysgol y Sir yn adlewyrchu ac atgyfnerthu'r Polisi Iaith yn eu gweinyddiaeth, eu bywyd cymdeithasol a'u trefn fugeiliol yn ogystal ag yn eu darpariaeth gwricwlaidd.

**Amcanion Penodol:**

1. **Blynyddoedd Cynnar:** Sicrhau darpariaeth a threfniadaeth feithrin bwrpasol ac effeithlon drwy gynnwys dulliau trochi, i bob plentyn beth bynnag yw ei gefndir ieithyddol i roi sylfaen gadarn yn y Gymraeg er mwyn ei alluogi i gyrraedd y nod o ddwyieithrwydd llawn cyn gynted â phosibl.

2. **Cyfnod Sylfaen:** Adeiladu ar y sylfaen a osodwyd yn y Blynyddoedd Cynnar drwy barhau i ddatblygu gafael disgyblion ar y Gymraeg, a chychwyn ar y broses i ddatblygu eu sgiliau yn y Saesneg erbyn diwedd y cyfnod.

3. **Cyfnod Allweddol 2:**
    - Parhau i ddatblygu medrau y plant yn y Gymraeg a'r Saesneg gan roi sylw i ddatblygu eu sgiliau ieithyddol yn y ddwy iaith gan sicrhau - trwy gynllunio pwrpasol - lefel gyfartal o ddwyieithrwydd erbyn diwedd y Cyfnod;
    - ar gyfer disgyblion sy'n ddysgwyr y Gymraeg yn CA2, sicrhau eu bod yn dysgu'r Gymraeg cyn gynted â phosibl trwy'r Canolfannau Iaith Cynradd

4. **Cyfnod Allweddol 3:**
    - Sicrhau bod pob disgybl sydd wedi dilyn trac Cymraeg Iaith Gyntaf yn y sector Cynradd yn parhau i ddilyn Cymraeg Iaith Gyntaf a Saesneg er mwyn sicrhau dilyniant a pharhad priodol yn y ddwy iaith;
    - Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg fel cyfrwng dysgu a'r nifer o bynciau a addysgir trwy gyfrwng y Gymraeg
    - Bod ymyrraeth briodol a phwrpasol ar gyfer y disgyblion hynny nad ydynt yn cyrraedd lefel 3+ ar ddiwedd CA2 er mwyn iddynt barhau i ddatblygu eu sgiliau ieithyddol;
    - Ar gyfer disgyblion sy'n ddysgwyr y Gymraeg yn CA3, sicrhau eu bod yn dysgu'r Gymraeg cyn gynted â phosibl trwy ddarpariaeth briodol yn CA3.

5. **Cyfnod Allweddol 4:**
    - Sicrhau bod pob disgybl sydd wedi dilyn trac Cymraeg Iaith Gyntaf yn y sector Cynradd yn parhau i ddilyn Cymraeg Iaith Gyntaf a Saesneg er mwyn sicrhau dilyniant a pharhad priodol yn y ddwy iaith;
    - Sicrhau bod pob disgybl yn astudio'r Gymraeg a Saesneg fel pwnc hyd at ddiwedd B11 ac yn sefyll arholiad mewn cymhwyster cydnabyddedig yn y ddwy iaith ar ddiwedd CA4;
    - Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg fel cyfrwng dysgu a'r nifer o bynciau a addysgir trwy gyfrwng y Gymraeg
    - Ar gyfer disgyblion sy'n ddysgwyr y Gymraeg yn CA4 sicrhau eu bod yn derbyn Sylfaen yn y Gymraeg trwy ddarpariaeth briodol erbyn diwedd y Cyfnod.

6. **Cyfnod Allweddol 5:**
    - Sicrhau bod cyfleoedd ar gael i fyfyrwyr ddilyn pynciau trwy'r Gymraeg.
    - Sicrhau bod gan fyfyrwyr ôl-16 wybodaeth a dealltwriaeth o nodweddion diwylliannol, economaidd, amgylcheddol, hanesyddol ac ieithyddol Cymru trwy raglenni ymwybyddiaeth iaith cynhwysfawr a chyfoethogi'r Cwricwlwm Cymreig trwy holl ysgolion yr Awdurdod, gan eu datblygu i fod yn ddinasyddion hyderus dwyieithog er mwyn eu galluogi i fod yn aelodau cyflawn o'r gymdeithas ddwyieithog y maent yn rhan ohoni.

7. **Addysg Arbennig:** yn achos disgyblion ag anawsterau dysgu dwys rhoddir hawl i Bennaeth - mewn ymgynghoriad â'r Adran Dysgu Gydol Oes - roi ystyriaeth unigol i bob achos, tra'n sicrhau bod disgyblion gyda'r sgiliau ieithyddol angenrheidiol iddynt ymdopi fel oedolion o fewn eu cymunedau.

**4.a Defnyddio’r Gymraeg yn yr Ysgol**

Anfonwyd holiaduron at Benaethiaid y 3 ysgol dan sylw i’w holi am y sefyllfa yn eu hysgolion

| | **Ysgol Beaumaris** | **Ysgol Llangoed** | **Ysgol Llandegfan** |
|---|---|---|---|
| Categori Ieithyddol yr ysgolion presennol | Cymraeg | Cymraeg | Cymraeg |

| Meini Prawf Ieithyddol | Sylwadau | Effaith | Mesurau Lliniaru |
|---|---|---|---|
| Demograffeg (Iaith y cartref) | Siaradwyr Cymraeg Gartref<br>Beaumaris: 21% (10)<br>Llangoed: 46% (38)<br>Llandegfan: 43% (66) | Cadarnhaol | Bydd y cynnig yn rhoddi cyfle i ddisgyblion wella eu sgiliau dwyieithog drwy gymdeithasu gyda chanran fwy o ddisgyblion sy’n siarad Cymraeg yn rhugl yn yr ysgol. |
| Statws Ieithyddol yr ysgolion presennol | Beaumaris – Cymraeg<br>Llangoed –Cymraeg<br>Llandegfan –Cymraeg<br>**Statws y Siarter Iaith**<br>Beaumaris - Arian<br>Llangoed -Arian | Niwtral | Gan fod disgyblion yn y tair ysgol yn cael eu haddysgu yn y Gymraeg yn bennaf, beth bynnag fydd yn digwydd, ni fyddai newid yn hyn o beth. Fodd bynnag, dylai datblygu disgyblion hollol ddwyieithog fod yn ganolbwynt parhaus a phwysig mewn Cynllun |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Llandegfan -Arian<br><br>% sy'n cael asesiad CS a CA2 Cymraeg Iaith Gyntaf<br><br>Beaumaris – 100%<br><br>Llangoed – 100%<br><br>Llandegfan – 100% | | Datblygu Ysgol.<br><br>1. Bydd trefniant dosbarth yn anelu at ddatblygu anghenion ieithyddol penodol y fintai.<br>2. Bydd tracio disgyblion yn ystyried eu cynnydd wrth ddatblygu dwyieithrwydd.<br>3. Bydd adroddiadau'r Pennaeth i'r llywodraethwyr yn cynnwys canrannau o ddisgyblion ym mhob mintai iaith.<br>4. Cynnydd ar ddiwedd Cyfnod Allweddol<br>5. Cynnydd yr ysgol gyda'r Siarter Iaith<br><br>Mae'n ddisgwyliad gan yr Awdurdod i'r ysgolion barhau i fod yn ysgolion cymunedol, Cymraeg eu hiaith.<br><br>Rhan annatod o weithdrefnau'r siarter yw'r ymwneud â rhieni, Llywodraethwyr a'r gymuned leol. Mae llwyddiant y Siarter |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Iaith a'i hamcanion yn ddibynnol ar gydweithrediad yr holl randdeiliaid.<br><br>Bydd yn flaenoriaeth gan yr Awdurdod i gryfhau a diogelu'r Gymraeg ac addysg ddwyieithog.<br><br>Mae gan Gyngor Sir Ynys Môn Strategaeth Iaith sirol a Chynllun Gweithredu blynyddol lle mae sawl partner allweddol ym Môn yn rhan weithredol ohonynt. |
| Y defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned | Yn ôl cyfrifiad 2011 mae 57% o bobl Ynys Môn yn gallu siarad Cymraeg. Mae'r ganran wedi gostwng dros y degawdau diwethaf - yn 1981 roedd 62% o bobl Ynys Môn yn gallu siarad Cymraeg. Mae ardal Aethwy a Seiriol wedi gweld twf o 2% dros y 30 mlynedd diwethaf (Asesiad Llesiant Ynys Môn 2017). Mae'r tair ysgol dan sylw o fewn ward Seiriol. | Cadarnhaol | Angen hybu'r defnydd o'r Iaith Gymraeg (Asesiad Llesiant Ynys Môn 2017).<br><br>Bydd y Rhaglen Moderneiddio Ysgolion yn cydweithio â'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn er mwyn ystyried sut y gallent gydweithio i hybu'r defnydd o'r Iaith Gymraeg yn y gymuned, a chyfrannu tuag at darged Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. |

<table>
<tr>
<td>Darpariaeth addysg/ asesiad athro ar ddiwedd Cyfnod Sylfaen (7oed) a Chyfnod Allweddol 2(11 oed).</td>
<td>
% o ddisgyblion sy’n cyrraedd Deilliant 5[2] neu uwch yn y Cyfnod Sylfaen mewn sgiliau Cymraeg Iaith, Llenyddiaeth a Chyfathrebu
<table>
<tr><th>Ysgol</th><th>2015</th><th>2016</th><th>2017</th></tr>
<tr><td>Beaumaris</td><td>100</td><td>71.43</td><td>100</td></tr>
<tr><td>Disgyblion yn cyflawni</td><td>4</td><td>5</td><td>5</td></tr>
<tr><td>Cohort</td><td>4</td><td>7</td><td>5</td></tr>
<tr><td>Llandegfan</td><td>94.4</td><td>96.3</td><td>100</td></tr>
<tr><td>Disgyblion yn cyflawni</td><td>17</td><td>26</td><td>16</td></tr>
<tr><td>Cohort</td><td>18</td><td>27</td><td>16</td></tr>
<tr><td>Llangoed</td><td>85.71</td><td>77.78</td><td>94.12</td></tr>
<tr><td>Disgyblion yn cyflawni</td><td>13</td><td>11</td><td>10</td></tr>
<tr><td>Cohort</td><td>15</td><td>14</td><td>11</td></tr>
</table>
</td>
<td>Niwtral</td>
<td>Gan fod yr holl ddisgyblion yn y tair ysgol yn cael asesiad athro mewn Cymraeg ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2, beth bynnag fydd yn digwydd, ni fyddai newid yn hyn o beth.<br><br>Mae adroddiadau i rieni ar berfformiad disgyblion yn rhoi sylwadau ar lafaredd, darllen ac ysgrifennu yn ogystal â’u cynnydd at fod yn hollol ddwyieithog.</td>
</tr>
</table>

[2] Deilliant 5 yw’r deilliant disgwyliedig i’r Cyfnod Sylfaen.

**Canran o'r disgyblion sy'n cyrraedd Lefel 4 neu uwch yn y Saesneg**

| Ysgol | 2015 | 2016 | 2017 |
|---|---|---|---|
| **Beaumaris** | 91.67 | 71.43 | 87.5 |
| Disgyblion yn cyflawni | 11 | 5 | 7 |
| Cohort | 12 | 7 | 8 |
| **Llandegfan** | 85.71 | 95.24 | 94.12 |
| Disgyblion yn cyflawni | 18 | 20 | 16 |
| Cohort | 21 | 21 | 17 |
| **Llangoed** | 93.33 | 78.57 | 81.82 |
| Disgyblion yn cyflawni | 14 | 11 | 9 |
| Cohort | 15 | 14 | 11 |

**Canran o’r disgyblion sy’n cyflawni lefel 4 neu uwch yn y Gymraeg fel Iaith Gyntaf**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Beaumaris** | 83.33 | 57.14 | 75 |
| Disgyblion yn cyflawni | 10 | 4 | 6 |
| Cohort | 12 | 7 | 8 |
| **Llandegfan** | 80.95 | 90.48 | 82.35 |
| Disgyblion yn cyflawni | 17 | 19 | 14 |
| Cohort | 21 | 21 | 17 |
| **Llangoed** | 86.67 | 71.43 | 81.82 |
| Disgyblion yn cyflawni | 13 | 10 | 9 |
| Cohort | 15 | 14 | 11 |

Ffynhonnell: Setiau Data Craidd Cymru Gyfan

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cyfrwng iaith disgyblion ar yr iard, clwb brecwast, clybiau ar ôl ysgol | **Beaumaris**<br>▪ Dwyieithog ar yr iard.<br>▪ Clwb brecwast - Cymraeg<br>▪ Clybiau ar ôl ysgol - Cymraeg<br>**Llangoed**<br>Cymraeg yw iaith sy'n cael ei siarad gyda'r plant ond maent yn tueddu i droi i'r Saesneg wrth siarad yn rhydd gyda'i cyfoedion.<br>**Llandegfan**<br>Cymraeg a Saesneg. | Niwtral | Mae'r holiaduron a anfonwyd at Benaethiaid yn cadarnhau bod disgyblion y 3 ysgol yn defnyddio cyfuniad o Gymraeg a Saesneg. Bydd yr ysgolion sydd wedi eu cynnwys yn y cynnig yn parhau i hyrwyddo ac annog y defnydd o'r Iaith Gymraeg a gweithredu'r siarter ac amcanion cyfathrebu a hyrwyddo defnydd anffurfiol o iaith y disgyblion.<br><br>Wrth ddefnyddio'r Gymraeg yn bennaf yn y Clybiau, bydd yn cael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg. |
| Ymwneud yr ysgol mewn gweithgareddau cyfrwng y Gymraeg | **Beaumaris**<br>▪ Urdd<br>▪ Cydweithio efo Menter Iaith<br>**Llangoed**<br>▪ Urdd<br>▪ Siarter Iaith<br>▪ Eisteddfod Genedlaethol<br>▪ Cyfrannu at Bapur Menai.<br>▪ Cydweithio efo Menter Môn<br>**Llandegfan**<br>Yn cadarnhau bod yr ysgol yn ymwneud â gweithgareddau cyfrwng y Gymraeg | Cadarnhaol | Mae pob un o'r tair ysgol bresennol yn cymryd rhan mewn gweithgareddau cyfrwng Cymraeg.<br><br>Bydd y cynnig yn galluogi'r plant gymdeithasu gyda chanran fwy o ddisgyblion sy'n siarad Cymraeg yn rhugl yn yr ysgol. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Defnydd o'r ysgol gan yr ardal i ddysgu Cymraeg | Beaumaris<br>Dim | Llangoed<br>Nid oes gwersi Gymraeg yn cael eu cynnal yn yr Ysgol ond fe rennir taflenni gyda rhieni mewn ffeiriau gwybodaeth. | Llandegfan<br>Dim | Cadarnhaol | Nid oes cyfleoedd ar hyn o bryd i'r gymuned ddysgu Cymraeg yn yr ysgolion.<br><br>Er nad yw'r un o'r tair ysgol yn cynnal gwersi Cymraeg, mae'r cynnig yn galluogi'r ysgolion fod yn adnodd cymunedol er mwyn cynnig y ddarpariaeth o wersi Cymraeg. Mae cyfle i'r ysgolion cael eu defnyddio fel adnodd cymunedol. |
| Gallu staff addysgu i addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg | Beaumaris<br>Pob aelod o staff addysgu yn rhugl yn y Gymraeg | Llangoed<br>Pob aelod o staff yn siarad Cymraeg - 2 hefo gradd iaith | Llandegfan<br>Pob aelod o staff addysgu | Niwtral | Mae pob un o'r tair ysgol yn darparu addysg drwy Gyfrwng y Gymraeg, a ni fydd newid yn y statws ieithyddol. |
| Gallu staff cefnogi i gynorthwyo trwy gyfrwng y Gymraeg | Beaumaris<br>Pob aelod o staff cefnogi yn rhugl yn y Gymraeg | Llangoed<br>Pob un yn rhugl yn y Gymraeg | Llandegfan<br>Pob aelod o'r staff cefnogi. | Niwtral | Mae pob un o'r tair ysgol yn darparu addysg drwy Gyfrwng y Gymraeg, a ni fydd newid yn y statws Ieithyddol. |

<table>
<tr><td></td><td></td><td></td><td></td></tr>
<tr><td>Canran o lywodraethwyr sy’n gallu siarad Cymraeg</td><td><table><tr><th>Beaumaris</th><th>Llangoed</th><th>Llandegfan</th></tr><tr><td>40%</td><td>100% (Cynnwys un dysgwr)</td><td>75%</td></tr></table></td><td>Niwtral</td><td>Bydd cyfansoddiad Ieithyddol yn ddibynnol ar broses ethol y Corff i’r dyfodol. Er hynny bydd Y Corff Llywodraethu yn cefnogi nod ac amcanion polisi Iaith yr Awdurdod.</td></tr>
<tr><td>Iaith a ddefnyddir fwyaf yn ystod cyfarfodydd<br><br>Llywodraethwyr, Cymdeithas Rhieni ac Athrawon a Staff</td><td><table><tr><th>Beaumaris</th><th>Llangoed</th><th>Llandegfan</th></tr><tr><td>Llywodraethwyr – Saesneg<br>Cymdeithas Rhieni ac Athrawon a Staff – Cymraeg yn bennaf dibynnu pwy sydd yn bresennol.</td><td>Staff – Cymraeg yn unig.<br>Llywodraethwyr -Cymraeg gyda'r dogfennau ar gael yn y ddwy iaith.<br>Cymdeithas Rhieni ac Athrawon - Dwyieithog</td><td>Cymraeg, a Saesneg ar adegau yn y cyfarfodydd llywodraethwyr.</td></tr></table></td><td>Niwtral</td><td>Bydd y cyfarfodydd yn cefnogi nod ac amcanion polisi Iaith yr Awdurdod.</td></tr>
</table>

<table>
<tr>
<td>Barn rhai o Rhanddeiliaid Ysgol Beaumaris, Ysgol Llandegfan ac Ysgol Llangoed ar y cwestiwn ‘os yw’r cynnig am effeithio’n negyddol ar y defnydd o’r Iaith Gymraeg’.[3]</td>
<td><table><tr><th>Ydy</th><th>Na</th></tr><tr><td>31%</td><td>69%</td></tr></table></td>
<td>Cadarnhaol</td>
<td>Mae’r prosiectau moderneiddio ysgolion yn cydymffurfio a’r strategaeth Iaith Gymraeg a Strategaeth Iaith statudol y Gymraeg mewn Addysg. Bydd yr ysgolion dan sylw yn parhau i weithio ar gynlluniau i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn unol â thargedau CSYM a Llywodraeth Cymru i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg i filiwn erbyn 2050.</td>
</tr>
</table>

Yn unol â’r asesiad uchod bydd yr opsiwn arfaethedig yn cael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg (+5).[4]

---

[3] Gwelwch yn ogystal Astudiaeth Effaith Cymunedol gan Bwyllgor Ymateb Ysgol Gynradd Beaumaris i’r ymgynghoriad, sy’n cadarnhau bod 91% o gyfranogwyr eu harolwg yn cytuno efo’r gosodiad bod ‘Ysgol Gynradd Beaumaris yn chwarae rôl bwysig yn y broses o feithrin Diwylliant Gymraeg yn y Gymuned’.

[4] byddai’r effaith ar bob pennawd yn cael ei farnu fel ‘Negyddol’, ‘Niwtral’ neu ‘Gadarnhaol’. Byddai hyn yn cyfrannu i’r Gwerthusiad Dewis gyffredinol gyda ‘Negyddol’ yn sgorio -1, ‘Niwtral’ yn sgorio 0 a ‘Cadarnhaol’ yn sgorio 1.

## 5. Asesiad Cymunedol

Mae'r asesiad hwn yn ystyried yr effaith y gallai'r cynnig cyfredol ei chael ar deuluoedd a'r gymuned leol.

**Methodoleg**

Rydym fel Awdurdod yn ystyried yn ofalus effaith cymunedol y cynnig ar pob ysgol. Holwyd penaethiaid y 3 ysgol am berthynas yr ysgol â'r gymuned a'r gweithgareddau a gynhelir yn yr ysgol. Fel y cyfeirwyd uchod mae'r ddogfen yn un weithredol a bydd cyfle i randdeiliaid gyfrannu tuag at yr asesiad effaith. Darperir manylion pellach isod

**Ysgolion Bro**

Bydd yr Awdurdod Lleol yn cefnogi ysgolion i ddatblygu cysylltiadau â'r gymuned sy'n darparu cyfleoedd i gyfoethogi profiadau i bawb. Mae angen datblygu cyfleoedd i wella ac ehangu'r cwricwlwm o fewn cylch yr ysgol a thu hwnt gan fod hyn o fudd i ddisgyblion a thrigolion lleol. Wrth ystyried y dewisiadau ar gyfer strwythurau ysgol yn y dyfodol bydd yr Awdurdod yn cydbwyso anghenion addysgol gyda datblygiad cymunedol, buddsoddiad ac anghenion cefnogi.

**Ysgolion lleol (dalgylchoedd)**

Bydd rhaglen Moderneiddio Ysgolion Cynradd yn cefnogi polisi'r Awdurdod o nodi ysgolion lleol ar gyfer ardaloedd. Mae gan bob ysgol 'ddalgylch' diffiniedig. Mae dalgylchoedd yn cael eu mapio ac mae angen eu hadolygu'n achlysurol. Bydd dalgylch yn cynnwys sawl milltir sgwâr mewn ardal wledig a gall gynnwys un neu fwy o bentrefi a'u hardaloedd o'u hamgylch. Mewn ardaloedd trefol gyda dwy ysgol neu fwy, bydd y dalgylch yn gasgliad o strydoedd.

**Ysgolion gwledig**


Mae'r Awdurdod yn cydnabod y rhan allweddol mae ysgolion yn eu chwarae mewn ardaloedd gwledig wrth gynnal diwylliant lleol, iaith a ffordd o fyw. Wrth ystyried dewisiadau strwythurau ysgol yn y dyfodol mewn ardaloedd gwledig, bydd yr Awdurdod yn cydbwyso anghenion addysgol gyda datblygiad lleol, buddsoddiad ac anghenion cefnogi. Mae un o'r ysgolion, sef Ysgol Llangoed wedi ei gynnwys fel ysgol wledig yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion (Cyhoeddwyd Mehefin 2017 fel drafft, ac nid ydyw wedi ei gymeradwyo yn ffurfiol ar hyn o bryd).

**5.a Lleoliad yr Ysgolion**

Mae lleoliad y 3 ysgol bresennol yn ward Seiriol wedi eu hamlinellu isod:




Tudalen 88


Allwedd / Legend
Ysgolion / Schools
Ysgol Gynradd Biwmares
Ysgol Llandegfan
Ysgol Llangoed

**5.b Niferoedd yn yr ysgolion**

| Ysgol | Beaumaris | Llandegfan | Llangoed |
|---|---|---|---|
| **Ystod oedran** | 3 – 11 | 4 - 11 | 3 – 11 |
| **Capasiti ac eithrio darpariaeth feithrin** | 143 | 145 | 98 |
| **Niferoedd Meithrin – Ionawr 2018** | 8 | 11, 13* | 4 |
| **Capasiti'r** Meithrin | 20 | - | 14 |
| **Niferoedd ar y gofrestr –Ionawr 2018 (4-11)** | 40 | 154 | 78 |
| **Lleoedd dros ben (Ionawr 2018)** | 103 (72%) | 0 (0%) | 20 (20%) |
| **Cost y pen (**2016/17) | £6,577 | £3,662 | £4,145 |
| **Cost y pen (**2017/18) | £5,976 | £3,589 | £4,077 |
| **Disgyblion o'r tu allan i'r dalgylch (Ionawr 2018)** | 17% | 41% | 23% |
| **% sy'n siarad Cymraeg** gartref | 21% | 43% | 46% |
| **% sydd a'r hawl i gael prydau ysgol di-dâl** | 25% | 5% | 18% |
| **Blwyddyn y penodwyd y Pennaeth** | Ionawr 2017 | Medi 2017 | Medi 1990 |
| **Amser fel Pennaeth yn yr ysgol hon** | 4½ tymor | 2½ tymor | 27 mlynedd |

Mae'r tabl isod yn dangos nifer y disgyblion (4-11 oed) yn y tair ysgol dros y 6 mlynedd diwethaf yn Ionawr bob blwyddyn. Ar gyfer ysgolion cynradd nid yw niferoedd disgyblion meithrin yn cael eu cynnwys mewn rhagolygon:





| Ysgol | 2010 | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 | Medi 2017 | Ion 2018 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Biwmares** | 91 | 90 | 92 | 81 | 71 | 56 | 50 | 40 | 40 |
| **Llandegfan** | 145 | 138 | 151 | 132 | 140 | 141 | 143 | 152 | 154 |
| **Llangoed** | 81 | 73 | 76 | 77 | 75 | 81 | 80 | 79 | 78 |
| **Cyfanswm** | **317** | **301** | **319** | **290** | **286** | **278** | **273** | **271** | **272** |


Mae cyfanswm y disgyblion yn y tair ysgol wedi lleihau o 317 yn 2010 i 261 ym Medi 2017. Bu nifer y genedigaethau'n uwch yn y blynyddoedd diweddar, mewn cymhariaeth â gweddill Ynys Môn a Chymru, ac yn gyffredinol, mae nifer y disgyblion yn y blynyddoedd is wedi cynyddu ond nid yw hyn wedi ei adlewyrchu yn y ffigurau uchod. Mae niferoedd yn Ysgol Biwmares wedi gostwng yn sylweddol – un o'r rhesymau dros hyn yw'r ffaith fod cynifer o rieni'r ysgol eisoes wedi dewis i'w plant gael eu haddysgu mewn ysgolion eraill.
Yn ôl ystadegau o'r gwasanaeth iechyd, mae nifer y plant o dan bedair oed hefyd yn uwch. Rhagwelir y bydd nifer y disgyblion yn y rhan fwyaf o'r 3 ysgol yn parhau i gynyddu yn ystod y blynyddoedd a ganlyn – gweler y graff isod.

| Ysgol | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 | 2022 | 2023 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Biwmares** | 46 | 50 | 50 | 55 | 59 | 64 |
| **Llandegfan** | 151 | 162 | 158 | 165 | 164 | 168 |
| **Llangoed** | 66 | 67 | 65 | 55 | 50 | 44 |
| **Cyfanswm** | 263 | 279 | 273 | 275 | 273 | 276 |

Dylid nodi bod y ffigyrau uchod yn cymryd yn ganiataol bod y plant yn mynychu'y ysgol dalgylch.





Yn unol â'r uchod, rhagwelir y bydd lleoedd dros ben yn amrywio fel a ganlyn:



Mae rhagamcanion yn awgrymu y bydd Ysgol Llandegfan yn parhau i fod yn orlawn ac y bydd Ysgol Llangoed yn lleihau tra bydd Ysgol Biwmares yn parhau i fod yn o leiaf hanner gwag. Gall ffactorau eraill effeithio ar niferoedd y disgyblion e.e. y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd sef y posibilrwydd o dai newydd yn cael eu hadeiladu yn nalgylchoedd yr ysgolion. Bydd yr Awdurdod yn cyd-weithio gyda'r asiantaethau perthnasol er mwyn cyd-gynllunio ar ragolygon niferoedd plant y dyfodol.


Petai'r cynnig i gau Ysgol Gynradd Biwmares yn cael ei wireddu, byddai'n cau ym Medi 2021. Byddai'r effaith ar niferoedd fel a ganlyn (mae hyn yn cymryd y byddai rhieni yn caniatáu i'w plant symud yno).

| Ysgol | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 | 2022 | 2023 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Biwmares** | 46 | 50 | 50 | | | |
| **Llandegfan** | 151 | 162 | 158 | 183 | 182 | 179 |
| **Llangoed** | 66 | 67 | 65 | 82 | 79 | 76 |




Petai'r cynnig i gau Ysgol Gynradd Llangoed yn cael ei wireddu byddai'n cau ym Medi 2021. Byddai'r effaith ar niferoedd fel a ganlyn (mae hyn yn cymryd y byddai rhieni yn caniatáu i'w plant symud yno).

| Ysgol | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 | 2022 | 2023 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Biwmares** | 46 | 50 | 50 | 83 | 84 | 86 |
| **Llandegfan** | 151 | 162 | 158 | 192 | 189 | 190 |
| **Llangoed** | 66 | 67 | 65 | | | |




Ar gyfer ysgolion cynradd ardal Seiriol, ystyriwyd effaith posib tai newydd yn ystod y cyfnod 2018-2026 yn nalgylch pob ysgol ar niferoedd disgyblion yn yr ysgol. Byddai hyn yn helpu deall beth fyddai'r twf ychwanegol tebygol yn y dalgylch.

Mae ffigyrau'n dangos fod gan bob tŷ ym Môn, ar gyfartaledd, 0.17 o blant oedran ysgol gynradd. O luosi nifer y datblygiadau tai gyda 0.17, ceir amcangyfrif o nifer y disgyblion ychwanegol fydd eisiau cael eu haddysg yn yr ysgol honno dros y cyfnod dan sylw sef 2018-2026.

| | Nifer tai | Nifer plant |
|---|---|---|
| Llandegfan | 33 | 6 |
| Biwmares | 80 | 14 |
| Llangoed | 46 | 8 |
| | **159** | **28** |

O ystyried y llefydd gweigion yn yr ysgolion, gweler bydd lle i'r disgyblion yn Ysgol Biwmares ac Ysgol Llangoed ond bydd Ysgol Llandegfan yn parhau i fod yn llawn neu'n orlawn dros y blynyddoedd nesaf. Gweler hefyd na fyddai'r cynnydd yn gwneud llawer o wahaniaeth i'r % llefydd gweigion yn Ysgol Biwmares.

**5.c Ffactorau Teithio a Daearyddol**

Mae Llywodraeth Cymru'n datgan na ddylai disgyblion o oed cynradd orfod teithio mwy na 45 munud bob ffordd i'r ysgol.
Mae'r ALl (Awdurdod Lleol) yn darparu cludiant di-dâl ar gyfer disgyblion ysgol gynradd sy'n byw **2 filltir** neu fwy o'r ysgol y maent yn byw yn ei dalgylch.
Mae Polisi Cludiant yr Awdurdod hefyd yn datgan:
"na ddarperir cludiant ar gyfer disgyblion meithrin rhan-amser"

Petai penderfyniad i gau Biwmares neu Llangoed byddai hyn yn arwain at newid yn nhrefniadau teithio i ddysgwyr o gyfeiriad Biwmares neu Langoed. Byddai swyddogion yr Awdurdod yn penderfynu os byddai angen darparu cludiant i Biwmares neu Langoed ar ôl cynnal asesiad diogelwch o'r llwybrau teithio.

**5.d Ymateb Cymunedol**

| Manylion yr ymgynghoriadau a’r ymgysylltu | Y grwpiau a ymgynghorwyd / ymgysylltwyd â hwy | Nifer a fynychodd | Prif faterion a godwyd | Ymateb yr Awdurdod |
|---|---|---|---|---|
| Ymgynghoriad Anstatudol<br><br>10 Mehefin - 30 Gorffennaf 2017 | Staff yr ysgolion dan sylw<br><br>Llywodraethwyr yr ysgolion dan sylw<br><br>Rhieni disgyblion yr ysgolion dan sylw<br><br>• Gweinidogion Cymru<br>• Aelodau Cynulliad Lleol a Rhanbarthol<br>• Aelod Seneddol lleol<br>• Estyn<br>• Undebau dysgu a staff sy’n cynrychioli athrawon a staff<br>• Consortiwm Addysg Rhanbarthol perthnasol – Gwe<br>• Consortiwm Trafnidiaeth Rhanbarthol perthnasol – Taith<br>• Y Comisiynydd Heddlu a Throseddu ar gyfer | Tua 26<br><br>G<br>og<br>le<br>dd<br>C<br>y<br>mr<br>u<br>• Ael<br>oda<br>u<br>eth<br>ole<br>dig<br>lleo<br>l | **<u>Ysgol Beaumaris</u>**<br><br>Tua 28<br><br>Tua 130 | ▪ Holwyd am leihau arwynebedd yr ysgol ac am y cyfleusterau tai gofal ychwanegol.<br>▪ Cludiant.<br><br>**<u>Ysgol Llandegfan</u>**<br><br>▪ Holodd |

| | |
|---|---|
| nifer am un ysgol gynradd newydd yn lle'r tair, ei lleoliad posib ac am y camau nesaf yn broses ymgynghori. | Nododd gwerthusiad opsiynau safle gan yr Awdurdod mai safle Ysgol Gynradd Beaumaris oedd y safle dewisol ar gyfer Tai Gofal Ychwanegol yn yr ardal.<br><br>Bydd materion traffig a theithio yn cael sylw fel rhan o Asesiad Effaith Traffig a gynhelir ar gyfer pob prosiect newydd.<br><br>Rhannwyd amserlen ddrafft gyda'r rhanddeiliaid.<br><br>Mae' Awdurdod yn cynnal ymgynghoriadau ac |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | • Darparwyr meithrin lleol<br>• Cynghorau Cymuned lleol<br>• Y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc (Ynys Môn a Gwynedd)<br>• Partneriaethau Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal - Swyddog Ieuenctid o fewn CSYM<br>• Penaethiaid yr ysgol uwchradd sy’n cynnwys dalgylchoedd yr ysgolion cynradd dan sylw<br>• Pennaeth y 3 ysgol gynradd dan sylw a'u Cyrff Llywodraethol.<br>• Swyddogion Addysg Personél a Swyddogion Derbyn CSYM<br>• Cyngor Gwynedd | | ▪ Cludiant i’r ysgol newydd posib a phryder am deithio ar lonydd bach, cul.<br>▪ Gofynnwyd pam mae Ysgol Llandegfan yn rhan o’r broses hyn?<br>▪ Penderfyniad wedi ei wneud yn barod<br>▪ Pryder am yr effaith posib o gau’r ysgol ar addysg cyn ysgol yn y pentref<br><br>**<u>Ysgol Llangoed</u>**<br>▪ Gofynnwyd pam mae Ysgol Llangoed yn rhan o’r broses hyn?<br>▪ Byddai cau’r ysgol yn wastraff o adnodd gymunedol | yn gwerthuso nifer o opsiynau er mwyn cyrraedd penderfyniad.<br><br>Ystyrir cyfleusterau cyn ysgol bob amser fel rhan o'r strategaeth addysg yn yr ardal. Yr hyn a wnaed yn y gorffennol yw sefydlu Grŵp Rhanddeiliaid ar ôl i'r Pwyllgor Gwaith wneud y penderfyniad. Byddai'r Grŵp Rhanddeiliaid yn helpu i bennu dyfodol unrhyw ddarpariaeth bresennol, e.e. drwy edrych ar leoliad arall addas.<br><br>Gweler y ddogfen ymgynghori statudol am y rhesymau.<br><br>Rhoddir ystyriaeth i'r materion hyn yn yr Asesiad Effaith sy’n |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | a ni fyddai unrhyw fudd addysgol nac economaidd yn deillio o hynny. | ddogfen weithredol a bydd yn parhau i gael ei ystyried gan y Grŵp Rhanddeiliaid. |
| Ymgynghoriad Statudol<br><br>20 Tachwedd – 6 Chwefror 2018 | Staff yr ysgolion dan sylw<br><br>Llywodraethwyr yr ysgolion dan sylw<br><br>Cynrychiolaeth o blant o'r ysgolion dan sylw | Tua 31<br><br>Tua 22<br><br>Tua 96 | **<u>Ysgol Beaumaris</u>**<br>▪ Holwyd am leihau arwynebedd yr ysgol ac am y cyfleusterau tai gofal ychwanegol.<br>▪ Nifer yn pryderu am gludiant a'r sefyllfa parthed llifogydd lleol.<br>▪ Angen amser i gynnig opsiynau amgen.<br>▪ Wedi paratoi holiadur eu hunain ac am gyflwyno Asesiad Effaith Cymunedol eu hunain.<br><br>**<u>Ysgol Llandegfan</u>**<br>▪ Angen rhoddi sylw i faterion traffig.<br><br>**<u>Ysgol Llangoed</u>**<br>▪ Llefydd digonol ar y safle i'r addasiadau?<br>▪ Parcio<br>▪ Sut rheoli a chadw'r ysgol ar agor yn ystod y broses addasu'r ysgol. | Yr opsiwn wedi ei ystyried yn y ddogfen ymgynghori statudol<br><br>Mae'r Awdurdod a Llywodraeth Cymru yn rhoi sylw i'r sefyllfa parthed y llifogydd yn lleol.<br><br>Rhoddwyd amser i'r rhanddeiliaid gynnig opsiynau amgen ac fe gwerthuswyd hwy yn y ddogfen ymgynghori statudol.<br><br>Bydd hyn yn cael sylw yn yr achosion busnes, os cymeradwyir yr opsiwn i addasu Ysgol Llangoed. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Sefydlu Grŵp Rhanddeiliaid | | I'w gadarnhau ar ôl penderfyniad Pwyllgor Gwaith, Cyngor Sir Ynys Môn | | |

Rhwng y cyfnod 20fed Tachwedd a 6ed Chwefor cynhaliwyd ymgynghoriad statudol ar ddyfodol darpariaeth ysgolion cynradd ardal Seiriol. Pwrpas yr ymgynghoriad oedd rhoi cyfle i drigolion lleol sy'n cael ei effeithio gan y cynigion i holi swyddogion y Cyngor ymhellach ac i leisio barn a chyflwyno sylwadau. Trafodwyd sawl agwedd gwahanol yn ystod y cyfarfod, gyda chrynodeb wedi'i baratoi uchod. Pwysleisiwyd perthynas agos sy'n bodoli rhwng yr ysgolion a'u cymunedau. Yn anochel roedd yr ansicrwydd am ddyfodol yr ysgolion yn codi pryder o ran ddyfodol y cymunedau, a'u cynaliadwyedd heb ysgol leol.

Roedd cyfle pellach fel rhan o'r ymgynghoriad statudol i drigolion lleol gyfrannu tuag at y cynnig a gyflwynwyd gan Bwyllgor Gwaith y Cyngor. Gwahoddwyd y rhanddeiliaid ogystal i gyfrannu tuag at yr asesiad effaith gymunedol trwy gwblhau arolwg er mwyn gallu gwella dealltwriaeth yr Awdurdod o bryderon a sylwadau'n cymunedau ac annog y cydweithio rhwng yr Awdurdod, yr ysgolion, rhieni a disgyblion.

Mae'r Awdurdod yn awyddus iawn i ffurfio partneriaeth o gydweithio ac felly wedi defnyddio'r arolwg i ganfod sut fydd yn effeithio cymunedau, yn unol â barn y rhanddeiliaid. Dyma grynodeb o'r sylwadau isod a chamau gweithredu.

Mae'r arolwg isod yn seiliedig ar y cynnig gwreiddiol o

- gau Ysgol Beaumaris ac i rieni'r disgyblion sydd ar y gofrestr adeg pan fydd y Pwyllgor Gwaith yn gwneud y penderfyniad , i ddatgan eu dewisiad am naill Ysgol Llandegfan neu Ysgol Llangoed, yn unol â'r polisi mynediad ysgolion,
- adolygu dalgylchoedd presennol y tair ysgol gyda'r bwriad o weithredu unrhyw newidiadau pan fydd Ysgol Beaumaris yn cau; ac
- adnewyddu Ysgol Llandegfan a Llangoed; ac
- ystyried ffedereiddio Ysgol Llangoed ac Ysgol Llandegfan ar ddiwedd y broses hon

| | Crynodeb o’r effaith posib ar gymunedau a nodwyd gan y Rhanddeiliaid | Effaith | Sylwadau / Mesurau Lliniaru yr Awdurdod | Effaith Weddilliol |
|---|---|---|---|---|
| Rhanddeiliad Ysgol Beaumaris | ▪ Dinistriol iawn i deuluoedd ifanc presennol Beaumaris Bydd yn anodd iawn i dref Beaumaris fod yn atynfa / boblogaidd i deuluoedd ifanc y dyfodol.<br>▪ Bydd yn arwain at dref ar gyfer yr henoed<br>▪ Tref heb ysgol dim mwyach yn dref. Effaith negyddol ar y cysyniad o ‘gymuned’<br>▪ Mae angen plant i gyfrannu at fywiogrwydd cymuned<br>▪ Bydd yn creu cymuned ‘hen’. Bydd cau ysgol yn achosi i boblogaeth y dref heneiddio fwy, a bydd hyn yn bwysau ychwanegol ar ein gwasanaethau iechyd.<br>▪ Rydym angen trawstoriad o bobl i wneud ‘cymuned’<br>▪ Niweidiol iawn i’r dref<br>▪ Anodd i’r genhedlaeth | ‘Neiniau a Theidiau’ | | Negyddol<br>Mae gan ardal Seiriol nifer |

| | | | |
|---|---|---|---|
| fawr o grwpiau cymunedol a gwirfodd | dol, a’r rheiny yn grwpiau sy’n ffynnu. Mae nifer fawr o weithgareddau a digwyddiadau yn cael eu cynnal i bobl o bob oed | yn rheolaidd yn yr ardal. Byddai cadw gweithgareddau y dref yn sicrhau parhâd o amgylchfyd gymdeithasol anffurfiol i’n rhanddeiliaid, a’r ymdymeimlad o ‘gymuned’.<br><br>Bydd yr Awdurdod a’r Cyrff Llywodraethu perthnasol yn sicrhau bod y ddarpariaeth ar ôl ysgol mor hygyrch â phosibl i bob disgybl, beth bynng fydd y penderfyniad am ddyfodol yr ysgol.<br><br>Dylid ystyried newidiadau demograffeg. Mae niferoedd y plant sy’n mynychu Ysgol Beaumaris wedi gostwng, er | Negyddol a Chadarnhaol |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | gludo a chasglu eu plant o un o'r ysgolion amgen i Beaumaris.<br>▪ Effaith niweidiol gan y bydd plant yn mynychu ysgolion oddi ar yr ynys, ac yn teithio i ysgol arall (nid Llangoed a Llandegfan)<br>▪ Dyfodol y dref dan fygythiad | | ei bod wedi ei lleoli mewn tref. Rydym yn cydnabod bod cyfleusterau addysgol lleol yn ffactor allweddol i rieni a theuluoedd ifanc wrth iddynt ystyried lleoliadau ar gyfer ymgartrefu, ond mae ystyriaethau allweddol eraill gan gynnwys fforddiadwyedd tai a'r cyfloedd gwaith sydd ar gael yn lleol hefyd yn cyfrannu at eu dewisiadau. | |
| Rhanddeiliaid Ysgol Llangoed | Bydd cau Ysgol Beaumaris yn arwain at gryfhau cymuned Llangoed, a bydd Llangoed yn cefnogi'r pobl sydd am fynychu Ysgol Llangoed ac byw tu allan i'r dalgylch.<br><br>Cydnabod bod cau Ysgol Beaumaris yn niweidiol i dref Beaumaris. | Negyddol a Niwtral | Bydd cydweithio ymysg yr ysgolion yn cael ei annog, os bydd y cynnig dan sylw yn cael ei gymeradwyo. Bydd yr Awdurdod yn annog gosod sylfeini ar gyfer cydweithio a chydgynllunio ymysg staff yr ysgolion. Bydd yr ysgolion sy'n parhau yn cynnal gweithgareddau ar y cyd, cyn i'r newid ddigwydd, er mwyn rhoi cyfle i'r plant ymgyfarwyddo hefo'i gilydd. | Cadarnhaol |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Rhanddeiliaid Ysgol Llandegfan | Yn cydnabod bod y cynnig dan sylw yn cael ychydig o effaith negyddol ar y cychwyn, gan nad oes neb eisiau gweld eu hysgol leol yn cau.<br><br>Bydd y cynnig yn cael effaith gadarnhaol ar Ysgol Llandegfan oherwydd bydd yn cynnig mwy o swyddi ac yn gwella ansawdd yr adeilad.<br><br>Roeddent yn croesawu'r addasiadau i'r adeilad ond dim y syniad o 'ffedereiddio'.<br><br>Yn ystyried cadw'r ysgol gyda'r niferoedd uchaf ar agor am gael llai o effaith ar y plant. | Negyddol a Chadarnhaol | Bydd cydweithio ymysg yr ysgolion yn cael ei annog, os bydd y cynnig dan sylw yn cael ei gymeradwyo. Bydd yr Awdurdod yn annog gosod sylfeini ar gyfer cydweithio a chydgynllunio ymysg staff yr ysgolion. Bydd yr ysgolion sy'n parhau yn cynnal gweithgareddau ar y cyd, cyn i'r newid ddigwydd, er mwyn rhoi cyfle i'r plant ymgyfarwyddo gyda'i gilydd. | Cadarnhaol |

## 5.e Mwy o wybodaeth am yr ysgolion

| | | Ysgol Beaumaris | Ysgol Llandegfan | Ysgol Llangoed |
|---|---|---|---|---|
| Plant yn byw yn y dalgylch sy'n mynychu'r ysgol | | | | |
| | | **83%** | **59%** | **77%** |
| Gwasanaethau a ddarperir gan yr ysgol i'r gymuned, gan gynnwys gweithgareddau allgyrsiol | | | | |
| **Gweithgaredd** | **Tymor ysgol** | **Amlder** | **Amlder** | **Amlder** |
| Clwb brecwast | Tymor ysgol | Dyddiol | Dyddiol | Dyddiol |
| Pêl-droed | Tymor ysgol | Unwaith yr wythnos | Unwaith yr wythnos | |
| Pêl-rwyd | Tymor ysgol | | Unwaith yr wythnos | |
| Urdd | Tymor ysgol | Unwaith pob pythefnos | Unwaith pob pythefnos | Unwaith yr wythnos |
| Clwb ar ôl Ysgol | Tymor ysgol | Dyddiol | | |
| Agor y llyfr | Tymor ysgol | Wythnosol | | |
| Tîm dan 5 ( mewn un dosbarth) | Tymor ysgol | dyddiol | | |
| Athrawon gyda gofal golwg disgyblion | Tymor ysgol | dyddiol | | |
| Gweithgareddau Cymdeithas Rhieni ac Athrawon | Tymor ysgol | | | 4 gwaith y tymor |
| Clwb Cadw'n Heini | Tymor ysgol | | Unwaith yr wythnos | |
| Clwb garddio | Tymor ysgol | | Unwaith yr wythnos | |
| Clwb Codio | Tymor ysgol | | Unwaith yr wythnos | |
| Gwasanaeth Diolchgarwch | Tymor ysgol | | Unwaith y flwyddyn | |
| Gwasanaeth Nadolig | Tymor ysgol | | Unwaith y flwyddyn | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Cyfleusterau cymunedol a ddefnyddir yn rheolaidd gan yr ysgol | | | | |
| e.e. Eglwys | | Eglwys/Capel – Agor y Llyfr | Capel, Neuadd y Plwyf, Eglwys | Neuadd Bentref<br><br>Cartref Henoed |
| Cyfleusterau cymunedol a ddarperir gan a gweithgaredd a gynhelir ar dir yr ysgol | | | | |
| Cylch Ti a Fi | Tymor ysgol | wythnosol | | |
| Ymarfer Band | Unrhyw adeg | achlysurol | | |
| Little Puffins – meithrin | Tymor yr ysgol a gwyliau haf. | dyddiol | | |
| Mudiad Meithrin | Tymor Ysgol | | 10 awr yr wythnos | |
| Playgroup | Tymor Ysgol | | 10 awr yr wythnos | |
| Clwb Gofal Plant | Tymor Ysgol<br><br>Gwyliau | | Pob noson rhwng 3 a 5:30. Pob Dydd Mawrth ac Iau rhwng 8 a 5:30 | |
| Ymarfer drama | | | | wythnosol |
| Effaith ar fusnesau a chyflogaeth leol | | | | |
| Busnesau manwerthu cyfleustra yn y dalgylch | | | Cyfrannu at weithgareddau megis:<br><br>Gwasanaethau Cofio<br><br>Canu Carolau | Siop a swyddfa bost lleol |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Clwb Coffi<br><br>Ras Hwyl Llandegfan<br><br>Ffair Nadolig | |
| Busnesau gofal plant yn y dalgylch<br>Busnesau sy'n cyflenwi'r ysgol yn y dalgylch | - | - | - |



Dengys wrth ddadansoddi'r wybodaeth a ddarparwyd gan y rhanddeiliaid bod amrediad o gyfleusterau a gweithgareddau yn cael eu cynnal yng nghymunedau'r ysgolion dan sylw. Rhagwelwn y bydd cyfleoedd a gweithgareddau cymunedol yn parhau i gael eu cynnal, beth bynnag fydd y penderfyniad. I bwrpas yr asesiad yma ac yn benodol ar gyfer yr asesiad cymunedol rydym wedi cymryd i ystyriaeth barn ein rhanddeiliaid ar gyfer asesu'r effaith posib ar ein cymunedau. Pwysleisiwn mai dogfen weithredol yw hon a byddwn yn parhau i roddi ystyriaeth i effaith y cynnig ar ein gweithgareddau cymunedol, ar ein trigolion yn ein cymunedau a'r bwriad i gydweithio ar fesurau lliniaru.

Os cymeradwyir y cynnig gan y Pwyllgor Gwaith bydd yr ysgolion sy'n parhau yn addas iawn ar gyfer cynnal gweithgareddau cymunedol, ni fydd newid yn hynny o beth. Dengys felly bod effaith gymunedol ar hyn o bryd yn negyddol. Os bydd effaith negyddol yn parhau bydd yr Awdurdod yn cyflwyno mesurau posib i liniaru hynny. Unwaith eto pwysleisiwn mai bwriad yr Awdurdod yw cydweithio efo cymunedau wrth i'r newid i drefniant presennol y 3 ysgol ddigwydd.

Crynodeb o effaith y cynnig dan sylw.

| Asesiad | Effaith (cyn cynnig dulliau a chamau lliniaru). |
|---|---|
| Cydraddoldeb | +7 |
| Ieithyddol | +5 |
| Cymunedol | -3 |

Dyma grynodeb o'r asesiadau. Pwysleisir mai astudiaethau cychwynnol yw'r rhain, a byddent yn cael eu diweddaru wrth i'r Awdurdod ynghyd â'r partneriaid weithio ar fesurau lliniaru i'r effaith negyddol cymunedol, yn bennaf.



Mae nifer o bartneriaid gan gynnwys Cyngor Sir Ynys Môn wedi ymgymryd â'r ymarfer 'Adeiladu Cymunedau' yn ardal Seiriol. Fel rhan o'r ymarfer ymgysylltwyd yn helaeth gyda nifer fawr o grwpiau cymunedol, i bwrpas cynnal sgyrsiau a datrysiadau rhwng darparwyr gwasanaeth a defnyddiwr gwasanaeth. Un o'r themâu blaenoriaeth a adnabuwyd oedd adeiladau a gweithgareddau cymunedol. Mae Rhaglen Moderneiddio Ysgolion yn cydnabod rôl a chyfraniad trigolion yn allweddol i gynnal cymunedau a byddwn yn barod (ynghyd â'n partneriaid) i adnabod a rhannu arfer dda mewn perthynas â hyn.

Fe'ch gwahoddir i gyfrannu tuag at yr asesiad effaith trwy gwblhau arolwg er mwyn gallu annog y cydweithio rhwng yr Awdurdod, yr ysgolion, rhieni a disgyblion. Mae'r dolen gyswllt wedi ei ddarparu isod. Gofynnir i chi gwblhau'r arolwg erbyn 2il o Gorffennaf 2018 os gwelwch yn dda.

https://www.smartsurvey.co.uk/s/QHSUW/

**ATODIAD 1**

**COFNOD O SYLWADAU GYNIGWYD MEWN YMGYNGHORIADAU BLAENOROL AC YMATEBION CYNGOR SIR YNYS MÔN IDDYNT**

Mae'r tabl isod yn rhestru'r sylwadau a dderbyniwyd fel rhan o'r ymgynghoriad statudol blaenorol ynghyd ag ymatebion Cyngor Sir Ynys Môn.

| Rhif | Sylw | Ymateb |
|---|---|---|
| 1. | Byddai cau Ysgol Gynradd Biwmares (YGB) yn cynyddu'r anghydbwysedd demograffig ym Miwmares<br>Mae angen i'r dref gadw'r ysgol i ddenu a chadw pobl ifanc i greu cymuned gytbwys. | Trafodir y materion hyn yn yr Asesiad Effaith a baratowyd gan yr Awdurdod. |
| 2. | Ni fydd rhieni yn ymgymryd â thaith dychwelyd i Langoed<br>Dim asesiad eto o rieni yn ffafrio Llandegfan gan nad yw ar lwybr teithio i'r gwaith. | Dywedwyd hyn yn y cyfarfodydd ymgynghori. Mae'r cynnig yn nodi pe bai Ysgol Gynradd Biwmares yn cau, dylai rhieni "ddatgan eu dewis ar gyfer naill ai Ysgol Llandegfan neu Ysgol Llangoed". Bydd hyn yn golygu bod rhieni yn gwneud dewis yn seiliedig ar eu patrymau gweithio. |
| 3. | Nid yw'r Cyngor wedi rhoi unrhyw arian i YGB i'w ddiweddaru a'i adnewyddu;<br>Dylai fod gan yr ysgol rywfaint o arian a gwaith moderneiddio yn cael ei wneud arni<br>Nid yw Ysgol Biwmares wedi cael "dim mewnbwn ariannol ers sawl blwyddyn". | Ers 2001, gwariwyd cyfanswm o £158,331 ar gynnal Ysgol Gynradd Biwmares. Mae hyn yn cymharu â £212,683 ar gyfer Ysgol Llandegfan a £162,776 ar gyfer Ysgol Llangoed. |
| 4. | Pam adeiladu mwy o gartrefi hen bobl pan rydych wedi cau rhai o'r blaen?<br>Mae digon o ofal i'r henoed ym Miwmares<br>Nid oes angen cartref gofal;<br>Mae yna gyfleuster gofal a adeiladwyd yn bwrpasol eisoes ar y safle yr ydych wedi | Caewyd "cartrefi hen bobl" o'r blaen gan nad oeddent yn addas i'r pwrpas. Yr hyn a gynigir yw Tai Ychwanegol – amrywiaeth o gefnogaeth (o byw'n annibynnol gyda goruchwyliaeth i ofal mwy dwys ac arbenigol). Byddai cyfleuster gofal ychwanegol newydd yn cydymffurfio â'r |

| | | |
|---|---|---|
| | cau ac wedi gadael i bydru. | Rheoliadau Adeiladu a safonau diweddaraf a byddai'n caniatáu i'r preswylwyr fyw'n annibynnol.<br>Noder nad yw hyn yn cael unrhyw effaith ar yr ymgynghoriad moderneiddio ysgolion. |
| 5. | Beth am ddefnyddio'r arian a ddefnyddir i adeiladu Tai Gofal Ychwanegol (TGY) i adeiladu cartrefi newydd i deuluoedd? | Byddai'r arian y gellid ei ddefnyddio i adeiladu TGY o ffynhonnell wahanol i'r arian a ddefnyddir i adeiladu cartrefi newydd i deuluoedd ac felly byddai'n amhosib.<br>Noder nad yw hyn yn cael unrhyw effaith ar yr ymgynghoriad moderneiddio ysgolion. |
| 6. | Os caeir hi, ni fyddai'n bosib ei dymchwel. | Byddai angen i'r Awdurdod gysylltu â CADW ynghylch dyfodol yr adeilad. |
| 7. | Dylai pob tref gael ysgol. Dylai tref gael ysgol | Nid oes gofyniad statudol i dref gael ysgol. |
| 8. | YGB sydd â'r unig faes pêl-droed yn y dref | Bydd asesiad o gaeau chwarae i Fiwmares yn cael ei adolygu. |
| 9. | Dylai'r Awdurdod gau pentref cyn Biwmares. | Mae'r ymgynghoriad yn ymwneud â dyfodol y ddarpariaeth addysg gynradd yn ardal Seiriol gyfan |
| 10. | Angen pwysleisio'r iaith Gymraeg yn Ysgol Llandegfan; | Mae hyn yn cael ei wneud yn unol â pholisi dwyieithog yr Awdurdod. Gweler yr Asesiad Effaith. |
| 11. | Mae angen datrys y cynnydd mewn traffig yn Ysgol Llandegfan | Bydd materion traffig yn cael sylw fel rhan o Asesiad Effaith Traffig a gynhelir ar gyfer pob prosiect newydd. |
| 12. | Nid oes unrhyw dir yn Llangoed a Llandegfan i ymestyn | Mae astudiaethau cychwynnol gan swyddogion Eiddo'r Awdurdod wedi dangos bod lle i'r ddau safle ymestyn yr ysgolion. |
| 13. | Mae Biwmares yn dod yn bentref ymddeol yn gyflym. Hoffwn weld strategaeth i wrthdroi hyn.<br>Nid yw tai yn yr ardal yn ddigon mawr<br>"Mae'r niferoedd isel o ddisgyblion yn | Mae aelodau etholedig lleol ac uwch swyddogion o fewn yr Awdurdod yn gweithio ar hyn. |

| | | |
|---|---|---|
| | Ysgol Biwmares yn adlewyrchu'r ffaith y gall teuluoedd newydd fforddio byw ym Miwmares"<br>Yn berffaith bosibl i ddenu teuluoedd i symud yma os yw pawb yn gweithio gyda'i gilydd!<br>Mae angen inni annog teuluoedd ifanc i'r ardal<br>Mae angen i lawer o gyfleusterau yn y dref gadw'r ysgol | |
| 14. | Dylech gau Llangoed nid Biwmares gan fod digon o le yn Biwmares | Ystyriwyd hyn yn Opsiwn 1 yn yr adroddiad ar yr ymgynghoriad anstatudol a sgoriodd 64 yn erbyn 79 am yr opsiwn a ffafrir. |
| 15. | Yn gallu cerdded i'r ysgol ond ni fyddai'n gallu gwneud hynny i Ysgol Llangoed neu Ysgol Llandegfan<br>Nid yw fy rhieni yn gyrru<br>Dibynnu ar eraill nad ydynt yn gyrru;<br>Ni fyddai'n gallu casglu neu ollwng plant i ffwrdd<br>Methu cerdded i ysgol arall<br>Ddim eisiau teithio mewn bws | Bydd materion traffig a theithio yn cael sylw fel rhan o Asesiad Effaith Traffig a gynhelir ar gyfer pob prosiect newydd. |
| 16. | Rwy'n teimlo bod gan y Cyngor Sir rwymedigaeth foesol i gymryd sylw a gweithredu ar y safbwyntiau a gyflwynwyd iddynt gan gymuned Biwmares. | Mae'r Awdurdod yn cymryd sylw o'r safbwyntiau a gyflwynir ac mae aelodau etholedig yn ymwybodol o'r ffactorau hyn wrth wneud penderfyniadau. Mae cynnal tair ysgol yn ardal Seiriol yn anghynaladwy. |
| 17. | Nid yw'r cynlluniau i gau YGB yn unol â Chynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (CDLl ar y Cyd) | Ni chrybwyllir dim yn y CDLl ar y Cyd sy'n datgan bod canolfannau gwasanaeth yn cynnwys cael ysgolion. |
| 18. | Nid oes sôn am sut y byddech chi'n delio â'r staff | Roedd y wybodaeth hon wedi'i chynnwys yn y wybodaeth atodol ac ni fyddai'n wahanol i'r arfer a sefydlwyd ar gyfer y 3 phrosiect diwethaf. |
| 19. | Defnyddio tir y tu ôl i'r ysgol i adeiladu tai | Byddai hyn yn cael ei ystyried gan swyddogion |

| | | |
|---|---|---|
| | ar gyfer teuluoedd ifanc a thir Haulfre yn ogystal. | Cynllunio perthnasol yn rhan o'r broses |
| 20. | Mae’r dogfennau'n anodd eu deall | Mae angen llawer o wybodaeth yn y dogfennau ymgynghori yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion. Mae'r Awdurdod yn ymdrechu i sicrhau bod y dogfennau mor hygyrch â phosib. |
| 21. | Mae'r gyrwyr newid yn y ddogfen yn lleihau mewn arwyddocâd | Nid yw'r Awdurdod yn cytuno bod y gyrwyr am newid yn lleihau mewn arwyddocâd ac felly'n parhau i'w defnyddio |
| 22. | Plentyn ag AAA | Nid yw'n glir os oes gan y disgybl yma Ddatganiad. Mae Datganiad yn ddogfen sy'n nodi Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) plentyn ac unrhyw gymorth ychwanegol y dylai'r plentyn ei dderbyn. Nod y Datganiad yw sicrhau bod y plentyn yn cael y gefnogaeth gywir i'w alluogi/galluogi i wneud cynnydd yn yr ysgol. Byddai'r Datganiad hwn yn parhau'n ddilys i unrhyw blentyn dan sylw. |
| 23. | Mae angen mynd i'r afael â phroblemau ffyrdd.<br>Mae angen datrys y sefyllfa o ran ffyrdd. | Mae gwaith i wella a chryfhau'r A545 yn parhau trwy Adran Priffyrdd yr Awdurdod. Bydd swm sylweddol yn cael ei wario ar sefydlogi'r brif ffordd rhwng Porthaethwy a Biwmares. |
| 24. | Anghytuno â’r TGY | Gwnaethpwyd y penderfyniad gan Bwyllgor gwaith yr Awdurdod ar 19 Chwefror 2018 |
| 25. | Byddai cau yn golled enfawr i'r dref a'r ardal gyfagos<br>Byddai cau yn creu anawsterau i rieni lleol a niweidio'r gymuned<br>Byddai colli'r ysgol yn chwyth drwm i ddyfodol y gymuned<br>Bydd y cynnig i gau YGB yn gwanhau'r gymuned leol.<br>Bydd cael cartref gofal yn y dref yn hytrach nag ysgol yn marwolaeth y dref, yn rhoi | Rhoddir ystyriaeth i'r materion hyn yn yr Asesiad Effaith a baratowyd gan yr Awdurdod a bydd yn parhau i gael ei ystyried. |

| | | |
|---|---|---|
| | teuluoedd ifanc i ffwrdd yn symud i'r dref<br>Bydd cau ein hysgol yn lladd ein tref | |
| 26. | Mae pwysigrwydd Little Puffins wedi cael ei anwybyddu<br><br>Mae clybiau yn yr ysgol yn llwyddiannus<br><br>Beth fydd yn digwydd i'r Clwb Brecwast? Clwb Puffins a'r Clwb ar ôl Ysgol? | Ystyrir cyfleusterau cyn ysgol bob amser fel rhan o'r strategaeth addysg yn yr ardal. Yr hyn a wnaed yn y gorffennol yw sefydlu Grŵp Rhanddeiliaid ar ôl i'r Pwyllgor Gwaith wneud y penderfyniad. Byddai'r Grŵp Rhanddeiliaid yn helpu i bennu dyfodol unrhyw ddarpariaeth bresennol, e.e. drwy edrych ar leoliad arall addas. |
| 27. | Gallai Llangoed a Biwmares rannu pennaeth | Ystyriwyd hyn yn Opsiwn 8 yn yr adroddiad ar yr ymgynghoriad anstatudol sef 19 Mehefin – 30 Gorffennaf 2017 a sgoriodd 64 yn erbyn 79 am yr opsiwn a ffafrir. |
| 28. | Torri'r llygredd yn y Cyngor - mae'n debyg y byddai hyn yn arbed miliynau; dylid cau Cyngor Sir Ynys Môn (CSYM) nid ein hysgol. | Nid oes llygredd yn y Cyngor. Caiff effeithiolrwydd y Cyngor ei harchwilio gan Swyddfa Archwilio Cymru a Llywodraeth Cymru yn barhaus. Mae CSYM yn wynebu heriau ariannol enfawr fel y mae mwyafrif yr awdurdodau lleol. |
| 29. | Cau'r ysgolion eraill a rhoi'r arian i mewn i'n hysgol a gwneud ysgol uwch; mae'r eraill yn bentrefi, bydd cau ein hysgol ni ladd ein tref | Ystyriwyd hyn yn Opsiwn 12 yn yr adroddiad ar yr ymgynghoriad anstatudol a sgoriodd 66 yn erbyn 79 am yr opsiwn a ffafrir. Roedd diffyg tir addas yn ffactor yn hyn o beth. |
| 30. | Gallai'r ysgol hon wasanaethu fel prif ysgol y dalgylch ~ 250 | Ystyriwyd hyn yn Opsiwn 12 yn yr adroddiad ar yr ymgynghoriad anstatudol a sgoriodd 66 yn erbyn 79 am yr opsiwn a ffafrir. |
| 31. | Cau Llangoed yn hytrach na YGB, gallai Biwmares yn hawdd gymryd yr holl ddisgyblion. Defnyddiwch safle Llangoed i ddatblygu i fod yn gyfleusterau gofal ychwanegol – mae mynediad haws i siop, swyddfa bost ac arhosfan bws yno, mae hwn yn safle lefel ac NID ar ben allt serth. | Fe ystyriwyd hyn yn Opsiwn 1 yn yr adroddiad ar yr ymgynghoriad anstatudol a sgoriodd 64 yn erbyn 79 am yr opsiwn a ffafrir. |

| | | |
|---|---|---|
| | Rhowch ECH yn Llangoed a defnyddiwch safle YGB ar gyfer ysgol uwch | |
| 32. | Datblygu model arloesol lle mae disgyblion YGB a phobl hyn yn ECH yn dysgu gyda'i gilydd;<br>byddai cau'n cael effaith negyddol ar gymuned y dref a gallai arwain at deuluoedd sy'n siarad Cymraeg iau yn symud i ffwrdd o'r dref. | Dyma un o'r opsiynau a gyflwynwyd gan Lywodraethwyr Ysgol Gynradd Biwmares a sgoriodd 72 yn erbyn 79 am yr opsiwn a ffafrir. |
| 33. | Byddai mynediad at ac oddi wrth TGY yn anodd a byddai'n effeithio ar y feddygfa ac ar brisiau tai. | Nododd gwerthusiad opsiynau safle gan yr Awdurdod mai safle Ysgol Gynradd Biwmares oedd y safle dewisol ar gyfer Tai Gofal Ychwanegol yn yr ardal |
| 34. | Dylai pob plentyn allu cael dewis o gerdded i'w hysgol leol;<br>byddai cael bysiau ddwywaith y dydd i Langoed / Llandegfan yn cael effaith enfawr ar lygredd aer a'r amgylchedd | Nid yw'n bosibl i bob plentyn allu cerdded i'r ysgol. Mae'r cyfrifiadau yn yr adroddiad yn dangos na fyddai'r defnydd o fysiau yn cael mwy o effaith ar yr amgylchedd na chau Ysgol Gynradd Biwmares. Gellir gweld hyn yn adran 12 yr adroddiad ar yr ymgynghoriad statudol (20 Tachwedd 2017 – 6 Chwefror 2018). |

This page is intentionally left blank